

# **Cyfieithu Llenyddiaeth Plant i'r Gymraeg: Tair Astudiaeth Achos**

Traethawd MPhil

Ffion Haf Pritchard

Prifysgol Caerdydd

Ysgol y Gymraeg

2014

## DATGANIAD

Ni chafodd y gwaith hwn ei gyflwyno'n sylweddol ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall yn y brifysgol hon neu unrhyw brifysgol neu fan dysgu arall, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall.

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad .....

## GOSODIAD 1

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn cael ei gyflwyno i gyflawni'n rhannol ofynion gradd .....(nodwch MCh, MD, MPhil, PhD ac ati, fel y bo'n briodol)

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad .....

## GOSODIAD 2

Mae'r traethawd hwn yn ganlyniad fy ngwaith/ymchwiliad annibynnol fy hun, oni ddywedir fel arall.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan gyfeiriadau eglur. Fy syniadau i yw'r syniadau a fynegir.

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad .....

## GOSODIAD 3

Trwy hyn, rwy'n rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os bydd yn cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopio ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol, ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad .....

## GOSODIAD 4: GWAHARDDIAD AR FYNEDIAD A GYMERADWYWYD YMLAEN LLAW

Trwy hyn, rwy'n rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os bydd yn cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopio ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol **ar ôl i waharddiad ar fynediad a gymeradwywyd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Datblygu Graddedigion ddod i ben.**

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad .....

## **Diolchiadau**

Hoffwn ddiolch i'm cyfarwyddwyr, yr Athro Sioned Davies a Dr Siwan Rosser, am eu harweiniad a'u cefnogaeth barod. Diolch mawr i'm teulu a'm ffrindiau am eu cymorth cyson.

# Crynodeb

Cyfieithu llenyddiaeth plant i'r Gymraeg yw pwnc y traethawd hwn. Ceir tair rhan i'r traethawd sef trafodaeth o'r damcaniaethau yn y maes, dadansoddiad o dair nofel sydd wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg, a rhan ymarferol lle yr eir ati i roi'r theorïau ar waith a chyfieithu darn o nofel. Yn y bennod gyntaf, trafodir theori cyfieithu yn gyffredinol. Yn ogystal â hyn, trafodir nodweddion arbennig ym maes cyfieithu llenyddiaeth plant, gan dynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng cyfieithu i oedolion a chyfieithu i blant. Yn yr ail bennod, astudir yr heriau penodol wrth gyfieithu'r o'r Saesneg yn gyffredinol, ynghyd â'r heriau penodol wrth gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg. Yn y drydedd, y bedwaredd a'r bumed bennod, ymdrinnir â chyfieithiadau i'r Gymraeg o dair nofel i blant, sef *James and the Giant Peach* (Roald Dahl), *Harry Potter and the Philosopher's Stone* (J. K. Rowling) a *Vicky Angel* (Jacqueline Wilson). Canolbwyntir ar yr heriau penodol sydd yn wynebu'r cyfieithwyr a'r strategaethau arbennig a ddefnyddir ganddynt. Dyma brif ran y traethawd. Trwy ddadansoddi a chymharu'r cyfieithiadau â'r nofelau gwreiddiol, dadleuir pa strategaethau sy'n llwyddiannus a gwelir ymdrech i adnabod arfer da wrth gyfieithu ar gyfer plant. Yn y bennod olaf, cyfieithir tair pennod fer o'r nofel *Mulla Nasruddin* gan Sampurna Chattarji, a hynny mewn dwy ffordd wahanol, sef drwy gyfieithu'n agos a chyfieithu'n ddiwylliannol, gan gynnig rhesymau dros y prif benderfyniadau. Y gobaith yw y bydd y traethawd o fudd i gynulleidfaoedd academaidd ac i ymarferwyr ym maes cyfieithu fel ei gilydd. Pwrpas y traethawd, hefyd, yw ennyn diddordeb cyffredinol yn y pwnc a chyfrannu at ddealltwriaeth unigolion eraill nad ydynt yn arbenigwyr, megis rhieni ac athrawon, o'r heriau sy'n ymwneud â chyfieithu llenyddiaeth plant.

# Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
<b>Rhagymadrodd</b>	<b>1</b>
<b>Pennod 1</b> Theori Cyfieithu	<b>8</b>
<b>Pennod 2</b> Heriau Cyffredin wrth Gyfieithu o'r Saesneg	<b>28</b>
<b>Pennod 3</b> Astudiaeth Achos 1 — Cyfieithu <i>James and the Giant Peach</i>	<b>41</b>
<b>Pennod 4</b> Astudiaeth Achos 2 — Cyfieithu <i>Harry Potter and the Philosopher's Stone</i>	<b>68</b>
<b>Pennod 5</b> Astudiaeth Achos 3 — Addasu <i>Vicky Angel</i>	<b>94</b>
<b>Pennod 6</b> Rhoi'r Theori ar Waith	<b>119</b>
<b>Casgliad</b>	<b>149</b>
<b>Atodiad 1</b> <i>James and the Giant Peach/James a'r Eirinen Wlanog Enfawr</i>	<b>153</b>
<b>Atodiad 2</b> <i>Harry Potter and the Philosopher's Stone/Harri Potter a Maen yr Athronydd</i>	<b>155</b>
<b>Atodiad 3</b> <i>Vicky Angel/Lowri Angel</i>	<b>163</b>
<b>Atodiad 4</b> <i>Mulla Nasruddin</i> gan Sampurna Chattarji	<b>166</b>
<b>Llyfryddiaeth</b>	<b>171</b>

# Rhagymadrodd

Y duedd yw ystyried ysgrifennu i blant fel rhywbeth arwynebol a syml ond fel y dywed Strachan, '[w]riting is hard work, and it's not easier because the readers are children' (2008, t.vii). Er hyn, gellid cytuno â Hunt sydd yn dadlau, '[children's books] have been largely beneath the notice of intellectual and cultural gurus' (1999, t.7). Yn wir, hyd heddiw, y mae'r parch academaidd tuag at lenyddiaeth plant yn tueddu i fod yn llai o lawer na'r parch tuag at lenyddiaeth i oedolion (Zipes 2002, t.73).

Law yn llaw â hyn, y mae *cyfieithu* llenyddiaeth plant yn faes ymylol yn y byd cyfieithu yn gyffredinol (Lathey 2006 a 2010). Ys dywed O'Connell,

Children's literature has long been the site of tremendous translation activity and so it has come as something of surprise to me to discover recently the extent to which this area remains largely ignored by theorists, publishers and academic institutions involved in translation research and training. (1999, t.15)

Ceir lliaws o lyfrau defnyddiol a chyfoes ar theori cyfieithu, gan gynnwys llyfrau gan yr arbenigwr mawr ar gyfieithu, Venuti (*The Translator's Invisibility: A History of Translation* (1995)), a gwerslyfrau gan ysgolheigion megis Susan Bassnett (*Translation Studies* (1988)) a Hatim a Munday (*Translation: An Advanced Resource Book* (2004)). Serch hynny, ychydig iawn o ddeunydd sydd ar gyfieithu llenyddiaeth plant o gymharu â deunydd ar gyfieithu yn benodol. Er bod rhai cyfrolau yn trafod theori cyfieithu llenyddiaeth plant, megis *The Translation of Children's Literature* (2010) gan Gillian Lathey (gol.), y mae gwir angen mwy o gyhoeddiadau yn y maes.

Os yw hyn yn wir am y maes yn y Saesneg, mae mwy o angen fyth am ymchwil ar gyfieithu llenyddiaeth plant i'r Gymraeg. Er bod ysgolheigion megis Sioned Davies a Siwan Rosser wedi cyhoeddi erthyglau ar gyfieithu llenyddiaeth plant o'r Saesneg i'r Gymraeg, gan gynnwys 'O Alice i Alys: cyfieithu clasur i'r Gymraeg' (2012) ac "'Albert Maywood': brodorion

America, Thomas Levi a dechreuadau'r stori antur i blant' (2009), nid oes gwaith ymchwil hyd y gwn i wedi ymddangos ar gyfieithu nofelau cyfoes i blant o'r Saesneg i'r Gymraeg, sydd yn awgrymu mai prin yw'r sylw a roddwyd hyd yma i'r maes yn gyffredinol.

'Translation is almost as old as original authorship and has a history as honourable and as complex as that of any other branch of literature' (Savory 1968, t.37). Y mae cyfieithu wedi bod yn broses hanfodol yn natblygiad llenyddol pob iaith Ewropeaidd (Weissbert ac Eysteinnsson 2006, t.1), gan gynnwys y Gymraeg. Yn wir, dadleua nifer, e.e. Derec Llwyd Morgan yn ei lyfr *Y Beibl a Llenyddiaeth Gymraeg* (1998), pe na bai'r Beibl wedi'i gyfieithu yn 1588 i'r Gymraeg, ni fyddai'r iaith wedi goroesi fel iaith fyw. Y mae cyfieithu i'r Gymraeg yn chwarae rôl bwysig hyd heddiw, ac yn arbennig felly ym maes cyfieithu llenyddiaeth plant. Dadleua Gramich, 'perhaps the translators of *Spot* are today performing a function as essential to the survival of the language as William Morgan did over four centuries ago' (1997, t.3).

Y mae angen ystyried nifer o ffactorau ychwanegol wrth gyfieithu ar gyfer plant, o'i gymharu â chyfieithu ar gyfer oedolion. Oherwydd gwybodaeth gyfyngedig plant, wyneba cyfieithwyr drafferthion wrth addasu testunau i lefel dealltwriaeth plentyn; yn aml y mae angen ystyried o hyd y gwahaniaethau diwylliannol rhwng y testun ffynhonnell ac ystyried yr hyn sy'n dderbyniol i'r diwylliant targed. Dengys hyn fod pwnc cyfieithu llenyddiaeth plant yn gymhleth iawn: 'Contrary to what is commonly believed, writing and translating for children is not an easy job, done in an offhand manner, but a problematic and yet fascinating occupation' (Puurtinen 1994, t.63).

Bwriad y traethawd yw gwednewid y syniad cyffredin mai proses 'hawdd' yw cynhyrchu llenyddiaeth ar gyfer plant, gan ddangos mai maes astrus a heriol yw cyfieithu i blant.

Trafodir sut aethpwyd ati i gyfieithu tair nofel boblogaidd i blant o'r Saesneg i'r Gymraeg gan ystyried theori cyfieithu a'r heriau sy'n codi wrth gyfieithu yn gyffredinol ac wrth gyfieithu yn arbennig ar gyfer plant. Trwy hyn, y gobaith yw rhoi sylw a gwerth i'r maes yn y byd academiaidd. Ceisir gwneud hyn drwy ystyried y cwestiynau ymchwil canlynol:

1. Beth yw'r strategaethau cyffredin a ddefnyddir wrth gyfieithu?
2. Beth yw'r gwahaniaethau rhwng cyfieithu ar gyfer plant a chyfieithu ar gyfer oedolion?
3. A yw cyfieithu ar gyfer plant yn fwy heriol na chyfieithu ar gyfer oedolion?
4. Beth yw'r prif heriau wrth gyfieithu o'r Saesneg yn gyffredinol ac wrth gyfieithu yn benodol i'r Gymraeg?
5. Sut mae cyfieithwyr yn ymateb i heriau cyfieithu?
6. Beth sy'n gwneud cyfieithiad llwyddiannus?

Yn y bennod gyntaf, canolbwyntir ar theori cyfieithu yn gyffredinol. Amlinellir datblygiad theori cyfieithu dros y degawdau diwethaf a thynnu sylw at amryw o ddulliau a chysyniadau poblogaidd megis 'cywerthedd' a theori *skopos*. Yna, trafodir y gwahaniaethau rhwng cyfieithu ac addasu, gan nodi safbwyntiau ysgolheigion ynglŷn â'r ddau fodel, cyn symud ymlaen i ganolbwyntio ar y gwahaniaethau rhwng cyfieithu ac addasu ar gyfer oedolion a phlant, gan gynnwys pwysigrwydd darluniau mewn cyfrolau i'r ifainc. Yn olaf, trafodir pam fod *addasu* testunau yn fwy cyffredin wrth gyfieithu i blant.

Cyn trafod sut y troswyd y tri chyfieithiad dan sylw, manylir yn yr ail bennod ar yr heriau cyffredinol wrth gyfieithu o'r Saesneg i unrhyw iaith arall, megis cyfieithu enwau priod a nodweddion tafodieithol. Yna, ymdrinnir â'r heriau penodol wrth gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, gan gymryd i ystyriaeth y gymdeithas ddwyieithog yng Nghymru a'r ffaith bod y Saesneg yn holl bresennol. Prif ran y traethawd (pennod 3, 4, a 5) yw cyflwyno tair astudiaeth achos, gan drafod yn fanwl yr heriau arbennig a oedd yn wynebu'r cyfieithwyr. Dadansoddir y tair astudiaeth achos yng ngoleuni'r drafodaeth ym mhennod 1 a 2. Y nofelau a'r cyfieithiadau a ddewiswyd yw: *James and the Giant Peach* gan Roald Dahl (1961) a gyfieithwyd fel *James a'r Eirinen Wlanog Enfawr* gan Elin Meek (2003); *Harry Potter and*



*the Philosopher's Stone* gan J. K. Rowling (1997) a gyfieithwyd fel *Harri Potter a Maen yr Athronydd* gan Emily Huws (2003); *Vicky Angel* gan Jacqueline Wilson (2000) a addaswyd fel *Lowri Angel* gan Elin Meek (2011). Dadleua Emer O'Sullivan:

we are more inclined to speak of losses than gains in translation... If we read a text first in its original language and then in the language of translation, we risk setting out to hunt for errors of translation. (yn Desmet 2006, t.123)

Yn ogystal â thrafod yr hyn a 'gollir' yn y testunau Cymraeg, hoffwn dynnu sylw at nodweddion sy'n fwy llwyddiannus, yn fy marn i, yn y testun targed nag yn y testun ffynhonnell.

Dewisais ganolbwyntio ar gyfieithiadau o dair nofel gan dri o awduron mwyaf poblogaidd ac enwog Prydain sef Roald Dahl, J. K. Rowling a Jacqueline Wilson. Er bod Roald Dahl a Jacqueline Wilson wedi cyhoeddi nofelau i blant o amryw oedrannau a bod y tri awdur wedi cyhoeddi i oedolion yn ogystal â phlant, canolbwyntir ar nofelau sydd wedi'u hanelu'n benodol at blant rhwng 9 ac 11 oed — trwy gyhoeddi nofelau i blant rhwng yr oedrannau hyn yr enillodd yr awduron eu poblogrwydd byd eang. Roald Dahl yw un o hoff awduron plant Prydain; yn wir, ef oedd un o'm hoff awduron pan oeddwn yn blentyn. Ymgollais yn llwyr yn hanes *Charlie and the Chocolate Factory*, gyda'r gweithwyr anghyffredin a'r losin rhyfeddol. Roedd *James and the Giant Peach* hefyd yn nofel llawn nodweddion rhyfeddol imi; roedd yn apelio at fy nychymyg ac roeddwn yn mwynhau darllen ac adrodd y cerddi llawn nonsens a'r elfennau digrif. Dewisais drafod un o'i nofelau ef felly am fod ei straeon, hyd yn oed heddiw, dros ugain mlynedd wedi ei farwolaeth, yn parhau i gael eu mwynhau a'u darllen gan blant ledled y byd. Yn wir, clasuron yw ei nofelau.

Penderfynais ddewis y tair nofel am eu bod i gyd yn wahanol i'w gilydd am amryw o resymau. Er enghraifft, daw *James and the Giant Peach* o gyfnod ychydig yn gynharach na nofelau Rowling a Wilson. Diddorol yw astudio nofelau o gyfnodau gwahanol am fod heriau

ychwanegol yn wynebu cyfieithydd sy'n trosi nofel o gyfnod arall (o safbwynt yr iaith ac unrhyw nodweddion eraill sy'n gallu dyddio). Yn ogystal â hyn, y mae nofelau Dahl yn wahanol i straeon Rowling a Wilson am eu bod wedi'u hysgrifennu gan ddyn. Y duedd gyffredinol yw i awduron benywaidd ysgrifennu a chyfieithu ar gyfer plant (O'Connell 1999, t.18); serch hynny, gellid dadlau mai Roald Dahl yw awdur mwyaf poblogaidd Prydain ym maes llenyddiaeth plant. Y mae hefyd yn ddiddorol nodi mai benywaidd yw cyfieithwyr y nofelau a ddewisais (gydag Elin Meek yn gyfrifol am gyfieithu dwy o'r nofelau), sy'n cryfhau'r gred gyffredinol mai maes ar gyfer menywod yw llenyddiaeth plant.

Yn wahanol i nifer o blant fy oedran i, ni chefais fy ngwfreiddio gan y gyfres *Harry Potter* gan J. K. Rowling. Er nad oeddwn wedi darllen y nofelau neu wyllo'r ffilmiau, roeddwn yn gwybod pwy oedd y cymeriadau a pha anturiaethau oedd yn wynebu Harry Potter a'i ddau ffrind. Yn wir, nid oedd hi'n bosibl dianc o'r ffenomen. Nid oes un gyfres, neu un cymeriad erioed wedi gwfreiddio gwlad gyfan gymaint ag y mae Harry Potter wedi llwyddo i'w wneud. Y mae cymaint o erthyglau a thraethodau ymchwil wedi cael eu cyhoeddi ar gyfieithu gwaith J. K. Rowling i ieithoedd eraill, fel y teimlais mai hanfodol oedd rhoi sylw i'r cyfieithiad Cymraeg hefyd yn y traethawd hwn. Rheswm arall dros ddewis y nofel hon oedd o ganlyniad i lwyddiant anhygoel y ffilmiau. Y mae'n wir dweud bod ffilmiau'r gyfres yr un mor boblogaidd â'r llyfrau. A greodd hyn, felly, heriau ychwanegol i'r cyfieithydd wrth benderfynu sut i drosi enwau'r cymeriadau a lleoliadau'r stori?

Mae'r trydydd awdur, Jacqueline Wilson, yn boblogaidd nid am drafod dewiniaeth a nodweddion hudol yn ei nofelau, ond am ei bod yn trafod realiti:

Critics, in trying to account for the extraordinary popularity of J. K. Rowling's *Harry Potter* books, frequently put forward as one reason children's perennial need for exciting, exotic fantasy in their reading. Yet the enormous success over the past decade of Jacqueline Wilson's stories for the 8 to 12 age group is a reminder that children also relish

stories set in far from glamorous surroundings and where the emphasis is firmly upon everyday reality. (Gamble a Tucker 2001, t.69)

O ganlyniad i hyn, penderfynais ddewis un o'i nofelau hi i'w trafod am eu bod hwy'n sôn am bynciau gwahanol i nofelau'r ddau awdur arall. Jacqueline Wilson oedd un o'm hoff awduron pan oeddwn yn ferch ifanc. Cofiaf fwynhau darllen am anturiaethau Tracy Beaker mewn cartref i blant, a chydymdeimlo â Jade pan gollodd ei ffrind gorau Vicky yn *Vicky Angel*. Hyd heddiw, ugain mlynedd ar ôl cyhoeddi ei llyfr poblogaidd cyntaf *The Story of Tracy Beaker* (1991), y mae merched ifainc yn parhau i ymddiddori yn ei nofelau. Er ei phoblogrwydd o hyd ym Mhrydain (Gamble a Tucker 2001, t.69), ychydig o sylw a roddodd ysgolheigion i waith yr awdures hon. Trafodir gwaith awduron megis J. K. Rowling<sup>1</sup> a Phillip Pullman<sup>2</sup>, ond prin yw'r sylw a roddir i Jacqueline Wilson. Dyma drueni mawr yn fy marn i, am fod yr awdures yn trafod pynciau dwys a difrifol y gall nifer o blant uniaethu â hwy, gan gynnwys pynciau a ystyrir yn dabw mewn llenyddiaeth plant, megis iselder meddwl, anorecsia a bwlio (Gamble a Tucker 2001, t.72). Dyma un o brif awduron llenyddiaeth plant sydd wedi gwerthu 30 miliwn o gopiau o'i llyfrau ym Mhrydain ac mae ei gwaith yn ogystal wedi'i gyfieithu i dros 30 o ieithoedd (Fisk 2006, t.19). Y mae'n amlwg bod ei gwaith yn rhan o brofiad darllen plant, fel J. K. Rowling a Roald Dahl hwythau, a gellid dadlau felly fod ei nofelau hi a'r cyfieithiadau yn haeddu lle mewn astudiaethau academiaidd.

Wrth drafod y cyfieithiadau, cedwir y cwestiynau ymchwil mewn cof o hyd. Manylir ar y strategaethau a ddefnyddir gan y cyfieithwyr, gan geisio penderfynu beth sy'n gwneud cyfieithiad llwyddiannus. Ystyrir sut mae'r cyfieithwyr yn ymateb yn gyffredinol i'r her o gyfieithu, yn ogystal â'r heriau sy'n benodol i gyfieithu ar gyfer plant, a sut maent yn ceisio gwneud iawn am unrhyw 'golledion'. Ceir casgliad ar ddiwedd pob astudiaeth achos, a nodir

---

<sup>1</sup> Ceir lliaws o erthyglau yn trafod gwahanol agweddau ar y gyfres *Harry Potter* megis rhyw a hil (e.e. yn *Reading Harry Potter* a olygwyd gan Giselle Liza Anatol (2003)).

<sup>2</sup> Er enghraifft, *His Dark Materials Illuminated: Critical Essays on Phillip Pullman's Trilogy* a olygwyd gan Millicent Lenz a Carole Scott (2005).

ym mhob un y strategaethau a ddefnyddiwyd gan y cyfieithydd a beth oedd y penderfyniadau mwyaf llwyddiannus ac aflwyddiannus.

Yn sgil y gwaith ymchwil ar y tri chyfieithiad, penderfynwyd mai buddiol fyddai mynd ati i droi o'r theori i'r ymarferol, a rhoi cynnig ar gyfieithu fy hun. Ym Mhennod 6, cyfieithir tair pennod o nofel i blant rhwng 9 ac 11 oed o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn dwy ffordd, sef drwy gyfieithu'n agos at y testun ffynhonnell yn gyntaf ac yna drwy addasu a domestigeiddio'r testun i'r diwylliant targed. Dewisais y nofel *Mulla Nasruddin* gan Sampurna Chattarji, awdures o'r India. Yn ogystal â'r ddau gyfieithiad, ceir dadansoddiad o'r penderfyniadau ac ymdriniaeth â'r dulliau a'r strategaethau a ddewiswyd gennyf.

Er bod diddordeb ar gynnydd mewn llenyddiaeth plant a chyfieithiadau, y mae'n parhau'n faes sydd angen ei ddatblygu, yn arbennig felly yn y Gymraeg. Y gobaith yw y bydd y traethawd hwn yn ysgogi rhagor o bobl i ymddiddori ym maes cyfieithu llenyddiaeth plant i'r Gymraeg a'i ddefnyddio fel sail ar gyfer gwaith ymchwil pellach yn y dyfodol.

# Pennod 1

## Theori Cyfieithu

Bwriad y bennod hon yw rhoi cyd-destun i'r ymchwil, a hynny drwy gynnig arolwg cyffredinol o theori cyfieithu yn gyntaf cyn canolbwyntio'n benodol ar gyfieithu llenyddiaeth plant. Rhennir y bennod yn bedair isadran, fel y nodwyd eisoes. Nod y bennod yw cynnig rhai atebion i gwestiynau hollbwysig ym maes cyfieithu i blant a dangos yn glir nad tasg hawdd yw cyfieithu ar gyfer cynulleidfa ifanc.

### 1.1 Datblygiad Theori Cyfieithu

Maes academiaidd lled newydd yw maes theori cyfieithu. Wedi dweud hynny, gellid dadlau bod unigolion wedi ysgrifennu ar y pwnc ers amser maith. Fel y dywed Edwin Gentzler, '[t]ranslation theory is and is not a new field' (2001, t.1). Dim ond er 1983 y rhowyd sylw i'r maes yn *The Modern Language Association International Bibliography* (Gentzler 2001, t.1), gan roi iddo felly gydnabyddiaeth yn y byd academiaidd. Serch hynny, gellir olrhain yr ymdrechion cynharaf i lunio theori cyfieithu yn ôl i'r cyfnod cyn Crist. Yn y cyfnod clasurol, yr oedd yn gyffredin i'r rheiny a oedd yn cyfieithu o'r Roeg i gyfieithu'n llythrennol, 'gair-am-air' (Hatim a Munday 2004, t.11). Ond dadleuodd Cicero, cyfreithiwr ac awdur Rhufeinig, nad oedd ef yn cyfieithu'n llythrennol; yn hytrach, ceisiai drosglwyddo arddull a grym yr iaith (yn Hatim a Munday 2004, t.11). Bedair canrif yn ddiweddarach, noda Saint Jerome, a gyfieithodd y Beibl o'r Roeg i'r Lladin, 'I render not **word-for-word** but **sense-for-sense**' (yn Hatim a Munday 2004, t.11). Hyd heddiw, gwelir bod dadleuon ynglŷn

â chyfieithu'n 'llythrennol' neu'n 'rhydd' yn parhau ym maes theori cyfieithu (Hatim a Munday 2004, t.11).<sup>3</sup>

Wrth i wledydd ddechrau cysylltu fwyfwy â'i gilydd, cafwyd cynnydd yn yr angen am gyfieithu. Yn ôl Newmark, gyda chynnydd yn nifer y cyfieithwyr a chyfieithiadau, y gred gyffredinol ymysg ysgolheigion erbyn y 1950au oedd bod angen rhyw fath o theori cyfieithu (1981, t.4). Noda Newmark mai'r prif reswm am ddatblygu math o theori cyfieithu oedd oherwydd bod ansawdd cyfieithu yn ystod y cyfnod yn wael iawn ac felly datblygwyd theori cyfieithu i ddarparu canllawiau ar gyfer cyfieithu gwahanol destunau (1981, t.19). Y disgwyl oedd y byddai llunio theori yn gymorth i gyfieithwyr drwy gynnig rheolau er mwyn gwella ansawdd cyfieithiadau.

Er mwyn rhoi cyd-destun pellach i'r drafodaeth sydd i ddilyn, trafodir yn awr rai o'r cysyniadau canolog ym maes theori cyfieithu, gan ganolbwyntio ar y rheiny sydd fwyaf priodol i'r astudiaeth arbennig hon.

### **1.1.1 Cywerthedd**

Un o brif gysyniadau theori cyfieithu yw cywerthedd, cysyniad a drafodir yn fanwl gan un o'r ysgolheigion mwyaf blaenllaw ar y pwnc, sef Eugene Nida. Lluniodd Nida theori yngŷn â chywerthedd dynamig ('dynamic equivalence') a chywerthedd ffurfiol ('formal equivalence'). Er mai ffocws ei waith yw cyfieithiadau o'r Beibl, y mae ei theoriau yn briodol i unrhyw waith cyfieithu. Cywerthedd dynamig Nida, o bosibl, yw'r cysyniad 'cywerthedd' pwysicaf ac un o'i brif gyfraniadau i astudiaethau cyfieithu. Cyflwynodd

---

<sup>3</sup> Am drafodaethau cyffredinol yn y maes, gweler, er enghraifft, gyfrolau Basnett (1988), Hatim a Munday (2004), Venuti (1995 a 2010), ac eraill. Trafodir ganddynt y frwydr barhaus rhwng cyfieithu'n agos at y testun ffynhonnell (gair-am-air) a chadw ysbryd y darn, gan ddisgrifio'r gwahanol ddulliau a strategaethau yn y maes.

weledigaeth newydd, gan symud y pwyslais o'r testun ffynhonnell a chywerthedd gair-am-air neu lenyddol i ymateb y darlennydd:

In such a translation one is not so concerned with matching the receptor-language message with the source-language message, but with the dynamic relationship, that the relationship between receptor and message should be substantially the same as that which existed between the original receptors and the message. (Nida 1964, t.129)

Dull sy'n wrthwyneb i gywerthedd dynamig yw cywerthedd ffurfiol. Drwy ddilyn y dull cywerthedd ffurfiol, cyfieithir drwy ganolbwyntio ar neges y testun ffynhonnell. Er bod cywerthedd ffurfiol yn golygu cyfnewid gair neu ymadrodd yn iaith y ffynhonnell am air neu ymadrodd yn yr iaith darged (Hatim a Munday 2004, t.40), y mae'n broses wahanol i gyfieithu'n llythrennol, yn ôl Nida:

While **literal** translations tend to preserve formal features almost by default (i.e. with little or no regard for context, meaning...) a **'formal'** translation is almost always **contextually motivated**: formal features are preserved only if they carry contextual values that become part of overall text meaning. (Hatim a Munday 2004, t.41)

Bydd cyfieithydd sy'n dilyn y dull cywerthedd ffurfiol yn creu cyfieithiad sydd mor agos â phosibl at ffurf a chynnwys y testun ffynhonnell (Nida 1964, t.129). Felly, byddai ymadrodd megis 'holy kiss' (Rhufeiniaid 16:16), er enghraifft, yn cael ei gadw yn y testun targed, ac o bosibl ceid esboniad mewn troednodyn mai math o gyfarchiad ydoedd yn ystod cyfnod ysgrifennu'r Testament Newydd (Nida 1964, t.129). Wrth gyfieithu drwy sicrhau cywerthedd dynamig, fodd bynnag, bydd y cyfieithydd yn cyfnewid 'greet one another with a holy kiss' am 'give one another a hearty handshake all around' neu ymadrodd tebyg er mwyn 'relate the receptor to modes of behaviour relevant within the context of his own culture' (Nida 1964, tt.129–130). Felly, gyda chywerthedd dynamig, y bwriad yw sicrhau 'complete naturalness of expression' (Nida 1964, t.129) o ran yr iaith a'r cynnwys. Er hyn, ni all yr un effaith gael ei hail-greu yn llwyr o ganlyniad i'r gwahaniaethau diwylliannol rhwng y ddwy iaith (Nida a Taber 1969, t.24). Problem arall yw ei bod hi'n anodd penderfynu ar adegau beth yn union yw 'effaith' testun penodol a phwy yw'r gynulleidfa darged (Chesterman 1989, t.80).

### 1.1.2 Theori *Skopos*

Cysyniad pwysig arall ym maes cyfieithu yw theori *skopos*. Datblygwyd y theori hon yn y 1970au yn yr Almaen gan yr ysgolhaig Vermeer. Dyma theori sy'n nodi bod pwrpas i bob cyfieithiad: 'To know what the point of a translation is... that is the goal of the *skopos* theory' (Vermeer 1989, t.231). Pwysleisia'r theori mai *skopos* neu bwrpas y cyfieithiad yw'r elfen bwysicaf yn y broses o gyfieithu ac felly os na ellir cytuno ar *skopos* y testun, 'translation cannot... be carried out at all' (Schäffner 1998, t.237). Ys dywed Vermeer:

Any form of translational action, including therefore translation itself, may be conceived as an action... Any action has an aim, a purpose. The word *skopos*, then, is a technical term for the aim or purpose of a translation. (1989, t.221)

Yn ôl Chesterman, gall nod y cyfieithiad fod yn wahanol i nod y testun ffynhonnell (1989, t.173) ac felly yng nghyd-destun theori *skopos*, y mae gan y cyfieithiad, o bosibl, fwriadau sy'n annibynnol ar y testun ffynhonnell. Ar y naill law, os mai *skopos* y cyfieithiad yw ehangu gwybodaeth y gynulleidfa darged o'r diwylliant tramor, a chadw'n 'ffyddlon' i'r testun ffynhonnell, bydd y cyfieithydd yn penderfynu cadw'r cyfeiriadau diwylliannol. Ar y llaw arall, os mai *skopos* y cyfieithiad yw cynnig testun y bydd y darlennydd yn ei ddeall ac yn uniaethu ag ef, yna dylid newid cynnwys y testun ffynhonnell i adlewyrchu'r diwylliant targed. Gall y *skopos*, felly, gynorthwyo'r cyfieithydd wrth benderfynu pa elfennau yn y testun ffynhonnell y dylid eu cadw neu eu cyfnewid (Naudé 2002, t.51), a rhoi cymorth iddo benderfynu a oes angen cyfieithu, aralleirio, neu newid y testun yn llwyr (hynny yw, ei addasu) (Vermeer 1989, t.231). Y mae angen cadw mewn golwg ddealltwriaeth y darlennydd ac ystyried gofynion penodol y gynulleidfa darged er mwyn dewis y strategaeth orau i'w dilyn. Yn wir, 'the *skopos* is largely constrained by the target text user (reader/listener) and his/her situation and cultural background' (Schäffner 1998, t.236). Y mae gan bob cyfieithiad



gynulleidfa darged am fod cyfieithu yn golygu cynhyrchu ‘a text in a target setting for a target purpose and target addressees in target circumstances’ (Vermeer 1987, t.29). Dadleua Nord mai’r darllenydd yw ‘one of the most important factors determining the purpose of a translation’ (1997, t.12), sy’n golygu bod gan y testun ffynhonnell, o safbwynt theori *skopos*, lai o statws o gymharu â theoriau cyfieithu blaenorol. Yn ôl Chesterman, un o ganlyniadau amlycaf theori *skopos* yw statws newydd, pwysicach y cyfieithiad a’r cyfieithydd. Caiff goruchafiaeth yr awdur ei chwestiynu a phwysleisir yn hytrach rôl benodol y cyfieithydd (1989, t.174).

### 1.1.3 Domestigeiddio a Dieithrio

Y mae’r ysgolhaig Lawrence Venuti yn ddylanwadol iawn ym maes astudiaethau cyfieithu. Cyfieithydd ydyw, ond y mae hefyd wedi cyhoeddi gweithiau sydd wedi gadael eu hól ar astudiaethau cyfieithu, gan gynnwys yn arbennig ei lyfr *The Translator’s Invisibility — A History of Translation* (1995). Cyfeiria Venuti at y dewis sydd gan y cyfieithydd naill ai i ddomestigeiddio neu i gadw’r elfennau tramor, sef dieithrio a chadw’n ffyddlon at y testun ffynhonnell. Diffinnir domestigeiddio (*domestication*) fel a ganlyn: ‘[The] ethnocentric reduction of the foreign text to target-language cultural values’ (1993, tt.208–223), hynny yw, gwneud y testun yn gyfarwydd i’r darllenydd. Strategaeth ydyw sy’n gosod pwyslais ar y testun targed, ac sydd felly’n debyg i gywerthedd dynamig Nida. Y mae dieithrio (*foreignization*) ar y llaw arall yn tynnu sylw at ‘the differences of the foreign text... deviating enough from native norms to stage an alien reading experience...’ (Venuti 1995, tt.15–16) a hynny trwy gadw at drefn cystrawen a geirfa iaith y testun ffynhonnell neu drwy fenthyg geirfa. Y mae Venuti o blaid y broses hon, ac yn nodi’r rhesymau pam fod dieithrio yn fwy dymunol na domestigeiddio. Dywed am ddomestigeiddio: ‘[It] conform[s] to dominant

cultural values' (1995, tt.18–22) tra bo dieithrio yn eu herio. Yn ogystal â hyn, mae dieithrio yn pwysleisio'r 'linguistic and cultural differences of the foreign text' (Venuti 1995, t.18); yn wir, y mae Venuti'n dadlau y gall y strategaeth hon wrth gyfieithu i'r Saesneg fod yn '[a] form of resistance against ethnocentrism and racism, cultural narcissism and imperialism' (1995, t.16). Pwysleisia'r ddau ddull ddylanwad y 'cultural turn' mewn astudiaethau cyfieithu yn y 1990au. Yn ystod y cyfnod hwn, 'a translation was no longer perceived merely as a transaction between two languages, but rather as a more complex process of negotiation between two cultures' (Munday 2009, t.179).

Gwelir hyd heddiw fod ysgolheigion yn parhau i drafod theori cyfieithu yn nhermau **cyfieithu**'n agos at y testun ffynhonnell ar y naill law a chyfieithu'n rhydd, neu **addasu** iaith a chynnwys y testun ffynhonnell i anghenion y gynulleidfa a'r iaith darged, ar y llaw arall. Dwy broses gyferbyniol yw **cyfieithu** ac **addasu** gyda nodau a phwrpas gwahanol. Cyn penderfynu ar y strategaeth i'w defnyddio, y mae angen ystyried *skopos* y cyfieithiad er mwyn canfod y strategaeth orau i sicrhau'r nod.

## 1.2 Cyfieithu v addasu

Addasu yw'r strategaeth cyfieithu fwyaf rhydd, 'which result[s] in a text that is not generally accepted as a translation but is nevertheless recognized as representing a source text' (Bastin 1998, t.3). Y mae pob strategaeth rydd a drafodwyd eisoes yn addasu o ryw fath: cywerthedd dynamig Nida a domestigeiddio Venuti. Ceir addasu, 'whenever the context referred to in the original text does not exist in the culture of the target text, thereby necessitating some form of re-creation' (Bastin 1998, tt.3–4). Yn aml iawn, ystyrir darn o lenyddiaeth sydd wedi'i addasu yn llai gwerthfawr na thestun sydd wedi'i gyfieithu'n agos at

y testun ffynhonnell: ‘Very often adaption is understood as a version, an abridgement, a shortened edition less valuable than a “full” text’ (Oittinen 2000, t.75). Proses sy’n rhoi rhyddid i gyfieithwyr newid, cwtogi a dileu rhannau o’r testun ffynhonnell yw addasu (Lathey 2010, t.8), ond ystyrir hyn yn beth negyddol gan ysgolheigion megis Klingberg, yn rhywbeth sy’n gyfystyr â sensoriaeth (Bastin 1998, t.3). Y mae Klingberg yn erbyn y cysyniad o adleoli’r testun ffynhonnell yn y diwylliant targed. Yn hyn o beth, cred ei bod yn bwysig i’r cyfieithydd bwysleisio’r ffaith bod y stori wedi’i lleoli mewn gwlad dramor, diwylliant estron neu gyfnod arall. Ys dywed Klingberg, y mae’n bwysig rhoi i’r darllenydd ‘knowledge, understanding and emotional experience of the foreign environment and culture, in order to further the international outlook’ (1986, t.14). Cytuna Venuti nad yw addasu yn achos cyfieithu i oedolion yn ‘dderbyniol’ am ei fod yn rhoi’r argraff nad cyfieithiad yw’r testun (1995, t.1).

Yn ôl nifer o ysgolheigion, y mae gan addasu berthynas agos â chyfieithu ac ychydig o wahaniaeth sydd rhwng y ddau: ‘Some scholars prefer not to use the term ‘adaptation’ at all, believing that the concept of translation as such can be stretched to cover all types of transformation or intervention’ (Bastin 1998, t.5). Ys dywed Oittinen, ‘when translating, we are always adapting our texts for certain purposes and certain readers’ (2000, tt.83–84). Yn ôl Zipes yntau, ‘all translation involves adaption. After all, all translation is to some extent domestication’ (yn Oittinen 2000, t.xiv). Wrth ystyried safbwyntiau Oittinen a Zipes, gellid dadlau mai anodd yw gwahaniaethu rhwng y ddau gysyniad. Er hyn, y mae cyfieithu’n cadw’n ffyddlon i’r testun ffynhonnell, gan ddiogelu gwybodaeth, enwau, lleoliadau a rhai nodweddion arddull y testun ffynhonnell (megis hyd brawddegau) wrth drosi i’r iaith darged. Eithr prif elfen addasu yw ffyddlondeb i’r gynulleidfa darged a’r diwylliant targed.

Rhestr Georges L. Bastin y gwahanol ddulliau o addasu sy'n cael eu mabwysiadu gan gyfieithwyr, sef:

1. Hepgor rhannau o'r testun.
2. Ehangu ar rannau o'r testun neu gynnig esboniad (naill ai yn y darn ei hun, neu mewn troednodyn a.y.b.).
3. Diweddarau, sef diweddarau gwybodaeth sydd wedi dyddio.
4. Creu testun sy'n fwy cyfarwydd i ddarllenwyr yr iaith darged, hynny yw domestigeiddio.

(1998, tt.4–5)

Cred Venuti mai'r un broses yw addasu a domestigeiddio, gan ei ystyried yn ffenomen 'strictly tied to issues like time, society, norms, and power' (yn Oittinen 2000, t.73). Fel y trafodwyd eisoes, trwy ddomestigeiddio, y mae'r cyfieithydd yn newid y ffactorau ieithyddol a diwylliannol yn y testun ffynhonnell i gyd-fynd ag arferion ieithyddol a diwylliannol yr iaith darged (Venuti 1995, tt.4–5; t.8), er mwyn i'r testun fod yn ddarllenadwy a dealladwy i'r darlennydd. Y mae cyfieithiad sydd wedi'i ddomestigeiddo'n haws i'w ddeall ac yn fwy naturiol am ei fod yn darllen fel testun gwreiddiol (Vid 2008, t.3). Er hyn, o dderbyn model Baston uchod, gellid dadlau nad yr un broses yw domestigeiddio ac addasu — gellir addasu heb ddomestigeiddio, ond ni ellir domestigeiddio heb addasu.

Pam felly y mae rhai cyfieithwyr yn penderfynu addasu? Noda Bastin y prif resymau dros addasu testun yn hytrach na chyfieithu'n agos:

1. Pan nad oes cyfystyr ieithyddol yn yr iaith darged.
2. Pan nad yw cyd-destun y testun ffynhonnell yn bodoli yn y diwylliant targed.
3. Wrth gyfieithu o un genre i'r llall (e.e. o lenyddiaeth oedolion i lenyddiaeth plant).
4. Ar adegau, pan fo'r testun ffynhonnell wedi'i ysgrifennu mewn cyfnod hanesyddol arall, y mae angen ei foderneiddio.

(1998, t.3)

Y mae cyfieithwyr sy'n cyfieithu llenyddiaeth plant yn rhydd i addasu, yn fwy felly na chyfieithwyr sy'n cyfieithu llenyddiaeth oedolion. Am mai cyfieithu llenyddiaeth plant yw maes canolog y traethawd hwn, y mae angen ystyried yn awr anghenion penodol y maes

hwinnw, ac ystyried theori cyfieithu o safbwynt cyfieithu llenyddiaeth plant. Ystyrir a oes gwahaniaethau rhwng cyfieithu i oedolion a chyfieithu i blant. Os felly, beth yw'r gwahaniaethau hynny? Ac a yw cyfieithu i blant yn fwy heriol ac anos na chyfieithu i oedolion?

### 1.3 Cyfieithu i oedolion v plant

Ar yr olwg gyntaf, yr un heriau sy'n bodoli wrth gyfieithu i blant a chyfieithu i oedolion. Y mae rhaid i'r cyfieithydd ystyried amryw o nodweddion wrth gyfieithu unrhyw ddarn o destun, gan gynnwys y *skopos*, y gynulleidfa darged, a'r cywair. Yn ôl y cyfieithydd Anthea Bell, y pwrpas wrth gyfieithu i oedolion neu i blant yw canfod 'llais' arbennig (yn Lathey 2010, t.190).

Yn ôl nifer o ysgolheigion, fodd bynnag, y mae ysgrifennu a chyfieithu i blant yn haws nag ysgrifennu a chyfieithu i oedolion. Y mae llenyddiaeth plant yn ennyn llai o barch na llenyddiaethau eraill ar y cyfan, a chredir yn gyffredinol fod pob un yn arbenigwr yn y maes: 'When it comes to children's literature, everyone's an expert' (Nodelman 2004, t.3). Wrth ystyried cynifer y bobl enwog sydd wedi troi at ysgrifennu llyfrau i blant (e.e. David Walliams, Geri Halliwell a Madonna), gwelwn y duedd gyffredinol yn y gymdeithas i ystyried bod cynhyrchu llenyddiaeth plant yn gymharol 'hawdd'. Mewn cyfweliad, dywedodd y gantores Madonna pam y penderfynodd ysgrifennu straeon i blant: 'Now I'm starting to read to my son, but I couldn't believe how vapid and vacant and empty all the stories were... There's like no books about anything' (yn Nodelman 2004, t.3) — adlewyrchiad, yn sicr, o'r gred y gall 'unrhyw un' ysgrifennu i blant. Ond gellid dadlau mai tasg anodd a phroblematig tu hwnt yw ysgrifennu a chyfieithu ar gyfer plant (Puurtinen 1994,

t.83), a hynny am nifer o resymau. Noda Puurtinen yr egwyddorion sydd ar waith wrth gyfieithu llenyddiaeth plant nad ydynt yn berthnasol wrth gyfieithu i oedolion (1994, t.83):

1. Caiff llyfrau plant eu hysgrifennu a'u cyfieithu er budd plant *ac* oedolion.
2. Y mae llyfrau plant (gan gynnwys cyfieithiadau i blant) yn cael eu rheoli gan ffactorau newidiol: addysg, ideoleg, moesau, gwerthoedd, a chrefydd. Y mae'r nodweddion hyn yn penderfynu'r math o lenyddiaeth sy'n cael ei greu mewn diwylliant penodol ac yn ystod cyfnod arbennig.
3. Y mae angen dwyn i gof ddealltwriaeth y plentyn o'r testun a'i brofiadau o fywyd sy'n fwy cyfyngedig na phrofiadau a gwybodaeth oedolion, er mwyn sicrhau nad yw'r testun yn rhy anodd neu'n rhy ddiflas iddo.

Dadleua Puurtinen, felly, fod cyfieithu i blant yn anos na chyfieithu i oedolion; nid tasg hawdd ydyw, 'done in an offhand manner' (1994, t.83).

Yn ogystal â'r egwyddorion uchod, un o'r prif wahaniaethau rhwng cyfieithu i oedolion a chyfieithu i blant yw'r hyn a elwir gan Anthea Bell y 'third dimension' yn y broses o gyfieithu i blant (yn Lathey 2006, t.111), sef darluniau. Yn ôl Oittinen, y mae cyhoeddwyr yn aml yn anghofio'r her y mae darluniau yn eu gosod i'r cyfieithydd (1995, t.114): 'Translators need both verbal and visual literacy: they need to know how to read illustrations and their interaction with the verbal text' (Davies ac Oittinen 2008, t.xiii). Y mae elfen weledol llyfr yn bwysig i blentyn (gan gynnwys y clawr, tudalennau teitl, ac yn arbennig y darluniau), ac yn cael effaith emosiynol ar y darlennydd. I blant, gall gweld delweddau fod yn fwy effeithiol na darllen neu glywed y testun. Gall darllen fod yn broses lafurus i blant ac felly mae darluniau yn eu helpu i sbarduno'r dychymyg.

Y mae cyhoeddwyr o wahanol wledydd (yn arbennig os ydynt yn cyhoeddi llenyddiaeth mewn ieithoedd lleiafrifol) yn cydweithio'n aml i argraffu llyfrau er mwyn lleihau'r gost. Yn aml, cyfieithir llyfr i amryw o ieithoedd gwahanol gyda'r un darluniau ynddynt (Oittinen 2008, t.14). Gall etifeddu darluniau gyfyngu ar ryddid y cyfieithydd pan gyfieithir o un diwylliant i'r llall. Ys dywed Nodelman, '[illustrations are] enmeshed in the ideology of the culture that produced them' (2005, t.135) — yn aml mae darluniau yn dangos lleoliadau,

gwisgoedd, ac arferion diwylliant y testun ffynhonnell. Petai stori wedi'i lleoli yn Llundain a bod darluniau yn dangos Tŷ'r Cyffredin a lleoliadau eraill yn y ddinas, byddai anghysondebau'n codi petai'r cyfieithiad yn cael ei adleoli yng Nghaerdydd. Y mae angen ystyried bob tro berthynas y darluniau â'r testun ysgrifenedig. Gall anghysondebau rhwng y gweledol a'r geiriol effeithio ar lwyddiant y cyfieithiad. Ystyrir y stori Swedaidd *Emil i Lönneberga* gan Astrid Lindgren. Cedwir lluniau'r darlunydd Björn Berg yn y cyfieithiad Saesneg, ond penderfynwyd comisiynu darluniau newydd wrth gyfieithu i'r Almaeneg. Nid yw'r darluniau yn y ddau destun yn ennyn yr un ymateb nac yn rhoi'r un wybodaeth i'r darllenydd am y cymeriadau:



O *Emil i Lönneberga* gan Astrid Lindgren (yn Stolt 1978, t.79)



O'r cyfieithiad Almaeneg *Michel in der Suppenschüssel* (yn Stolt 1978, t.79)

Sylwer ar y gwahaniaethau rhwng y cymeriadau yn y darlun cyntaf (o'r testun ffynhonnell Swedaidd) a'r ail ddarlun (o'r cyfieithiad Almaeneg). Fel y dywed Stolt, '[t]he original powerful peasant milieu has been transformed into a prettified bourgeois small-town milieu' (1978, t.79), ac wrth roi mwstas du i'r gŵr, newidia'r cymeriad Swedaidd i fod yn gymeriad Ewropeaidd yr olwg. Ceir anghysondebau felly rhwng y testun a'r darluniau; fel y noda Stolt, golyga hyn fod y darlennydd yn cael ei daflu 'back and forth like a ball' (Stolt 1978, t.80) rhwng y geiriol a'r gweledol. Cyflea hyn yr angen am gydweithrediad rhwng y darlunydd a'r cyfieithydd er mwyn sicrhau bod y naratif yn cyd-fynd â'r darluniau.

Y mae cyfieithu unrhyw ddarn o waith yn peri heriau i gyfieithydd o ganlyniad i'r gwahaniaethau ieithyddol a diwylliannol a geir rhwng diwylliant y testun ffynhonnell a'r diwylliant targed. Er hyn gwelir bod yr heriau'n cynyddu wrth gyfieithu llenyddiaeth plant o ganlyniad i'r ffactorau canlynol:

1. Y bwriadau addysgol ac ideolegol.
2. Dealltwriaeth y plentyn — symleiddir y testun yn aml er mwyn sicrhau hyn.
3. Y gred fod angen 'amddiffyn' plant rhag nodweddion negyddol.
4. Diffyg parch tuag at lenyddiaeth plant ac awduron llenyddiaeth plant yn gyffredinol sydd yn golygu fod llai o barch at gyfieithu llenyddiaeth plant.
5. Cynulleidfa ddeuol llenyddiaeth plant.
6. Y berthynas rhwng y testun a'r darluniau.

Er bod cyfieithu i blant yn parhau i gael ei ystyried yn gymharol 'hawdd', gwelir mai proses anodd ydyw ac y mae angen i gyfieithydd ystyried ffactorau ychwanegol nad ydynt yn codi wrth gyfieithu i oedolion. Yn wir, ys dywed Birgit Stolt, 'the translator of children's books does not have an easier job than the translator of books for adults' (1978, t.83).



## 1.4 Addasu wrth gyfieithu llenyddiaeth plant

Yn draddodiadol, y mae cyfieithwyr i blant wedi bod yn barod i addasu'r testun ffynhonnell yn llwyr er mwyn i'r cyfieithiad fod o fudd ideolegol i'r gynulleidfa darged (Shavit 1986, t.38). Er enghraifft, yn y cylchgrawn *Trysorfa y Plant* gan Thomas Levi yn 1879, ymddangosodd straeon ffuglennol Albert Maywood a'i deulu, addasiad o *The Forest Rose* gan Emerson Bennett a gyhoeddwyd gyntaf yn 1850. Sylwa Siwan Rosser (2009) ar y gwahaniaethau ideolegol a moesol a geir rhwng y ddau destun, gyda'r testun Cymraeg yn gosod pwyslais mawr ar foesau Cristnogol. Yn wir, noda Rosser, 'fe'u gwelir yn gweddïo a chanmol Duw yn amlach yn y fersiwn Cymraeg' (2009, t.139). Yn *The Forest Rose*, y mae Emerson Bennett yn disgrifio Albert yn cusanu Rose wedi iddynt ddyweddïo — 'his lips were pressed to those of the fair being by his side' — ond caiff y cyfeiriad hwn ei hepgor gan Thomas Levi yn y Gymraeg: 'Yna gwnaethant gyfamod difrifol â'u gilydd [*sic*] yn ngwydd [*sic*] y nefoedd, a chodasant eu golwg i fyny i erfyn am fendith y Goruchaf ar yr undeb' (yn Rosser 2009, t.139). Adlewyrchiad sydd yma, yn sicr, o fwriad Thomas Levi a'i gylchgrawn i hybu credoau Cristnogol ymysg plant Cymru. Yn wir, wrth gyfieithu i blant, y mae addasu'r testun yn gyffredin: 'If the model of the original text does not exist in the target system, the text is changed by deleting or by adding' (Shavit 1986, t.28).

Cred yr ysgolhaig Zohar Shavit fod angen dilyn y ddwy egwyddor ganlynol wrth addasu testun i blant, sef addasu'r testun 'to make it appropriate and useful to the child in accordance with what society regards (at a certain point in time) as educationally 'good for the child'', ac addasu'r plot a'r iaith 'to society's perceptions of the child's ability to read and comprehend' (1986, t.26). Y mae'r ddwy egwyddor yn adlewyrchu pa mor bwysig yw sicrhau bod y darn yn ddealladwy i'r plentyn a hefyd ei fod yn addysgol, yn unol â chredoau'r gymdeithas a'r

cyfnod. Yn ôl Shavit, er mwyn i gyfieithiad gael ei ystyried yn llwyddiannus, y mae angen i'r cyfieithiad ddilyn y ddwy egwyddor uchod (1986, t.26).

Yn aml, y mae ysgolheigion yn nodi pa mor bwysig ydyw bod cyfieithiadau i blant o'r un safon â chyfieithiadau i oedolion. Dywed Birgit Stolt, 'the original text must be accorded just as much respect as in the case of adult literature, therefore the endeavour should be a translation as faithful, as equivalent as possible' (yn Oittinen 2000, t.81). Y mae nifer o'r farn fod addasu yn gyfystyr â 'denaturing and pedagogizing children's literature' (yn Oittinen 2000, t.74), ac na ddylid addasu, cyfyngu neu newid y testun ffynhonnell mewn unrhyw ffordd wrth gyfieithu, ond bod angen sicrhau'r un cywirdeb â chyfieithu llenyddiaeth oedolion (Oittinen 2000, t.81). Nid yw'r ysgolheigion hyn, fodd bynnag, yn ystyried yr elfennau a'r ffactorau sy'n gwahaniaethu plant oddi wrth oedolion. Yn aml, y mae addasu'r testun i ddiwylliant yr iaith darged yn angenrheidiol wrth gyfieithu llenyddiaeth plant (Puurtinen 1994, t.84) am amryw o resymau. Fel y nodwyd eisoes, cred Puurtinen y ceir ymgais gref i sicrhau bod y testun yn addas i'r plentyn yn unol â'r hyn y credir gan y gymdeithas ei fod yn fuddiol i'r plentyn (1994, t.84). Yn hyn o beth, y mae cyfieithu yn gweithio fel arf ideolegol er mwyn sicrhau bod cynnwys a syniadau'r testun targed yn adlewyrchu ideolegau'r diwylliant penodol hwnnw. Nid ffyddlondeb at y testun ffynhonnell yw'r bwriad wrth gyfieithu ar gyfer plant ond, ys dywed Oittinen, 'translators, including translators for children, must be loyal to their audiences' (2000, t.76). Sylwa Puurtinen ar hyn hefyd: '[I]t seems to be a general trend in the translation of children's literature that conformity to the conventions of the target language children's literature takes precedence over 'faithfulness' to the original' (1994, t.84).

Addasu yw'r strategaeth fwyaf cyffredin wrth gyfieithu i blant oherwydd y gred na fyddai'r plentyn yn 'deall' nac yn gyfarwydd â chyfeiriadau at ddiwylliannau estron, gan gynnwys enwau, lleoliadau, neu fwydydd tramor (Lathey 2006, t.7). Y mae nifer o gyfieithwyr, pan ddônt wyneb yn wyneb â'r nodweddion hyn, yn penderfynu addasu trwy ddomestigeiddio'r testun (newid enwau, lleoliadau ac arferion o'r diwylliant tramor i'r diwylliant cyfarwydd). Nid pawb sy'n cytuno â'r broses hon wrth drosi testun i blant o un iaith i'r llall. Cred Gary McKeone, cyfarwyddwr llenyddol Cyngor Celfyddydau Lloegr, nad yw cyfeiriadau at ddiwylliannau eraill mewn nofelau yn peri anawsterau i blant: 'Children make no distinction; they are open to difference; for them, a story is a story is a story' (yn Adams 2006). Y mae oedolion yn aml yn synied yn rhy isel am ddealltwriaeth plentyn, ond fel y dengys Lindgren, 'children have a marvellous ability to re-experience the most alien and distant things and circumstances...' (yn Stolt 1978, t.132). Yn wir, mwynha plant ddarllen a dysgu am gyfeiriadau a gwybodaeth sy'n anghyfarwydd. Iddynt hwy, 'a story is a story is a story', ble bynnag yw lleoliad y stori. Er hyn, y mae oedolion yn parhau i addasu am nifer o resymau.

Wrth ystyried cyfieithu llenyddiaeth plant, y mae angen ystyried ymateb y darlennydd: 'An effective translation should arouse in them the same feelings and associations expressed by the young readers of the source text' (Vid 2008, t.6). Yn yr un modd, dywed Eco '[that] a good translation must generate the same effect aimed at by the original' (2001, tt.44–45). Y mae hyn felly'n awgrymu bod disgwyl i'r cyfieithydd ymyrryd, neu addasu, er mwyn cyrraedd y nod hwn. Pan gyfieithodd Nabokov *Alice's Adventures in Wonderland* i'r Rwsieg, teimlodd na fyddai'r darllenwyr Rwsieg yn gyfarwydd â'r cyfeiriadau diwylliannol Seisnig (yn Vid 2008, t.11), a phenderfynodd felly adleoli'r stori yn Rwsia ac yn y diwylliant Rwsieg. Sicrhaodd hyn ymdeimlad o agosatrydd ar ran y darllenwyr at y testun (Vid 2008,

tt.10–11). Newidiwyd y cyfeiriad at Gwilym Goncwerwr i Vladamir Monomakh (tywysog o Rwsia), ac adleolwyd stori'r Llygoden Ffrengig yn Rwsia. Er bod hyn yn sicrhau bod y darllenydd Rwsieg yn deall y cyfeiriadau diwylliannol, y mae Vid yn nodi ei fod yn rhwystro plant rhag dysgu am ddiwylliannau ac arferion eraill (2008, t.11).

Fel yn achos yr addasiad yn y Rwsieg gan Nabokov, ceir ymdrech gan yr addasydd Cymraeg o *Alice's Adventures in Wonderland* (Selyf Roberts), yn ei gyfieithiadau a gyhoeddwyd yn 1953 ac a ddiweddarwyd yn 1982 i ddomestigeiddio'r testun trwy gyfnewid cyfeiriadau diwylliannol Seisnig am gyfeiriadau diwylliannol Cymreig, er enghraifft (Davies 2012, t.136):

<i>Alice</i> (1865), t.23	<i>Alys</i> (1953), t.20	<i>Alys</i> (1982), t.20
The further off from England the nearer is to France.	A pho bellach fyth o Gymru, nes yw hynny i Eire werdd.	A pho bellach fyth o Gymru, awn yn nes i 'Werddon, siawns.

Fel y nodwyd eisoes yn achos cyfieithu i'r Rwsieg, domestigeiddiwyd er mwyn osgoi dieithrio'r darllenydd a darparu 'a recognizable and familiar atmosphere for the reader' (Vid 2008, t.7). Yn y Gymraeg, nid sicrhau awyrgylch cyfarwydd i'r darllenydd yw pwrpas domestigeiddio, ond gwneud y testun yn 'fwy derbyniol i gynulleidfa Gymraeg' ac er mwyn 'closio [ato]' (Davies 2012, t.136).

Dros y blynyddoedd, y mae'r hyn sy'n cael ei ystyried yn 'addas' ac yn 'dderbyniol' i blant yn newid (Klingberg 1981, t.15), ac yn aml moderneiddir testunau wrth gyfieithu neu ailgyhoeddi nofelau i blant er mwyn sicrhau hyn. Noda Klingberg et al:

Modernizations are attempts to make the TT of more immediate interest to the presumptive readers by moving the time nearer to the present time or by exchanging details in the setting for more recent ones. (1978, t.86)

Drwy foderneiddio testun, sicrhau bod y testun yn fwy dealladwy i'r gynulleidfa darged. Os newidir gwybodaeth a golygfeydd i rai mwy cyfoes, bydd y stori o bosibl yn fwy diddorol i blant, am na allant uniaethu efallai â syniadau a gwerthoedd o gyfnod a diwylliant arall. Yn

ogystal â hyn, gwelir bod cyhoeddwyr a chyfieithwyr yn aml yn moderneiddio (neu'n sensro) unrhyw beth y teimlir na fyddai'n cyd-fynd â moesau'r byd cyfoes. Er enghraifft, gwelir ymgais i ddileu elfennau 'negyddol' yn stori *Little Red Riding Hood* wrth gyfieithu. Yn y testun gwreiddiol Ffrangeg gan Charles Perrault, caiff y ferch a'r fam-gu eu bwyta gan y blaidd; fodd bynnag, ers y 1970au ceir addasiadau sy'n gwyrddroi'r ddelwedd mai cymeriad drwg yw'r blaidd. Yn *Loup-Rouge et Lili Chaperon Rouge (Red Wolf and Lili Red Riding Hood)* gan Domitille de Pressensé a gyhoeddwyd yn 1999, y mae'r blaidd yn cael ei 'orfodi' gan y ferch i fynd i barti pen-blwydd (y mae hithau'n credu mai ei ffrind Paul wedi'i wisgo mewn gwisg blaidd ydyw), ac yn y parti y mae'n gwrthod y temptasiwn o frathu'r plant (Beckett 2002, t.157). Hefyd, yn *Red Riding Hood and the Sweet Little Wolf* (2012) a'r addasiad Cymraeg *Hugan Fach Goch a'r Blaidd Bach Annwyl* (2012), ceir gwedd newydd ar y chwedl, gyda'r blaidd yn dymuno bod yn garedig yn hytrach na chas. Caiff y fleiddast ifanc ei hanfon gan ei rhieni i ddal merch ifanc. Dilyna'r hugan fach goch, ond caiff ei hudo gan straeon tylwyth teg y mae'r ferch yn eu hadrodd, ac anwybydda orchymyn ei rhieni i'w bwyta. Yn yr un modd, ceir ymdrech i ddileu tabŵs, ac felly i buro'r stori. Yn y fersiynau cynnar, y mae'r ferch yn mynd â gwin i'w mam-gu, ond mewn testunau diweddar, newidia'r gwin i laeth, neu ddiod arall ddi-alcohol (Oittinen 2000, t.86). Yn wir, 'books for the young may often reflect somewhat idealised versions of the real thing' (Tucker 1995, t.192). Nid oes disgwyl bod llenyddiaeth plant yn adlewyrchu 'all the varied preoccupations of a society' (Tucker 1995, t.192). Er bod plant yn ymwybodol o nodweddion 'pechadurus' cymdeithas, megis alcohol a llofruddiaethau, gwelir yn aml fod llenyddiaeth plant, gan gynnwys cyfieithiadau, yn cuddio'r dylanwadau hyn. Felly, ceir pwysau mawr ar gyfieithwyr i addasu testunau i blant am resymau addysgol ac ideolegol er mwyn cyd-fynd â gwerthoedd diwylliant neu gyfnod arbennig.

Y mae addasu hefyd yn digwydd pan drosglwyddir testun o un genre i'r llall. Wrth gyfieithu o genre llenyddiaeth oedolion i genre llenyddiaeth plant, y prif reswm dros addasu a chwtogi hyd y testun yw'r gred 'that children are incapable of reading lengthy texts' (Shavit 1986, t.33). Noda Josette Frank, cyn-gyfarwyddwr llyfrau plant a'r cyfryngau torfol yng Nghymdeithas Astudiaethau Plant, fod gan blentyn ddiddordeb yn y stori yn unig ac felly gofynna, 'why burden him with so much he cannot understand?' (yn Wallace 1964, t.120). Yn ogystal â hyn, wrth drosglwyddo testun i blant, y duedd yw dileu tabŵs, sef yr hyn a ystyrir yn 'anaddas' ac y dylid eu hosgoi. Y mae angen i gyfieithwyr i blant ystyried mwy o 'dabŵs' cymdeithasol na chyfieithydd i oedolion. Er bod plant yn mwynhau darllen am bethau sy'n dabŵ, oedolion sy'n penderfynu yr hyn sy'n 'addas' ai peidio mewn llenyddiaeth plant (Stolt 1978, t.72). Yn aml, bydd cyfieithwyr yn ymdrin â thestunau 'amhriodol' pan gaiff nofel a gyhoeddwyd yn wreiddiol i oedolion ei haddasu ar gyfer plant. Rhai o'r tabŵs sy'n cael eu hosgoi mewn llenyddiaeth plant yw cyfeiriadau at drais, ysgarthu, crefydd, rhyw a rhywioldeb, alcohol, problemau meddyliol a hiliaeth. Y prif strategaethau i ymdrin â'r tabŵs yw naill ai dileu'r cyfeiriadau pan nad ydynt yn amharu â'r plot (Shavit 1986, t.35), neu addasu'r darn fel ei fod yn dderbyniol i'r gynulleidfa. Defnyddir y ddau ddull yn addasiadau *Gulliver's Travels* i blant. Dilëir gan holl gyfieithwyr y nofel yr olygfa ble mae'r darllenwyr yn amau bod Gulliver yn cael perthynas â'r frenhines. Y mae'r olygfa hon, ys dywed Shavit, 'violates the taboo of sexual activity in children's literature' (1986, t.35). Yn yr un modd, mewn un olygfa yn y nofel i oedolion, achuba Gulliver y palas rhag tân drwy basio dŵr arno. Y mae'r olygfa yn bwysig i ddatblygiad y plot ond teimlir na fyddai'n dderbyniol i blant. Wrth gyfieithu'r darn i'r Hebraeg, penderfynodd y cyfieithydd, Zelkovitz, addasu'r olygfa ac y mae Gulliver yn hytrach yn chwythu'r tân i'w ddiffodd. Ond dilëir yr olygfa yn llwyr mewn nifer o gyfieithiadau eraill o ganlyniad i'r tabŵ sy'n bodoli mewn llenyddiaeth plant o ran ysgarthu (Shavit 1986, t.36). Y mae plant yn mwynhau darllen iaith

anweddus a golygfeydd ‘amhriodol’, ac yn canfod digrifwch ynddynt. Ni ddilëwyd y darn i osgoi cymhlethdod — byddai plant yn deall y cyfeiriad ac yn mwynhau ei ddarllen a’i glywed. Efen o sensoriaeth foesol ydyw wrth i’r cyfieithydd geisio creu byd ‘ffug’ drwy ddileu tabŵs sy’n ‘anaddas’ i blentyn eu darllen. Dyma enghreifftiau o’r ymgais, ys dywed Klingberg et al, ‘to get the TT in correspondence with the values of the readers, or rather with the values, or the supposed values, of adults’ (1978, t.86).

Er y cynnydd mewn agweddau rhyddfrydol o ganol yr ugeinfed ganrif ymlaen, y mae cyfieithwyr ac addaswyr yn parhau i fabwysiadu agwedd amddiffynnol tuag at blant a’u llenyddiaeth hyd heddiw. Noda Astrid Lindgren fod ymdrech wedi bod i sensro’i straeon yn yr UDA drwy ddileu, cwtogi neu addasu rhannau o’i nofelau am resymau ideolegol neu foesol. Mewn un stori, y mae’r cymeriad Lotta eisiau tyfu’n dalach, ac y mae’n sefyll mewn tomen dail i gyflymu’r broses. Mewn drafft o’r cyfieithiad Saesneg i’r byd masnach Americanaidd, cyfnewidiwyd y domen dail am bentwr o ddail (Lathey 2010, tt.196–197). Ceir yma elfen o sensoriaeth wrth i’r golygydd addasu pwnc a ystyrid yn anaddas i blant, er bod y cyfeiriad yn ganolog i’r naratif.

Y mae angen ystyried nifer o ffactorau cyn trosi unrhyw ddarn o lenyddiaeth o un iaith i’r llall, gan gynnwys beth yw *skopos* y darn, sy’n gymorth i’r cyfieithydd benderfynu pa ddull(iau) neu strategaeth(au) sy’n gweddu i’r cyfieithiad. Gwelir bod amryw o ddulliau a strategaethau ar gael, er eu bod i gyd yn ymwneud â’r frwydr oesol ym maes cyfieithu, sef a ddylid cyfieithu’n agos ynteu’n rhydd. Wrth gyfieithu ar gyfer plant, y mae angen ystyried nifer o ffactorau ychwanegol nad ydynt yn berthnasol wrth gyfieithu ar gyfer oedolion, gan gynnwys darluniau a gwybodaeth gyfyngedig y plentyn. Felly, nid pwnc syml yw cyfieithu ar gyfer plant. Yn wir, gellid dadlau bod cyfieithu ar eu cyfer hyd yn oed yn anos a mwy

problematig na chyfieithu ar gyfer oedolion o ganlyniad i'r ffactorau ychwanegol sydd rhaid eu hystyried.

Mae'r bennod nesaf yn ymdrin â'r prif heriau sy'n wynebu cyfieithwyr sy'n trosi llenyddiaeth o'r Saesneg i iaith arall. Cynigir enghreifftiau o ieithoedd gwahanol, gan ystyried yr heriau yng nghyd-destun cyfieithu yn gyffredinol ac yn benodol ar gyfer plant. Trafodir yr heriau hyn gan gyfeirio at theori cyfieithu a strategaethau megis domestigeiddio/dieithrio.



## **Pennod 2**

### **Heriau Cyffredin wrth Gyfieithu o'r Saesneg**

Cyn troi at y tair astudiaeth achos, trafodir yr heriau wrth gyfieithu o'r Saesneg yn gyffredinol, megis mater cenedl enwau a thafodiaith, a'r heriau penodol wrth gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg.

#### **2.1 Cenedl Enwau**

Nid oes gan yr iaith Saesneg genedl enwau. Defnyddir y rhagenwau trydydd person 'him/he' a 'her/she' wrth gyfeirio at fodau dynol (ac ar adegau wrth bersonoli anifeiliaid) yn unig, a gelwir yr enw 'it' ar bob gwrthrych. Er hyn, mewn llawer o ieithoedd, y mae pob enw naill ai'n fenywaidd, yn wrywaidd neu'n ddiryw ac felly, 'you are inevitably loading the whole idea with extra significance', ys dywed Bell (1987, t.234). Gall hyn fod o fantais i gyfieithydd ar adegau, am nad oes angen penderfynu ar ryw cymeriadau gan fod cenedl yr enwau wedi penderfynu hyn eisoes. Er hyn, gall hefyd greu her a dryswch arbennig i gyfieithydd. Er enghraifft, y mae 'cadair' yn fenywaidd yn y Gymraeg a 'bwrdd' yn wrywaidd. Yn y Saesneg, 'it' yw'r ddau. Beth os ceir stori Saesneg gyda chadair wedi'i phersonoli'n gymeriad gwrywaidd? Dyma her sy'n codi'n amlach mewn llenyddiaeth plant am fod personoli anifeiliaid (a gwrthrychau) yn gyffredin mewn straeon i blant (Bell 1987, t.234).

Y mae Bell yn trafod pwysigrwydd cenedl enwau, gan nodi bod y ffenomen yn gallu dylanwadu'n ddwys ar siaradwyr iaith benodol (1987, t.234). Mewn arbrawf, gofynnwyd i blant ysgol gynradd o wahanol wledydd (sy'n siarad gwahanol ieithoedd) ddychmygu

anifeiliaid mewn cartŵn. Penderfynwyd ganddynt bennu rhyw y cymeriadau yn unol â chenedl yr enwau yn eu hiaith arbennig hwy:

This suggest that grammatical gender does carry meaning in line with stereotypically masculine versus feminine traits even where there is no logical reason for why a word should be marked by one or the other gender. (Karasawa a Maass 2008, t.321)

Gellir ymateb i her cyfieithu enwau mewn amryw o ffyrdd. Gellir ychwanegu goleddfydd gwrywaidd neu fenywaidd i'r enw er mwyn cyfleu rhyw y gwrthrych neu anifail os nad yw ei enw'n cyd-fynd â'i ryw, er enghraifft, y gath wrywaidd, y ci benywaidd. Gellir yn ogystal newid rhyw yr anifail i gyd-fynd â chenedl yr enw yn iaith y testun targed. Mynychais weithdy cyfieithu lle y bu'n rhaid inni gyfieithu stori Ffinneg o'r Saesneg i'r Gymraeg.<sup>4</sup> Dilynai'r stori anturiaethau racŵn ac ysgyfarnog, dau brif gymeriad gwrywaidd y stori. Penderfynodd un cyfieithydd newid rhyw yr ysgyfarnog yn fenywaidd wrth gyfieithu, o ganlyniad i'r ffaith mai enw benywaidd ydyw yn y Gymraeg. Gellid awgrymu bod hyn yn ateb dilys i'r her, ond y mae angen ystyried a yw hyn yn newid pŵer a grym y cymeriad yn ormodol. Fel y nodwyd mewn arbrawf gan Kanisi, caiff gwrthrychau eu hystyried yn llai grymus os ydynt yn fenywaidd yn ramadegol. Yn ôl Karasawa a Maass, y mae siaradwyr dwyieithog Almaeneg-Eidaleg yn ystyried 'teigr' yn fwy grymus yn yr Almaeneg nag yn yr Eidaleg am fod y gair yn wrywaidd yn yr Almaeneg ond yn fenywaidd yn yr Eidaleg (2008, t.321). Gall newid rhyw cymeriad i gyd-fynd â chenedl ei enw felly drawsnewid personoliaeth y cymeriad yn y testun targed. Opsiwn arall yw rhoi enw priod i'r anifail, sy'n ateb dilys, yn fy marn i, ac yn fodd i drosglwyddo rhyw y cymeriad. Er enghraifft, wrth gyfieithu nofel o'r Saesneg gyda chath wrywaidd ynddi, gellid defnyddio'r enw 'Gethin y Gath' yn y Gymraeg er mwyn pwysleisio rhyw y cymeriad.

---

<sup>4</sup> Gweithdy dau ddiwrnod ydoedd ar Gyfieithu Llenyddiaeth Plant yn Nhŷ Newydd, Llanystumdwy, ym mis Mawrth 2012.

## 2.2 Rhagenwau Cyfarch

Ni cheir yn y Saesneg heddiw fwy nag un rhagenw yr ail berson unigol i wahaniaethu rhwng cyd-destun neu berthynas ffurfiol a chyfarwydd, yn wahanol i nifer o ieithoedd Ewropeaidd. Yn yr ieithoedd hynny:

a pronoun other than the second- or third- plural, is used in interaction with a singular addressee in order to express difference and/or non-familiarity: French *vous* as opposed to *tu*... German *Sie* as opposed to *du*. (Baker 1992, t.96)

Yn y Gymraeg, defnyddir *chi* yn hytrach na *ti* yn y cyswllt hwn. Y mae cyfieithu rhagenwau yn gallu bod yn bwnc anodd ei drin, sy'n gofyn am benderfyniadau dyrys ar ran y cyfieithydd. Dyma un o brif heriau cyfieithu yn ôl Hirano: 'Those tiny parts of speech, pronouns, can be the trickiest of all' (yn Bell 1987, t.234). Noda Bell yn ogystal fod cyfieithu rhagenwau yn her arbennig i gyfieithydd (1987, t.232).

Gall y defnydd anghywir o ragenw greu naws lwyr wahanol yn y cyfieithiad neu'r addasiad, a newid perthynas cymeriadau (Bell 1987, t.232). Os mai perthynas agos sydd gan ddau gymeriad yn y testun ffynhonnell, gall defnydd o ffurfiau'r ail berson lluosog yn y cyfieithiad ddileu'r agosatrwydd hwn a chreu ffurfioldeb diangen rhwng cymeriadau. Gwelir hyn, er enghraifft, wrth gyfieithu'r nofel *Crooked House* gan Agatha Christie i'r Ffrangeg. Ceir sgwrs rhwng y gŵr ifanc, Charles, a'r fenyw ifanc, Sophia, isod. Cyd-weithwyr a chyfeillion ydynt, ac yn y ddeialog ganlynol, y mae Charles newydd ofyn i Sophia ei briodi:

'Darling — don't you understand? I've tried not to say I love you'.  
'I do understand Charles. And I like your funny way of doing things'. (yn Baker 1992, tt.96–97)

Sylwer ar y defnydd o'r gair anwes 'darling' gan Charles sy'n cyfleu agosatrwydd y ddau. Y mae'r ffaith bod Sophia yn cyfarch Charles wrth ei enw cyntaf hefyd yn awgrym o'r

anffurfioldeb ym mherthynas y cymeriadau. Er hyn, sylwer ar y defnydd o ffurfiau'r ail berson lluosog yn y cyfieithiad Ffrangeg:

‘mais **vous** ne **comprenez** donc pas?...’

‘J’ai parfaitement compris, Charles, et **votre** façon comique...’ (yn Baker 1992, tt.96–97; pwyslais yn y gwreiddiol)

Y mae defnydd o ragenw'r ail berson lluosog ‘vous’ yn awgrym o ffurfioldeb nad yw'n bodoli yn y darn Saesneg. Dyma dystiolaeth, felly, fod angen i'r cyfieithydd ystyried yn ddwys y berthynas rhwng cymeriadau er mwyn canfod rhagenwau a berfau'r ail berson sy'n gweddu i'r berthynas. Gall ef neu hi astudio elfennau eraill yn y testun ffynhonnell, gan gynnwys y defnydd o eiriau anwes neu deitlau (megis ‘Mr’, ‘Mrs’ a ‘Doctor’), y cyfnod y mae'r nofel wedi'i leoli ynddo ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall i benderfynu pa ragenwau a berfau sy'n gweddu i'r cymeriadau a'r sefyllfa. Ys dywed Baker, ‘[t]he translator has to make conscious decisions about the nature of the relationships among different characters in the story and about the social standing of these characters’ (1992, t.97).

### 2.3 Tafodiaith/Cywair

Her arall sy'n wynebu cyfieithwyr yw sut i gyfieithu tafodiaith a chywair (Bell 1987, t.233). Y mae hyn yn amlycach mewn deialog, pan fo iaith ansafonol yn fwy cyffredin.<sup>5</sup> Ymddengys bod gan gyfieithydd amryw o opsiynau wrth benderfynu sut i gyfieithu tafodiaith a chywair. Yr opsiwn cyntaf yw anwybyddu'r dafodiaith ac yn hytrach ddefnyddio iaith safonol. Mae hyn yn osgoi'r defnydd o unrhyw eirfa dafodieithol anodd a allai greu dryswch i blant. Noda Rhian Wyn Griffiths, yn ymateb i ganlyniadau holiaduron gan blant yn eu harddegau, mai ‘syfrdanol yn wir oedd sylwi ar ganran y disgyblion a nododd fod tafodiaith a geiriau anodd yn gallu llethu'r darllen’ (1997, t.8). Er hyn, y mae angen ystyried a fyddai

---

<sup>5</sup> Dadleua Hirano fod angen mwy o ddyfeisgarwch wrth gyfieithu deialog nag wrth gyfieithu naratif (1999, t.230).

defnyddio iaith safonol mewn deialog yn gweddu i'r cymeriadau a'r stori. Gall penderfynu ar Gymraeg safonol newid cywair y nofel gan osod ffurfioldeb nad yw'n bodoli yn y testun ffynhonnell. Y mae angen cofio yn ogystal i'r awdur benderfynu ar dafodiaith am reswm penodol, ac felly gellid awgrymu bod hepgor tafodiaith yn dangos amharchusrwydd tuag at ei waith ef neu ei gwaith hi ac yn dileu gwybodaeth benodol am y cymeriad, megis o ble y daw. Mewn rhai ieithoedd, fodd bynnag, anwybyddu'r dafodiaith yw'r unig ddewis sydd ar gael. Nid yw'n dderbyniol ym mhob diwylliant i ddefnyddio iaith lafar mewn testunau ysgrifenedig, sy'n golygu mai iaith safonol yn unig y gellir ei defnyddio.<sup>6</sup> Yr ail opsiwn sydd ar gael i gyfieithwyr yw defnyddio tafodiaith yn y testun targed. Y mae'r union ddewis o dafodiaith wrth gwrs yn hollbwysig ac y mae angen sicrhau ei bod yn gweddu i'r cymeriad a'r stori. Y mae'n debygol y byddai'r cyfieithydd yn dewis tafodiaith sy'n naturiol iddo ef neu iddi hi, ond y mae angen sicrhau nad yw tafodiaith gref amlwg yn dieithrio siaradwyr tafodieithoedd eraill. Gellir yn ogystal gyfnewid tafodiaith yn y testun ffynhonnell am dafodiaith sy'n creu'r un effaith ac ymdeimlad yn y testun targed.<sup>7</sup> Er enghraifft, os oes gan gymeriad yn y testun ffynhonnell dafodiaith Lerpwl, gall y cyfieithydd ddewis tafodiaith y Cymoedd yn y Gymraeg. Y mae'r ddwy ardal dosbarth gweithiol hyn yn adnabyddus am eu dibyniaeth ar ddiwydiannau trwm, ac am y tlodi a ddaeth yn sgil eu cwmp. Gall cyfieithu tafodiaith Lerpwl trwy ddefnyddio tafodiaith y Cymoedd felly ysgogi'r un teimlad ac argraff ar y darlennydd ynglŷn â chefnidir ac ardal y cymeriad. Wrth ddefnyddio tafodiaith yn y Gymraeg, domestigeiddir y stori yn llwyr. Ar y naill law, os domestigeiddir y stori wrth gyfieithu neu addasu, bydd tafodiaith gref yn cryfhau'r broses o ddomestigeiddio. Ar y llaw arall, os cyfieithir yn agos at y testun ffynhonnell, gellir gofyn faint o dafodiaith y dylid ei

---

<sup>6</sup> Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, er enghraifft, defnyddid iaith lenyddol mewn cyfieithiadau i blant o'r Almaeneg i'r Hebraeg er mwyn cyfoethogi geirfa darllenwyr ifainc. Erbyn heddiw, y mae'r iaith Hebraeg wedi datblygu'n iaith gyfoes a sefydlog ac y mae cyfieithiadau i blant yn dechrau adlewyrchu 'more colloquial varieties of the language tending more towards entertainment and less towards education' (O'Connell 1999, t.23).

<sup>7</sup> Yn yr un modd, pan fo iaith cymeriad yn y testun ffynhonnell yn nodi ei ddsbarth cymdeithasol, dylid sicrhau y caiff hyn ei drosglwyddo i'r iaith darged. Gall gosod iaith safonol, niwtral ar gymeriad o'r dosbarth gweithiol ddileu gwybodaeth hanfodol bwysig.

defnyddio er mwyn diogelu elfen ddieithr y nofel. Y mae Anthea Bell yn ffafrio ‘colloquial idiom’ (1987, t.233), sef ymadroddion sy’n cael eu defnyddio mewn arddulliau anffurfiol (O’Mara 2007, t.59) ac iaith lafar bob dydd, yn hytrach na thafodiaith amlwg neu iaith safonol. Yn y Gymraeg, golyga hyn ddefnyddio cywasgiadau megis ‘dyw’ yn lle ‘nid yw’ a pheidio â hepgor diweddebau neu ddefnyddio gormod o eiriau tafodieithol. Sicrha hyn nad yw tafodiaith a chyweiriau yn dieithrio darllenwyr o ardaloedd penodol yng Nghymru ac nad yw’r iaith yn rhy safonol.

## **2.4 Iaith sy’n Dyddio**

Y mae plant yn hoff o gymeriadau sydd yn siarad eu hiaith hwy. Ond y mae angen cofio bod iaith yn newid o hyd. Bydd ymadroddion sy’n boblogaidd heddiw yn dyddio o fewn amser (Halverson 2011, t.183; t.314). Sut felly y dylai’r cyfieithydd ymdrin â newidiadau mewn iaith? A ddylid cyfnewid geiriau sydd wedi dyddio yn y Saesneg am eiriau cyfatebol sydd wedi dyddio yn y Gymraeg er mwyn adlewyrchu cyfnod y nofel? Neu a ddylid defnyddio geiriau cyfoes y byddai plant eu hunain yn eu defnyddio, gan foderneiddio’r iaith? Pan ailgyhoeddwyd deg o nofelau Enid Blyton yn 2010, penderfynodd y cyhoeddwr Hodder foderneiddio’r iaith trwy gyfnewid ymadroddion megis ‘mercy me!’ am ‘oh no!’ ac enwau megis ‘old fellow’ am ‘old man’. Cododd dadleuon ynglŷn â’r penderfyniad hwn, gyda charfan o bobl o blaid y syniad o foderneiddio’r iaith ac eraill yn gryf yn erbyn unrhyw newidiadau i’r eirfa. Dengys gwaith ymchwil fod iaith hen ffasiwn Enid Blyton yn gallu rhwystro plant rhag mwynhau ei nofelau a moderneiddiwyd yr iaith mewn nifer o’i nofelau er mwyn sicrhau eu bod yn ddealladwy i blant heddiw (Flood 2010). Noda Anne McNeil, cyfarwyddwr cyhoeddi Llyfrau Plant Hodder, ‘[i]f the text is revised [children are] more likely to engage with them’ (yn Flood 2010). Er hyn, y mae Tony Summerfield, sy’n rhedeg

Cymdeithas Enid Blyton, yn gwrthwynebu unrhyw newidiadau, gan ddadlau bod plant yn cydnabod bod y llyfrau wedi cael eu hysgrifennu mewn cyfnod gwahanol. Noda hefyd fod cyhoeddwr yn synied yn rhy isel am allu plant i ddeall geiriau anghyfarwydd trwy eu moderneiddio yn ddianghenraid (yn Flood 2010). Gellid dadlau y byddai moderneiddio'r iaith yn dileu arddull unigryw yr awdur. Yn ogystal â hyn, gall moderneiddio iaith ddileu'r ymdeimlad o gyfnod i ryw raddau. Serch hynny, gall cadw'r iaith hen ffasiwn greu anawsterau i'r darllenydd ifanc.

Yn y cyd-destun Cymraeg, ceir enghreifftiau o gyfieithwyr yn moderneiddio ac yn symleiddio geirfa ac arddull wrth ailgyhoeddi cyhoeddiadau. Ymddangosodd ail gyfieithiad Cymraeg o'r clasur *Alice in Wonderland* yn 1982 ac yn y rhagair, noda Selyf Roberts ei resymau dros ail-gyfieithu'r clasur:

Y mae deng mlynedd ar hugain er pan gyhoeddwyd y talfyriad o'm cyfieithiad cyntaf, ac y mae'r llyfr hwnnw allan o brint ers blynnyddoedd. Yn y cyfamser newidiodd, ie tyfodd, y Gymraeg, gan ystytho yn ei phrifant, a chan hynny, nad ofer y dasg o drosi o newydd. (Roberts 1982, t.7)

Yng nghyfieithiad 1982, ceir mwy o ymdrech i gyflwyno iaith lafar yn y ddeialog a moderneiddir a symleiddir yr iaith, er enghraifft (Davies 2012, t.132):

<i>Alys</i> (1953), t.39	<i>Alys</i> (1982), t.61
Yr oedd y bwrdd yn un mawr, ond gwasgai'r tri at ei gilydd mewn cornel ohono. 'Dim lle! Dim lle!' meddent yn uchel pan welsant Alys yn dyfod. 'Y mae digon o le!' ebe Alys yn flin...	Roedd y bwrdd yn un mawr ond roedd y tri wedi gwasgu at ei gilydd ar un gornel ohono. 'Dim lle! Dim lle!' medden nhw'n uchel pan welson nhw Alys yn dod. 'Mae 'na <i>ddigon</i> o le!' ebe Alys yn flin...

Sylwer ar y defnydd o ferfau cwmpasog yng nghyfieithiad 1982 yn hytrach na berfau cryno.

Y mae berfau cwmpasog yn perthyn i gyweiriau llai safonol na berfau cryno ac yn haws i blant eu deall. Y mae cyfieithiad 1953 yn ffurfiol dros ben gyda'r defnydd o ffurfiau L13 ffurfiol ('meddent' a 'gwelsant'); cyfnewidir hwy gan Selyf Roberts yng nghyfieithiad 1982 am ffurfiau anffurfiol ('medden' a 'gwelson'). Ys dywed Peter Wynn Thomas, defnyddir

‘hwy’ a berfau cyfatebol mewn arddulliau ffurfiol tra bo’r rhagenw trydydd person lluosog ‘nhw’ yn gyffredin mewn arddulliau anffurfiol (1996, t.244).

Dengys yr enghreifftiau uchod, felly, fod moderneiddio a symleiddio iaith yn gyffredin wrth gyfieithu neu ailgyhoeddi nofelau i blant flynyddoedd ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi gyntaf. Ymddengys y bydd y dewis i foderneiddio neu symleiddio’r iaith ai peidio yn ddibynnol ar *skopos* y cyfieithiad neu’r ailgyhoeddiad, a bydd dadleuon yn codi yn gyson o blaid ac yn erbyn moderneiddio a symleiddio geirfa ac arddull mewn nofelau i blant.

## 2.5 Enwau Priod

Cyfieithu enwau priod yw un o’r prif heriau wrth gyfieithu yn gyffredinol (Jaleniauskiene a Čičelytė 2009, tt.31–32) am nad yw pob enw priod yn cyfateb i enw yn yr iaith arall (Bertills 2003, t.198). Y mae enwau priod yn hanfodol bwysig ac yn cyfleu gwybodaeth am y cymeriadau a’r diwylliant. Ys dywed Nord:

if we are familiar with the culture in question, a proper name can tell us whether the referent is a female or a male person... maybe even about their age... or their geographical origin within the same language community. (2003, t.183)

Ymddengys fod o leiaf bedair ffordd o drosglwyddo enwau priod o un iaith i’r llall. Gellir eu trosglwyddo’n uniongyrchol; gellir eu haddasu i ffonoleg iaith y testun targed; gall enwau sydd heb arwyddocâd gael eu cyfnewid am enwau yn iaith y testun targed; os oes arwyddocâd penodol gan enwau, gellir eu cyfieithu i’r iaith darged (Theo Hermans yn Aguilera 2008, t.3).

Y mae nifer, gan gynnwys Klingberg, yn dadlau na ddylid cyfieithu enwau priod. Dywed ef, ‘personal names... without any special meanings... should not be altered’ (1986, t.43).



Serch hynny, y mae eraill o blaid domestigeiddio enwau priod yn llwyr, sy'n adlewyrchu'r duedd mewn llenyddiaeth plant i addasu testun i brofiadau ac anghenion plant (Lathey 2010, t.196). Gall cadw enwau tramor ddieithrio plant, a gall fod yn anodd i blant uniaethu â chymeriadau oherwydd hyn. Dywed Chambers, golygydd y cyfieithiad Saesneg o'r nofel Swedeg *Janne, min vän*:

I was anxious that young readers should not be disconcerted by characters' names when I knew they would have to face other textual unfamiliarities... So my opinion, though reluctant, was that we should anglicize any names that were totally unfamiliar but retain any that were readable and recognizable. (yn Lathey 2010, t.179)

Y mae enwau priod gan mwyaf yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol wrth gyfieithu i oedolion (Schäffner 2001, t.34), ond mewn llenyddiaeth plant, pan fo ganddynt arwyddocâd arbennig, y duedd yw eu cyfieithu (Newmark 1981, t.215). Yn fy marn i, y mae cyfieithu enwau priod disgrifiadol yn hollbwysig er mwyn diogelu'r un ystyr. Pan gyfieithwyd *Pippi Långstrump* gan Astrid Lindgren o'r Swedeg i'r Gymraeg, penderfynwyd ar y teitl *Pipi Hosan-hir*. Yn yr un modd, pan gyfieithwyd *Alice in Wonderland* i'r Gymraeg gan Selyf Roberts, penderfynodd gyfieithu enwau cymeriadau sydd â swyddogaeth ddisgrifiadol arbennig. Er enghraifft, cyfieithodd 'The Mad Hatter' i 'Yr Hetiwr', 'The King and Queen of Hearts' i 'Brenin a Brenhines y Calonnau' a 'The March Hare' i 'Y Sgwarnog Fawrth' (Davies 2012, t.134). Os nad yw enw sydd ag arwyddocâd yn cael ei gyfieithu, bydd ei ystyr yn cael ei golli, yn benodol pan nad yw plant yn deall neu'n siarad iaith y testun ffynhonnell. Ys dywed Klingberg, '[i]n earlier children's literature descriptive names were frequent... such names have to be translated' (1986, t.45). Er ei fod fel arfer o blaid trosglwyddo enwau priod o iaith y testun ffynhonnell i'r iaith darged, y mae'n cydnabod y dylid cyfieithu enwau gydag arwyddocâd arbennig. Y mae'n cydnabod felly fod gan enw disgrifiadol swyddogaeth hollbwysig yn y stori, ac y mae peidio â'i gyfieithu yn dinistrio'i swyddogaeth wreiddiol a'i effaith.

Y mae angen i gyfieithwyr ystyried yr holl bosibiliadau ac, felly, ddewis y dull sy'n gweddu i'r nofel a'r cymeriadau, yn ogystal ag anghenion y gynulleidfa darged.

Canolbwyntir yn awr yn benodol ar yr heriau sy'n arbennig i gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, o ran y dewis o enwau priod a'r ffaith fod y Gymraeg yn bodoli mewn cymdeithas ddwyieithog, law yn llaw â'r iaith ddominyddol, sef y Saesneg.

## **2.6 Cyfieithu o fewn Cymdeithas Ddwyieithog**

Fel y nodwyd eisoes, y mae angen i gyfieithwyr ystyried yn ofalus y dewis o enwau priod wrth gyfieithu. Y duedd yw cyfnewid enwasu priod am rai cyfarwydd yn iaith y testun ffynhonnell wrth gyfieithu llenyddiaeth plant er mwyn osgoi dieithrio'r gynulleidfa darged. Er hyn, ymddengys bod y ddadl ynghylch cyfieithu enwau ai peidio wrth gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg yn wahanol. Er bod llawer o blant mewn ysgolion Cymraeg heddiw yn dod o deuluoedd di-Gymraeg, daw nifer ohonynt, yn arbennig mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith, o deuluoedd Cymraeg eu hiaith lle y mae enwau Cymraeg yn gyffredin. Domestigeiddio enwau yw'r dull mwyaf cyffredin wrth gyfieithu llenyddiaeth plant 'because children are perceived as a special audience that requires familiar cultural items' (Jaleniauskiene a Čičelytė 2009, t.34). Ond mewn rhai ardaloedd, byddai cyfnewid enwau Saesneg am rai Cymraeg wrth gyfieithu, hynny yw eu domestigeiddio, yn golygu y byddai'r enwau yn y cyfieithiad o bosibl yn llai cyfarwydd i blant na'r enwau Saesneg. Y mae galw plant wrth enwau Saesneg yn gyffredin yng Nghymru. Ceir tebygrwydd yn y dewis o enwau plant gan rieni yng Nghymru a Lloegr. Yn 2010, Ruby ac Oliver oedd yr enwau mwyaf poblogaidd i alw babanod yng Nghymru, ac yn Lloegr yn ystod yr un flwyddyn, Olivia ac Oliver oedd yr enwau mwyaf poblogaidd. Dim ond un enw Cymraeg, sef Dylan, sy'n

ymddangos ar y rhestr o'r deg enw mwyaf poblogaidd i fechgyn yng Nghymru. Ar y rhestr o'r deg enw mwyaf poblogaidd i ferched, ceir dau enw Cymraeg (Megan a Seren), ac y mae'r gweddill yn enwau Saesneg neu'n enwau sy'n boblogaidd yn Lloegr hefyd, gan gynnwys Ruby ac Olivia (Office for National Statistics 2011, tt.1, 2 a 4). Er hyn, y mae angen cofio bod yr ystadegau yn cymryd i ystyriaeth enwau babanod yn y wlad gyfan, ac nid oes ond 19% o holl boblogaeth Cymru yn siarad Cymraeg. Felly, adlewyrcha'r ystadegau yr enwau sy'n boblogaidd ar blant ymysg y garfan ddi-Gymraeg yn benodol. Wrth ystyried cyfieithu i'r Gymraeg, felly, a ddylid trosglwyddo'r enwau Saesneg yn uniongyrchol, neu a ddylid eu domestigeiddio? Gellir awgrymu, wrth gyfieithu nofel i blant o'r Saesneg i'r Gymraeg, nad oes angen newid enwau am y rheswm nad yw plant yn gallu ynganu enwau Saesneg neu oherwydd nad ydynt yn gyfarwydd â hwy. Yn hyn o beth, gellid awgrymu bod mwy o ffactorau i'w hystyried wrth gyfieithu enwau i'r Gymraeg oherwydd hunaniaeth ddeuol y Cymry. Serch hynny, gellid dweud bod gan y Gymraeg fantais dros ieithoedd eraill wrth gyfieithu llenyddiaeth o'r Saesneg. Os yw cadw lleoliad ac enwau'r cymeriadau er mwyn pwysleisio lleoliad y stori yn Lloegr yn hanfodol bwysig, ni fyddai'r cyfieithydd yn gorfod pryderu a fyddai'r darllenwyr yn gallu ynganu neu'n adnabod yr enwau.

O ystyried y ffactorau uchod, gellid awgrymu mai ceisio canfod cydbwysedd rhwng enwau Saesneg a Chymraeg fyddai'r penderfyniad gorau, fel y gwnaethpwyd wrth gyfieithu'r cyfresi *The Sleepover Club* ac *After School Club* i'r Gymraeg.<sup>8</sup> Wedi dweud hynny, mae angen ystyried *skopos* y cyfieithiad am na fyddai hyn yn bosibl bob tro.

Y mae'r diwylliant Saesneg yn dylanwadu'n gryf ar Ewrop, ac adlewyrchir hyn yn llenyddiaeth a chyfieithiadau ieithoedd Ewropeaidd (Thomson-Wohlgemuth 2004, t.125). Yn yr Iseldiroedd a'r Almaen, er enghraifft, o'r holl lyfrau a gyhoeddir bob blwyddyn, y mae

---

<sup>8</sup> Yn y gyfresi *Y Clwb Cysgu Cŵl*, ceir enwau Cymraeg ar dri o'r prif gymeriadau, sef Ffion, Sara a Meleri, ond mae enwau di-Gymraeg ar y prif gymeriadau eraill, sef Ali a Sam. Yn yr un modd, yn y gyfresi *Clwb'Rôl Ysgol*, ceir cymysgedd o enwau Cymraeg a di-Gymraeg.

dros 30% ohonynt yn gyfieithiadau o'r Saesneg (Hallford a Zaghini 2005, t.5). Y mae cyfieithu nofelau Saesneg yn angenrheidiol i ddealltwriaeth siaradwyr nad ydynt yn siarad y Saesneg yn rhugl ac yn 'pivotal to international cultural exchange' (Lathey 2010, t.xv). Yn aml, nid oes ganddynt yr un ddealltwriaeth o iaith y testun ffynhonnell (sef y Saesneg) â'r iaith darged (eu mamiaith). Felly, y mae'n bwysig bod nofelau yn cael eu cyfieithu o'r Saesneg er mwyn sicrhau nad yw darllenwyr o ddiwylliannau a gwledydd eraill yn cael eu hamddifadu o ddeunydd darllen da. Yng nghymdeithas ddwyieithog Cymru, fodd bynnag, nid oes angen i nofelau gael eu cyfieithu o'r Saesneg oherwydd diffyg gafaél siaradwyr y Gymraeg ar y Saesneg. Wrth gwrs, gall siaradwr y Gymraeg ddarllen y nofel Saesneg heb unrhyw anawsterau ieithyddol ac felly y mae'r cyfieithiadau a'r addasiadau Cymraeg yn cystadlu'n uniongyrchol yn erbyn y nofelau Saesneg gwreiddiol. Caiff cyfieithiadau Cymraeg eu cyhoeddi yn aml flynyddoedd ar ôl i'r nofelau Saesneg gael eu cyhoeddi.<sup>9</sup> Yn hyn o beth, gall plant ddarllen y nofelau yn y Saesneg gyntaf, ac felly ymgyfarwyddo â'r cymeriadau gyda'u henwau Saesneg. Pan gaiff nofelau i blant eu haddasu'n ffilmiau, er enghraifft y gyfres *Harry Potter*, bydd plant yn ymgyfarwyddo ymhellach â'r cymeriadau a'u henwau Saesneg. Golyga hyn y bydd plentyn Cymraeg ei iaith o bosibl yn penderfynu troi'n syth at y nofel Saesneg wreiddiol yn hytrach na darllen y cyfieithiad neu'r addasiad Cymraeg. Er y datblygiad ym maes cyfieithu dros y degawdau diwethaf (Hatim a Munday 2004, t.xvii; Venuti 1995, t.1), yn aml, y mae cyfieithiad yn ennyn llai o barch na gwaith gwreiddiol: '[T]he translated text necessarily remains a copy of an original work and is thus by definition inferior to that original' (Hermans 1985, t.103), ac felly yn ôl nifer, '[t]he translator is thus subordinated to the author' (Venuti 1995, t.8). Byddai nifer yn dadlau, os yw person yn gallu darllen y testun ffynhonnell, pam y dylai ddarllen cyfieithiad? (Bell 1987, t.234). Ystyria Gilles Quentel a oes pwrpas cyfieithu darn o lenyddiaeth o'r iaith fwyafrifol i'r iaith leiafrifol

---

<sup>9</sup> Er enghraifft, cyhoeddwyd *Charlie a'r Ffatri Siocled* yn 2002, 38 o flynyddoedd ar ôl i *Charlie and the Chocolate Factory* gael ei gyhoeddi gyntaf yn y Saesneg; cyhoeddwyd *Best Friends* gan Jacqueline Wilson yn 2004, ond ni chyfieithwyd y nofel i'r Gymraeg tan 2009.

(2008, t.199) oherwydd hyn. Gellid awgrymu mai dyma yw'r brif her wrth gyfieithu i iaith lleiafrifol, sef sicrhau y bydd darllenwyr dwyieithog yn darllen y cyfieithiad yn hytrach na throi yn syth at y gwreiddiol. Yn hyn o beth, y mae sicrhau cyfieithiadau ac addasiadau o ansawdd da yn bwysicach fyth i ieithoedd lleiafrifol megis y Gymraeg. Os bydd unigolyn yn darllen cyfieithiad slafaid ac o safon isel, bydd o bosibl yn penderfynu darllen y gwaith yn y Saesneg.

Felly, y mae nifer fawr o heriau yn wynebu unigolyn sy'n cyfieithu o'r Saesneg. Y mae penderfynu sut i ymdrin â'r heriau yn amrywio o un testun i'r llall ac yn dibynnu'n drwm ar *skopos* y testun ffynhonnell.

Dadansoddir yn awr benderfyniadau'r cyfieithwyr wrth drosglwyddo nofelau Roald Dahl, J. K. Rowling a Jacqueline Wilson i'r Gymraeg, gan fanylu ar y gwahanol ddulliau a strategaethau a ddefnyddir ganddynt. Ystyrir a yw'r dewisiadau yn gweddu i'r cyfieithiadau a'r gynulleidfa darged a phenderfynir a ydynt yn gyfieithiadau llwyddiannus ai peidio. Edrychir ar y tair astudiaeth achos yng nghyd-destun yr hyn a drafodwyd yn y bennod gyntaf ar theori cyfieithu ac yn y bennod ar heriau cyfieithu cyffredinol.

### **Pennod 3**

#### **Astudiaeth Achos 1 —**

## **Cyfieithu *James and the Giant Peach***

Erbyn iddo droi'n hanner cant, gellid dadlau mai Roald Dahl oedd yr awdur i blant mwyaf adnabyddus yn y byd (Dwyer 2001, t.5). Ysgrifennodd un ar hugain o lyfrau i blant a dwsinau o lyfrau i oedolion (Houle 2006, t.8). Y mae ei lyfrau wedi datblygu'n glasuron, ac ym Mhrydain y mae dros ddeugain miliwn o gopïau o'i lyfrau wedi cael eu gwerthu (Wheeler 2006, t.4). Addaswyd amryw o'i lyfrau yn ffilmiau yn ogystal (Powling 1997, t.7), gan gynnwys *Charlie and the Chocolate Factory* yn 1974 a 2005, *James and the Giant Peach* yn 1996 a *Fantastic Mr. Fox* yn 2009.

Y mae straeon Roald Dahl yn cynnig diddanwch i ddarllenwyr ond hefyd yn dysgu gwersi moesol iddynt. Yn *James and the Giant Peach* (1961), sef testun yr astudiaeth hon a'r nofel gyntaf i Roald Dahl ei hysgrifennu i blant, trafoda themâu megis colled, trais a buddugoliaeth. Megis nifer o'i nofelau eraill, gan gynnwys *The BFG* (1982), y mae'r prif gymeriad yn blentyn amddifad. Dilyna'r stori James Henry Trotter, bachgen ifanc sy'n byw bywyd hapus tan i'w rieni gael eu lladd gan rinoseros sydd wedi dianc o Sw Llundain pan oedd yn bedair oed. Yn blentyn amddifad, symuda James i fyw mewn tŷ adfeiliedig yn ne Lloegr gyda'i ddwy fodryb atgas ac ofnadwy, Aunt Sponge ac Aunt Spiker, a thros y blynyddoedd nesaf, maent yn ei gam-drin yn emosiynol ac yn gorfforol. Caiff James ei gloi ar lawr isaf y tŷ a'i orfodi i gysgu ar y llawr caled oer. Nid yw'n mynychu'r ysgol ac ni chaiff unrhyw gyfle i chwarae. Yn wir, '[t]here was no swing, no seesaw, no sandpit, and no other children were ever invited to come up the hill to play with poor James' (Dahl 1961, t.10). Er bod y nofel wedi'i lleoli yn y byd go-iawn, y mae elfennau o'r genre ffantasi hefyd yn ymddangos ynddi, er enghraifft elfennau a gysylltir â straeon tylwyth teg traddodiadol (West

1992, t.61). Y mae elfennau hudol bron ymhob nofel gan Dahl, sy'n apelio at ddychymyg y plentyn. Yn *The BFG* (1982), cawn gewri sy'n chwythu breuddwydion yng nghlustiau plant ac yn *The Witches* (1983), y mae gwyrachod yn troi pobl yn llygod. Yr elfennau ffantasi mwyaf pwysig yn *James and the Giant Peach* yw'r eirinen wlanog sy'n tyfu'r un maint â choeden a'r creaduriaid sy'n byw ynddi. Y mae'r creaduriaid hyn yn anferth o'u cymharu â chreaduriaid cyffredin; maent yn gallu siarad a gwisgant ddillad sy'n cynyddu'r elfen ddynol ynddynt. Y mae elfennau dychmygol a ffantasi felly'n chwarae rhan arbennig yn y stori.

Clodforwyd y nofel pan gyhoeddwyd hi gyntaf. Dywedwyd yn *The San Francisco Chronicle* mai *James and the Giant Peach* oedd 'the most original fantasy that has been published for a long time' (yn West 1992, t.65). Er hyn, cafodd y nofel ei beirniadu gan amryw o ysgolheigion. Bu Ethel L. Heins, llyfrgellydd blaenllaw, yn feirniadol iawn ohoni ac argymhellodd i rieni beidio â'i phrynu oherwydd ei 'violent exaggeration of language' a'r 'almost grotesque characterizations of the child's aunts' (yn West 1992, t.66). Cafodd y nofel hefyd ei beirniadu oherwydd ei bod yn cynnwys amryw o elfennau sydd yn dabw mewn llenyddiaeth plant, gan gynnwys cyfeiriadau at alcohol, cyffuriau ac ysmegu.

Serch hynny, y mae'n parhau'n boblogaidd dros hanner can mlynedd ers ei chyhoeddi, ac erbyn heddiw y mae wedi'i chyfieithu i o leiaf 34 iaith (de Castella 2011). Cynigiodd nofel Dahl amryw o heriau i Elin Meek pan gyfieithodd y gwaith i'r Gymraeg yn 2003 o dan y teitl *James a'r Eirinen Wlanog Enfawr*. Y mae hiwmor a mwynhau geiriau yn rhan ganolog o waith Dahl a gwelir hyn yn ei ddefnydd o gyflythrennu, onomatopoeia a geiriau nonsens, er enghraifft yr enw 'Pink-Spotted Scrunch' yn un o'r cerddi yn *James and the Giant Peach*. Dyma rai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu unrhyw gyfieithydd am fod technegau arddull o'r fath ynghlwm wrth iaith benodol. Yn ogystal â hyn, ceir yma iaith hen ffasiwn, ac elfennau diwylliannol penodol megis enwau priod a lleoliadau Saesneg. Bwriad y bennod hon yw

dadansoddi penderfyniadau Elin Meek ac ystyried a ydynt yn rhai llwyddiannus ai peidio. Yn gyntaf, trafodir yr heriau cyffredinol sy'n wynebu'r cyfieithydd, cyn manylu ar y nodweddion penodol yn y nofel. Mae'n hanfodol hefyd drafod darluniau Quentin Blake am eu bod yn rhan mor ganolog o nofelau Dahl.

### 3.1 Enwau Priod

#### 3.1.1 Enwau Personol

Yn nofelau Roald Dahl, y mae gan enwau'r cymeriadau arwyddocâd arbennig, a llawer ohonynt yn cynnig digrifwch i'r darllenydd. Yn *The Twits* (1980), y mae cyfenw'r pâr priod yn awgrymu nad ydynt yn bobl gyfeillgar na charedig. Defnyddir 'twit' fel gair sarhaus, a'i ystyr yw 'ffwl'. Ym *Matilda* (1988), awgryma enw'r brifathrawes Miss Trunchbull mai cymeriad treisgar a dig ydyw, a'i bod yn fawr yn gorfforol fel tarw, tra bo enw Miss Honey yn darlunio menyw garedig a hapus. Yn wir, y mae enwau priod yn hanfodol bwysig mewn straeon, ac yn arbennig felly mewn llenyddiaeth plant, gan eu bod yn datgelu gwybodaeth arbennig am gymeriadau, fel y trafodwyd eisoes. Isod, ceir tabl yn nodi rhai o'r enwau priod yn y nofel Saesneg a'r enwau a ddewiswyd gan Elin Meek wrth gyfieithu (ceir tabl cyflawn o'r enwau yn Atodiad 1):

<i>James and the Giant Peach</i>	<i>James a'r Eirinen Wlanog Enfawr</i>	Penderfyniad y cyfieithydd
James Henry Trotter	James Henry Trotter	Atgynhyrchu
Aunt Sponge	Anti Sponge	Atgynhyrchu
Aunt Spiker	Anti Spiker	Atgynhyrchu
Centipede	Neidr Gantroed	Cyfieithu'n llythrennol
Miss Spider	Miss Corryn	Cyfieithu'n llythrennol

Sylwer bod pob enw naill ai'n cael ei atgynhyrchu'n uniongyrchol, neu'n cael ei gyfieithu'n llythrennol i'r Gymraeg. Cedwir enwau Saesneg y modrybedd **Sponge** a **Spiker**, er



enghraifft. Y mae gan yr enwau arwyddocâd arbennig yn y Saesneg gan eu bod yn datgelu gwybodaeth weledol am y modrybedd: 'Pwten fach anferth o dew' yw **Sponge** (Meek 2003, t.11), megis cacen sbwng, tra bo **Spiker** yn 'fain ac yn dal ac yn esgyrn i gyd' (Meek 2003, t.12), megis ysbrigyn. Y mae gan yr enwau, felly, swyddogaeth ddisgrifiadol arbennig yn y nofel gan ddatgelu gwybodaeth am bersonoliaeth y modrybedd. Megis sbwng, y mae **Aunt Sbonge** yn sugno bywyd o bawb o'i chwmpas ac y mae **Aunt Spiker** yn achosi niwed i eraill, yn arbennig i James, gyda'i geiriau cas a'i gweithredoedd milain. Ceir disgrifiadau gan Dahl o'r modrybedd sy'n tanlinellu'r nodweddion hyn:

They never called him by his real name, but always referred to him as 'you disgusting little beast' or 'you filthy nuisance'... and they certainly never gave him any toys to play with or any picture books to look at. (Dahl 1961, t.8)

Gellid bod wedi cyfieithu enwau'r modrybedd drwy sicrhau cywerthedd, gan gadw ystyr ac arwyddocâd yr enwau Saesneg yn yr iaith darged. Y mae 'Anti Spwng' ac 'Anti Sbigyn' yn gyfieithiadau llythrennol o '**Aunt Sponge**' ac '**Aunt Spiker**'. Cyfieithu enwau yw'r duedd mewn llenyddiaeth plant os oes arwyddocâd disgrifiadol i'r enwau (Klingberg 1986, t.45) ond penderfynodd Meek atgynhyrchu enwau'r cymeriadau. Gall domestigeiddio enwau personol newid hunaniaeth cymeriadau ac adleoli'r stori mewn diwylliant arall. Sylwer yn ogystal ar benderfyniad Meek i alw'r modrybedd wrth y teitl 'anti'. Mae'r ffurf yn fwy Seisnigaidd ac anffurfiol na'r enw 'modryb' gan fynd law yn llaw â'r penderfyniad i gadw enwau Saesneg y modrybedd. Llwydda'r cyfieithydd felly i gadw cysondeb rhwng y teitl 'anti' a'r enwau priod.

Y mae enw **James Henry Trotter** yn nodweddiadol Seisnig. Yr oedd 'Henry' yn enw ar nifer o frenhinoedd Lloegr, sy'n creu naws aristocrataidd a bonheddig. Gall atgynhyrchu enwau wrth gyfieithu greu naws ddieithr mewn stori. Yn ôl Klingberg, os nad oes gan enw cymeriad ystyr arbennig, yna dylid ei gadw (1986, t.43) er mwyn trosglwyddo hunaniaeth

genedlaethol y cymeriad (Newmark 1988, t.35; t.214). Ond eto, y mae angen ystyried pwrpas y cyfieithiad. Os mai *skopos* cyfieithiad yw cadw'r elfen ddieithr a chyfieithu'n agos at y testun ffynhonnell, yna dylid cadw'r enwau er mwyn cadw'r elfen ddieithr. Byddai anghysondebau rhwng adleoli'r stori yn y diwylliant targed a chadw'r enwau o'r testun ffynhonnell yn gallu effeithio ar lwyddiant y cyfieithiad. Byddai cyfnewid enw **James** am enw Cymraeg yn newid awyrgylch y stori ar unwaith. Y mae'r enw Saesneg '**James**' yn gyfarwydd i blant Cymraeg ac yn enw poblogaidd ar fechgyn Cymru. Ymddengys yr enw yn uchel ar y rhestr o enwau poblogaidd ar fechgyn yng Nghymru (Jones 2011). Ond y mae'r cyfuniad o '**Henry**' a '**Trotter**' (sy'n tarddu o'r berfenw Saesneg 'to trot') yn bradychu gwreiddiau'r cymeriad yn Lloegr.

Ys dywedwyd eisoes, pan fo gan enw arwyddocâd disgrifiadol arbennig mewn nofel ar gyfer plant, tueddir i'w gyfieithu er mwyn diogelu'r un ystyr. Penderfynodd Meek gyfieithu enwau'r creaduriaid yn yr eirinen wlanog enfawr i gyd yn llythrennol (er enghraifft, cyfieithodd '**Miss Spider**' i '**Miss Corryn**' a '**Centipede**' i '**Neidr Gantroed**'), ac felly, trosglwyddodd bwrpas disgrifiadol yr enwau i'r iaith darged. Er bod y penderfyniad hwn yn gwrthyferbynnu â dewis y cyfieithydd i atgynhyrchu enwau'r modrybedd a James, dyma benderfyniad llwyddiannus yn fy marn i. Y canlyniad yw rhoi mwy o bellter rhwng byd atgas ac anghyfiawn y modrybedd a byd hudol y creaduriaid yn yr eirinen wlanog. Yn ogystal â hyn, byddai atgynhyrchu enwau priod y creaduriaid, sy'n disgrifio pa bryfyn ydynt, wedi ymddangos yn annaturiol ac yn drwsogl yn y naratif.

Addaswyd y ffilm yn 1996. Cyn cyhoeddi'r cyfieithiad, yr oedd enwau'r cymeriadau, y lleoliad, a'r stori'n felly'n gyfarwydd i nifer o blant Cymru, hyd yn oed os nad oeddent wedi darllen *James and the Giant Peach*. Os yw nofel wedi'i haddasu'n ffilm, gellid awgrymu mai

atgynhyrchu'r enwau yw'r dull gorau er mwyn osgoi drysu plant. Er bod llawer o'r enwau wedi'u haddasu i'r Gymraeg wrth gyfieithu *Harry Potter*, atgynhyrchir enwau'r pedwar prif gymeriad, sef Harry, Ron, Hermione a Hagrid.<sup>10</sup> Yn wir, gall trafferthion godi os newidir enw prif gymeriad wrth gyfieithu. Pan gyfieithwyd *Emil i Lönneberga* gan Astrid Lindgren o'r Swedeg i'r Almaeneg, penderfynwyd newid enw'r prif gymeriad i 'Michel'. Pan gyhoeddwyd y nofel yn yr Iseldireg, dilynwyd dull yr Almaeneg gan enwi'r cymeriad yn 'Mikkel'. Ond cododd anawsterau pan addaswyd y nofel yn ffilm gan lynu at enw gwreiddiol y prif gymeriad, sef 'Emil'. Yn wir, ar ôl rhyddhau'r ffilm, dechreuwyd gwerthu'r nofel gyda sticer arni yn nodi mai'r un bachgen yw Mikkel ac Emil (Stolt 1978, tt.73–74) er mwyn osgoi dryswch.

### 3.1.2 Enwau Lleoedd

Law yn llaw â'r penderfyniad i atgynhyrchu enw James Henry Trotter a chymeriadau eraill yn y Gymraeg, cedwir lleoliad y nofel yn Lloegr (ac yn UDA). Gweler Tabl 2, Atodiad 1 am restr gyflawn o enwau lleoedd yn y nofel. Pan gyrhaedda'r eirinen wlanog y môr, clywn gri'r creaduriaid: 'Ble mae'r caeau? Ble mae'r coedwigoedd? Ble mae Lloegr?' (Meek 2003, t.66) sy'n datgelu mai cartref y creaduriaid yn y nofel yw Lloegr. Wrth gyfieithu, y peth pwysig yw cadw cysondeb. Os yw enwau personol Saesneg yn cael eu hatgynhyrchu, cadw lleoliad y nofel yn Lloegr mae'n sicr sydd yn gweithio orau yn hytrach nag adleoli yng Nghymru.

---

<sup>10</sup> Ond addaswyd enw Harry'n orgraffyddol.

### 3.2 Iaith sy'n Dyddio

Gall iaith a oedd yn fodern ac yn gyfoes ar un adeg ddyddio (fel y trafodwyd ar dudalen 33 i 35). Y mae hyn yn arbennig o wir os ailgyhoeddir nofel flynyddoedd ar ôl ei chyhoeddi gyntaf, ac ystyrir o hyd a ddylid moderneiddio'r iaith ai peidio. Yn yr un modd, y mae dadleuon yn codi wrth gyfieithu nofelau flynyddoedd ar ôl cyhoeddi'r testun ffynhonnell. A ddylid moderneiddio'r iaith wrth gyfieithu neu atgynhyrchu'r iaith hen ffasiwn? Gall atgynhyrchu'r iaith hen ffasiwn ddieithrio darllenwyr, fel y trafodwyd eisoes, ond y mae iaith hen ffasiwn yn adlewyrchu cyfnod y nofel, sydd o bosibl yn bwysig i'w gyfleu.

Yn *James and the Giant Peach* nid oes syndod, o ystyried dyddiad cyhoeddi'r nofel, fod rhai ymadroddion a geiriau ynnddi wedi dyddio erbyn heddiw. Daw'r nofel o gyfnod gwahanol (1961), ac y mae'r iaith yn pwysleisio hyn. Er enghraifft, defnyddia James yr ymadrodd 'Good heavens' (Dahl 1961, t.38). Er bod yr ymadrodd yn parhau i gael ei ddefnyddio, nid yw'n gyffredin ymysg yr ifainc. Er hynny, penderfynwyd atgynhyrchu'r elfen hen ffasiwn wrth gyfieithu i'r Gymraeg, a dewiswyd ymadroddion a geirfa sy'n adlewyrchu'r eirfa Saesneg: 'Nefoedd wen!' (Meek 2003, t.38). Yn yr un modd, dywed y Fuwch Goch Gota, 'Oh my goodness!' (Dahl 1961, t.42) a phenderfynwyd cyfieithu'r ymadrodd i 'O'r annwyl!' (Meek 2003, t.42). Penderfyniad ymwybodol gan y cyfieithydd oedd cadw arlliw o'r iaith hen ffasiwn yn hytrach na moderneiddio gydag ebychiad fel 'waw' neu'r ymadrodd 'Beth yn y byd?'. Y mae nifer o'r ymadroddion a'r eirfa yn nofelau Dahl yn ddieithr i blant heddiw, ond gellid dadlau bod plant yn mwynhau darganfod geirfa ac ymadroddion newydd (ABC News 2010). Y peth pwysicaf yw bod yn gyson. Os yw'r cyfieithydd yn penderfynu atgynhyrchu'r iaith hen ffasiwn mewn un darn o'r nofel, y mae angen sicrhau cysondeb drwy'r testun ar ei hyd. Ym mhennod 23 o'r nofel Saesneg, ceir


enghraifft arall o iaith hen ffasiwn. Dywed Capten y llong *Queen Mary* ‘Holy cats!’ (Dahl 1961, t.93). Dyma ebychiad sy’n cyfleu braw neu syndod ond nid yw’n gyffredin ymysg yr ifainc. Unwaith eto, penderfynodd Elin Meek atgynhyrchu iaith hen ffasiwn y testun ffynhonnell gan ddewis yr ymadrodd ‘Arswyd y byd!’ (Meek 2003, t.93). Yn yr un modd â ‘Nefoedd wen’ ac ‘O’r annwyl’, dyma ymadrodd y byddai plentyn ifanc cyffredin yn annhebygol o’i ddweud heddiw.

Serch hyn, ceir hefyd enghraifft o iaith y testun targed yn methu ag adlewyrchu iaith hen ffasiwn y testun ffynhonnell. Yn y Saesneg, ceir ‘Young fellow’ (Dahl 1961, t.45). Y mae ‘fellow’ yn enw a ystyrir yn hen ffasiwn (yn wir, pan ailgyhoeddwyd nofelau Enid Blyton yn 2010, penderfynwyd cyfnewid ‘old fellow’ am ‘old man’). Yn y Gymraeg, fodd bynnag, nid yw’r cyfieithydd yn llwyddo i atgynhyrchu iaith hen ffasiwn y Saesneg gyda defnydd o ‘Fachgen ifanc’ (Meek 2003, t.45). Yn fy marn i, gellid bod wedi dewis ‘Ngwas [bach] i’, sef ymadrodd sy’n tueddu i gael ei ddefnyddio gan y to hÿn, fel yr enw ‘fellow’. Yn hyn o beth, byddai wedi llwyddo’n well na ‘Fachgen ifanc’ i atgynhyrchu natur hen ffasiwn y Saesneg.

### **3.3 Cenedl Enwau**

Yn achos y Gymraeg nid oes angen i’r darlennydd, yn wahanol i’r darlennydd Saesneg, ddarllen y nofel ymhellach neu astudio unrhyw ddarluniau er mwyn darganfod rhyw y cymeriadau hynny sydd yn anifeiliaid neu’n creaduriaid. Er hynny, gall cenedl enwau beri trafferth i gyfieithydd os yw cenedl enw yn y Gymraeg yn anghytuno â rhyw y cymeriad yn y testun ffynhonnell. Wrth gael ein cyflwyno i amryw o’r ‘creaduriaid’ sy’n byw yn yr eirinen wlanog, daw hyn i’r amlwg. Gweler Tabl 3, Atodiad 1 am y rhestr gyflawn. Canolbwyntiaf ar y Pryfyn Tân, lle ceir anghysondeb rhwng yr enw gwrywaidd ‘pryfyn’ a rhyw y creadur yn

nofel Dahl. Daw'r tensiwn yn glir yn y cyfieithiad Cymraeg: 'Mae'r Pryfyn Tân dwl yna wedi mynd i gysgu gyda'i golau ynghynn!' (Meek 2003, t.49) sy'n pwysleisio hyn. Y mae angen cofio bod y nofel hon wedi'i haddasu'n ffilm, ac felly bydd nifer o blant yn gyfarwydd â'r cymeriad. Byddai newid rhyw y pryfyn felly'n creu dryswch ond anodd fyddai newid rhyw'r pryfyn yn y cyswllt hwn gan fod Dahl yn manylu: 'Glow-worms are never worms. They are simply lady fireflies without wings' (Dahl 1961, t.50). Yn ychwanegol at hynny, mae Quentin Blake yn tynnu sylw at ryw y pryfyn yn ei ddarlun:



(Dahl 1961, t.50)

Er nad yw'r Pryfyn Tân yn gymeriad canolog yn y nofel, megis yr Hen Sioncyn y Gwair Gwyrdd, ei phrif rôl yn y grŵp yw darparu goleuni i'r lleill:

'Let's have some light!' shouted the Centipede... Then a faint greenish light began to glimmer out of the Glow-worm's tail, and this gradually became stronger and stronger until it was anyway enough to see by. (Dahl 1961, tt.63-64)

Y mae'n bwysig nodi mai pryfyn tân benywaidd yn unig sydd â'r gallu i greu golau (Gibbons 2003, t.273), ac felly byddai newid rhyw y cymeriad yn y nofel Gymraeg yn mynd yn groes i wybodaeth fiolegol sylfaenol. Penderfynodd y cyfieithydd felly fod cadw rhyw y cymeriad yn angenrheidiol ac yn bwysicach na sicrhau cysondeb rhwng cenedl yr enw a rhyw y cymeriad, sy'n benderfyniad llwyddiannus yn fy marn i.

### 3.4 Rhagenwau Cyfarch

Law yn llaw â hyn, ceir her ieithyddol arall sy'n codi wrth gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, sef a ddylid defnyddio rhagenwau a berfau'r ail berson unigol (U2) neu ffurfiau'r ail berson lluosog (L12)? Canolbwyntir ar elfennau megis y defnydd o eiriau anwes a darluniau i ystyried a yw penderfyniadau'r cyfieithydd yn llwyddiannus ai peidio.

Yn *James and the Giant Peach*, er mai James yw'r cymeriad mwyaf galluog, a bod y lleill yn dibynnu arno i'w hachub ac i ddatrys eu problemau, y mae'r creaduriaid yn ei ystyried yn fachgen ifanc, diniwed. Cymeriad mamol yw'r Fuwch Goch Gota, er enghraifft, sy'n gofalu am James ac y mae'r Hen Sioncyn y Gwair Gwyrdd yn dadol ac yn ddoeth. Maent yn rhoi'r cariad iddo nad yw'n derbyn gan ei fodrybedd. Cyn iddynt adael pen y bryn yn yr eirinen wlanog, dywed y Fuwch Goch Gota wrtho: 'Would you like me to take you under my wing so that you won't fall over when we start rolling?' (Dahl 1961, t.53) sy'n cyfleu ei natur reddfol i amddiffyn James rhag unrhyw niwed. Wrth ystyried yr elfen famol yng ngeiriau'r Fuwch Goch Gota, nid yw'n syndod ei bod yn defnyddio'r rhagenw a berfau'r ail berson unigol wrth siarad â James yn y Gymraeg: 'Hoffet ti i mi dy gymryd di o dan fy adain...?' (Meek 2003, t.53). Ys dywed Peter Wynn Thomas, gall ffurfiau'r ail berson lluosog nodi bod parch a ffurfioldeb yn y berthynas (1996, t.244) ac ni fyddai'r ffurfiau hyn yn addas yn yr achos hwn.

Y mae'r Hen Sioncyn y Gwair Gwyrdd yn canmol James pan lwydda, ac mae hyn yn gosod elfen dadol yn eu perthynas. Dywed wrtho: 'My dear James... I don't know what we'd do without you. You are so clever' (Dahl 1961, t.68) a 'My dear boy... I do congratulate you' (Dahl 1961, t.107). Y mae'r defnydd o 'dear' yn gosod anwyldeb yn eu perthynas tra bo'r enw 'boy' yn tanlinellu'r pellter oedran rhwng y ddau. Y mae angen ystyried nifer o elfennau

wrth benderfynu ar ffurfiau'r ail berson, gan gynnwys y defnydd o eiriau anwes. Sylwodd Elin Meek ar hyn a phenderfynodd ddefnyddio ffurfiau'r ail berson unigol yn y cyswllt hwn: 'Fachgen annwyl... Llongyfarchiadau mawr i ti' (Meek 2003, tt.106–107).

Y mae'r creaduriaid i gyd yn defnyddio ffurfiau'r ail berson unigol ar ei gilydd, ond defnyddiant ffurfiau'r ail berson lluosog yn gyffredinol wrth siarad â'r Hen Sioncyn y Gwair Gwyrdd. Y mae ef, er ei fod yn rhan o'r 'criw', yn ennyn mwy o barch na'r lleill. Dywed Miss Corryn wrth yr Hen Sioncyn y Gwair Gwyrdd ar ôl iddi nyddu gwely iddo:

I do hope you'll find it comfortable... I made it as soft and silky as I possibly could... I spun it with gossamer. That's a much better quality thread than the one I use for my own web. (Dahl 1961, t.47)

Sylwer ar y parch yn y geiriau uchod tuag at yr Hen Sioncyn. Sylwer hefyd fod Miss Corryn yn creu ei wely ef gyntaf. Mae'n amlwg, felly, mai ffurfiau'r ail berson lluosog sydd yn gweddu orau yn y Gymraeg:

Gobeithio'n wir y byddwch chi'n gyfforddus... Fe wnes i fe mor feddal a sidanaidd ag y gallwn i. Fe nyddais i fe â gwawn... edau o ansawdd lawer yn well na'r un dwi'n ei defnyddio i wneud fy ngwely fy hun. (Meek 2003, t.47)

Wrth ystyried y defnydd o ragenwau, y peth pwysicaf yw sicrhau cysondeb. Dylid cadw'r un ffurfiau drwy'r testun, wrth i un cymeriad gyfarch y llall, oni bai bod newid ffurfiau yn nodi datblygiad ym mherthynas cymeriadau. Sylwer ar yr anghysondeb yn y defnydd o'r ffurfiau gan James wrth iddo gyfarch y Neidr Gantroed pan ydynt yn cwrdd gyntaf: 'Mae llawer o esgidiau gyda ti' (Meek 2003, t.43). Wrth droi at dudalen 45, dywed James wrtho: 'Sut yn y byd daethoch chi i fod fel yna?' (Meek 2003). Y mae'r defnydd o enwau anwes gan y Neidr Gantroed ar James yn awgrym o berthynas y ddau: 'my dear child' (Dahl 1961, t.48), ac yn cyfleu'r pellter rhwng oedran y ddau, yn union fel y defnydd o eiriau anwes gan yr Hen Sioncyn y Gwair Gwyrdd ar James. Yn ogystal â hyn, rhydd y Neidr Gantroed orchmynion i



James unwaith y mae'n cwrdd ag ef: '... I wish you'd come over here and give me a hand with these boots...' (Dahl 1961, t.43), sy'n gosod hierarchaeth yn eu perthynas ar unwaith. Y mae'r ffaith bod James yn defnyddio ffurfiau'r ail berson unigol pan ydynt yn cwrdd gyntaf felly'n cyferbynnu â'r elfen awdurdodol yng ngeiriau'r Neidr Gantroed o'r cychwyn cyntaf, ac yn awgrymu imi mai gwall esgeulus gan y cyfieithydd ydyw. Y mae angen, yn ogystal, astudio'r darluniau sydd yn aml yn gallu datgan mwy na geiriau. Ar dudalen 44 (Dahl 1961 a Meek 2003), ceir darlun o James yn datglymu esgidiau'r Neidr Gantroed, a'r arthropod yn ymdebygu i dad-cu hoffus:



(Dahl 1961, t.44)

Sylwer ei fod yn edrych i lawr ar James tra bo James yn edrych i fyny ato o'r llawr. Y mae hyn ynddo'i hun yn awgrymu hierarchaeth ym mherthynas y ddau. Dengys hyn bwysigrwydd darluniau i'r cyfieithydd; yn sicr ddylai eu hystyried yn ofalus, yn arbennig os trosglwyddir y darluniau i'r testun targed. Ystyriaf felly mai ffurfiau'r ail berson lluosog sy'n gweddu orau wrth i James gyfarch y Neidr Gantroed.

Drwy'r nofel, fodd bynnag, cawn ddatblygiad ym mherthynas y ddau gymeriad. Er mai James oedd yn derbyn gorchmynion gan y Neidr Gantroed ar ddechrau'r nofel (Dahl 1961, t.43), y mae erbyn canol y nofel yn ddigon hyderus i allu rhoi gorchmynion i'r Neidr Gantroed ei hunan: 'And you — Centipede!... Hop downstairs...' (Dahl 1961, tt.83–84). Yn y

Gymraeg, nodir y datblygiad hwn gyda'r newid o ffurfiau'r ail berson lluosog i ffurfiau'r ail berson unigol: 'A ti — Neidr Gantroed!... Neidia i lawr llawr...' (Meek 2003, t.83). Datblyga cydraddoldeb yn eu perthynas felly, a chyflëir hyn yn y Gymraeg gyda newid o ffurfiau'r ail berson lluosog i ffurfiau'r ail berson unigol. Datblyga'r berthynas o fod yn anghilyddol i fod yn gilyddol felly.

### 3.5 Darluniau

Fel y nodir ar dudalen 17 i 19, y mae cyfieithydd a golygydd yn wynebu her arbennig wrth gyfieithu nofel sy'n cynnwys darluniau. Gwelir bod hyn yn codi'n arbennig pan nad yw'r darluniau'n cyd-fynd â'r cyfieithiad, hynny yw pan ddomestigeiddir y cyfieithiad.<sup>11</sup> Y mae geiriau a delweddau yn ddibynnol ar ei gilydd ac felly y mae llwyddiant cyfieithiad yn ymwneud â pherthynas y geiriau a'r elfen weledol.

Un o brif ddarlunwyr Prydain yw Quentin Blake, darlunydd nofelau Dahl i blant. Pwy all feddwl am Roald Dahl heb feddwl am ddarluniau Quentin Blake? Y mae plant ledled y byd yn adnabod ac yn gyfarwydd â'i ddarluniau (Powling 1999, t.5). Y mae geiriau'r awdur a darluniau Blake yn cyd-weithio'n gelfydd i adrodd y stori, a byddai colli gwaith y darlunydd, gellid awgrymu, yn amharu ar lwyddiant y nofel ei hun. Yn wir, '[i]t is now impossible to think of Roald Dahl's writing without imagining Blake's complementary artwork' (Puffin Books 2012). Mae ei luniau ar ffurf sgetsh ac mewn du a gwyn. Gwawdluniau ydynt sy'n rhoi pwyslais ar wynebau cymeriadau, yn arbennig eu cegau a'u trwynau, i gyfleu

---

<sup>11</sup> Er enghraifft, ceir anghysondebau rhwng y testun a'r darluniau wrth gyfieithu *Laura sur la route* (1978) o'r Ffrangeg i'r Almaeneg. Yn y testun ffynhonnell, â'r prif gymeriad o ddinas Dieppe i Baris ac yn y cyfieithiad Almaeneg, teithia o Feldafing i ddinas Munich. Yn un o'r darluniau yn y cyfieithiad, fodd bynnag, gwelir y Tŵr Eiffel yn y cefndir (O'Sullivan 2005, t.85), sy'n mynd yn groes i'r wybodaeth yn y testun.

nodweddion y cymeriadau a'u hymddygiad. Isod ceir darlun o Anti Sponge ac Anti Spiker, dau o gymeriadau drwg ac atgas y nofel.



(Dahl 1961, t.12)

Yn y cyfieithiad Cymraeg, lleolir y darluniau ar yr un tudalennau ac yn yr un lle â'r darluniau yn y testun ffynhonnell, sydd felly'n sicrhau cysondeb i'r darllenydd dwyieithog. Y mae hyn yn golygu bod tasg y cyfieithydd hyd yn oed yn anos: '[D]ue to co-prints, it is only the texts in words... that can be altered, the illustrations must be left untouched' (Oittinen 2003, t.133). Ni ellir eu lleoli ar dudalennau gwahanol, ac y mae rhaid gweithio o fewn gofod penodol. Byddai anghysondebau rhwng y testun a'r darlun ar yr un dudalen yn peri dryswch i'r darllenydd. Pan ymddengys geiriau a darluniau cyfatebol ochr yn ochr ar yr un dudalen, mae hyn yn rhoi cyfle i'r darllenydd droi yn ôl ac ymlaen o'r naill i'r llall yn hawdd. Wrth gyfieithu, felly, y mae angen sicrhau bod y darlun yn cyd-fynd ac yn adlewyrchu'r geiriau ar y dudalen er mwyn sicrhau'r un effaith â'r testun ffynhonnell. Dyma her ychwanegol sy'n wynebu cyfieithwyr i blant, am fod darluniau yn elfen gyffredin dros ben mewn cyfrolau i blant, yn wahanol i lenyddiaeth oedolion.

### 3.6 Cyfieithu'r Cerddi

Yn ôl Umberto Eco, cyfieithu cerddi yw'r her anoddaf (2001, t.94) oherwydd ei bod bron yn amhosibl cadw holl nodweddion y gerdd o ran cynnwys, effaith, odl a rhythm. Felly, yn aml, y mae angen ystyried yr hyn sydd rhaid ei aberthu wrth gyfieithu cerdd. A ddylid cadw'n driw i ystyr y gerdd? A ddylid cadw'n ffyddlon i'w mydr a'i hodl? Y mae ail-greu cerdd yn union mewn iaith arall yn amhosibl: '[I]t is precisely on approximation that good translation of poetry must be built' (Raffel 1988, t.13). Yn wir, yn ôl Newmark, 'its meaning will differ in many ways from the original... A successfully translated poem is always another poem' (1988, t.163).

Er mai nofelydd oedd Roald Dahl, yr oedd yn ogystal yn fardd i blant. Cyhoeddodd amryw o gyfrolau o gerddi, gan gynnwys *Revoltin' Rhymes* yn 1982. Yn ogystal â hyn, ceir cerddi mewn pedair o'i nofelau. Yn *James and the Giant Peach*, ceir chwech o gerddi sy'n cael eu hadrodd gan rai o gymeriadau'r nofel, gan gynnwys Anti Spiker, Anti Sponge, y Neidr Gantroed, a James ei hun. Y Neidr Gantroed sy'n adrodd y rhan fwyaf o'r cerddi yn y nofel, a chanolbwyntir felly ar ei gerddi ef yn y drafodaeth hon.

Er mai Elin Meek yw cyfieithydd *James a'r Eirinen Wlanog Enfawr*, y mae'n bwysig cydnabod mai Mererid Hopwood a fu wrthi'n addasu'r cerddi i'r Gymraeg. Y mae hyn yn awgrymu bod y broses o gyfieithu barddoniaeth yn wahanol i gyfieithu naratif, a bod angen sgiliau arbennig i gyfieithu cerddi'n llwyddiannus. Yn wir, fel y noda'r ysgolhaig Francis R. Jones, '[t]ranslating poetry is a difficult job, which requires special expertise' (2011, t.1). Yn union fel y mae ansawdd cyfieithiad o ddarn o ryddiaith yn ddibynnol ar sgiliau ysgrifennu'r cyfieithydd, mae cyfieithu cerddi yn ddibynnol ar sgiliau barddonol y cyfieithydd: 'The quality of the poem in translation will depend on the translator's skill in writing poetry in his

own language in the act of translation' (Barnstone a McCulloh 1962, t.xxxi). Noda Burton Raffel fod meddu ar y gallu i gyfansoddi cerddi yn angenrheidiol er mwyn gallu cyfieithu cerddi. Dadleua yn hyn o beth fod angen i gyfieithydd barddoniaeth llwyddiannus fod yn fardd ei hun (1988, t.95). Y mae Elin Meek yn adnabyddus am ysgrifennu llyfrau i blant ifainc ac am gyfieithu nofelau rhai o brif awduron llenyddiaeth Saesneg i blant, megis Roald Dahl a Jacqueline Wilson. Yn ogystal ag ysgrifennu nofelau i oedolion a phlant megis *O Ran a Dydd Sbri Un — Gwersylla* (2010), ac addasu nifer o lyfrau ar gyfer plant (megis *Aeth Mam-gu i'r Farchnad* (2007)), y mae Mererid Hopwood hefyd yn fardd adnabyddus sydd wedi cyhoeddi cyfrolau o farddoniaeth (megis *Caneuon y Coridorau: Barddoniaeth ar gyfer Pobl Ifanc* (2005) ar y cyd gyda beirdd eraill).<sup>12</sup> Y mae'r ffaith bod Elin Meek wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb o gyfieithu'r cerddi'n awgrymu, felly, nad yw gallu cyfieithu un genre o lenyddiaeth yn golygu, o angenrheidrwydd, fod cyfieithydd yn gallu cyfieithu popeth; y mae cyfieithu unrhyw destun yn gofyn am sgiliau arbennig.

Yr oedd Roald Dahl yn deall plant ac yn deall yr hyn sy'n apelio atynt: 'Children are much more vulgar than grown-ups. They have a coarser sense of humour. They are basically more cruel' (Dahl yn West 1992, t.73). Yn ei gerddi, ceisia apelio at hiwmor plant drwy gadw'r nodweddion hyn mewn cof. Yng ngerddi Dahl, ceir defnydd helaeth o dechnegau gan gynnwys geiriau nonsens, ailadrodd a chwarae ar eiriau sydd yn anodd eu cyfieithu'n llwyddiannus. Trafodir yr elfennau hyn ynghyd ag elfennau eraill sy'n cyfrannu at lwyddiant y cerddi Saesneg, gan ddadansoddi penderfyniadau Mererid Hopwood.

---

<sup>12</sup> Y mae hefyd wedi ennill y Goron, y Gadair a'r Fedal Lenyddiaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

### 3.6.1 Geiriau Nonsens

Yn ôl Elizabeth Sewell:

[nonsense] may be a collection of words which in their internal composition of letters and syllables or in their selection and sequence do not conform to the conventional patterns of language to which the particular mind is accustomed. (1952, t.2)

Nid yw'n anghyffredin i awduron ddefnyddio geiriau nonsens yn eu gwaith, ac er eu bod yn aml yn ymddangos yn nonsens llwyr, mae darllenwyr yn canfod difyrwrch ynddynt. Gallwn dybio '[that] writers wanted their sentences containing nonsense words to look like genuine sentences bearing reference' (Sewell 1952, t.118) ac felly y mae'r darllenydd yn ceisio creu cysylltiadau rhwng y geiriau nonsens a geiriau sy'n bodoli.

Y mae geiriau nonsens a geiriau sydd wedi'u dyfeisio yn elfennau poblogaidd yng ngwaith Roald Dahl. Yn *The BFG*, ceir geiriau megis 'Snozzcumbers' a 'Gobblefunk'. Yn *George's Marvellous Medicine*, dyfeisia Dahl eiriau nonsens megis 'jacky-jumpers' a 'frizzle'. Y mae nifer helaeth o eiriau nonsens Dahl, er nad ydynt mewn geiriaduron, yn cynnwys rhannau o eiriau go iawn. Yn y gerdd ar dudalen 54 yn *James and the Giant Peach*, ceir enwau creaduriaid sydd wedi'u dyfeisio gan yr awdur ei hun, yn arbennig er mwyn apelio at hiwmor plant, sef 'Pink-Spotted Scrunch' a 'Biddy-Bright Hen'. Gyda'r ansoddair 'pink' yn enw'r Pink-Spotted Scrunch, cawn ddelwedd o gymeriad merchetaidd nad yw'n ennyn ymdeimlad o ofn yn y darllenydd. Y mae hyn ynddo'i hun yn creu hiwmor. Er y gall y creadur, ys dywed yn y Saesneg, 'chew up a man with one bite' (Dahl 1961, t.54), y mae'r cyferbyniad rhwng gweithredoedd atgas y creadur a'i enw merchetaidd yn cynyddu at hiwmor ac effaith y darn i blant. Gall y gair 'scrunch' ddwyn i gof wahanol ystyron i blant, yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u profiadau. Gall ddwyn i gof y berfenw 'crunch', sy'n disgrifio rhywun yn bwyta'n swllyd. Ceir delwedd, felly, o berson yn cael ei gnoi, ynghyd â'r sŵn sy'n gysylltiedig â'r ddelwedd, a hynny'n creu ymdeimlad o ffeidd-dod. Y mae hyn

oll yn tynnu sylw at y geg a'r weithred o fwyta, sy'n cysylltu â chysyniadau Bakhtin am Garnifalístiaeth a realaeth grotesg (1965). Ys dywed Bakhtin, gyda realaeth grotesg, 'the stress is laid on those parts of the body that are open to the outside world...' (1965, t.26), sef nodweddion yn ymwneud â bwyta, yfed ac ysgarthu (Dentith 1995, t.227). Dywed hefyd: 'Exaggeration, hyperbolism, and excessiveness are generally considered fundamental attributes of the grotesque style' (Bakhtin 1965, t.303), yn arbennig wrth sôn am ddelweddau o'r corff megis y geg a bwyta. Yn wir, o holl nodweddion y corff, y geg yw'r elfen grotesg bwysicaf (Dentith 1995, t.226). Pwysleisia Dahl yn aml nodweddion o'r geg i greu ymdeimlad o'r grotesg ymysg ei ddarllenwyr.<sup>13</sup> Yn y gerdd benodol dan sylw, pwysleisia Dahl y geg a'r weithred o fwyta, nid yn unig yn ei ddisgrifiad o weithredoedd y Pink-Spotted Scunch, ond gydag ystyr ei enw.

Ond gall 'Scunch' hefyd gyfeirio at y weithred o wasgu rhywbeth yn fân, 'to scunch'. I mi, y mae 'scunch' yn dwyn i gof y weithred o wasgu darn o bapur yn fân a fyddai'n apelio at blant am fod delwedd o ddyn wedi'i wasgu fel papur yn chwerthinllyd. Ys nodwyd eisoes, y mae trais difyr yn rhan anhepgor o waith Dahl, ac y mae'r ddelwedd hon o wasgu dyn fel darn o bapur yn adlewyrchu hyn. Yn ogystal â hyn, geiriau onomatopoeig yw 'crunch' a 'scunch'. Y mae sŵn geiriau yn bwysig i blant ac yn ychwanegu at eu mwynhad o'r darn. Y mae'r ddelwedd o berson yn cael ei fwyta neu'n cael ei wasgu'n fân yn un ofnadwy, ond y mae'r cysylltiad rhwng delwedd a sŵn y weithred yn creu hiwmor grotesg sy'n cynnig digrifwch i blant.

Sylwer sut y cedwir yn y Gymraeg yr un niferoedd o sillafau ym mhob llinell ag yn y Saesneg (sef 11 sillaf yn llinell 1 a 3, a 9 sillaf yn llinell 2 a 4), a llwyddir i sicrhau odl rhwng y llinell gyntaf a'r drydedd, a'r ail linell a'r bedwaredd. Sicrha hyn fod yr effaith glywedol yn ymdebygu i'r Saesneg:

---

<sup>13</sup> Yn *George's Marvellous Medicine*, er enghraifft, gorbwysleisia Dahl yr elfen grotesg drwy ddweud bod gan y fam-gu 'a small puckered up mouth like a dog's bottom' (1982, t.8). I oedolion, gellid dadlau y byddai cymharu ceg y fam-gu â phen-ôl ci yn ennyn ymdeimlad o'r grotesg.

We may see the venomous Pink-Spotted Scrunch  
Who can chew up a man with one bite.  
It likes to eat five of them roasted for lunch  
And eighteen for its supper at night.

(Dahl 1961, t.54)

Fe allem weld Bwystfil gwenwynig a chas  
All lyncu un dyn ar ei dalcen.  
I ginio mae'n bwyta pum dyn gyda blas  
A deunaw i swper mewn hufen.

(Meek 2003, t.54)

Er bod yr enw 'Pink-Spotted Scrunch' yn ennyn digrifwch yn y Saesneg, ni cheir yr un effaith yn y Gymraeg gyda'r enw 'Bwystfil'. Nid yw'r creadur Saesneg yn codi ofn ar y darllenwyr am fod hiwmor ynghlwm wrth y trais ond y mae'r Gymraeg i raddau helaeth yn dileu hyn ac yn gosod elfen fwy bygythiol yn y gerdd. Y mae'r enw Saesneg yn ysgogi delweddau nad yw'r cyfieithiad yn eu cadw felly. Cryfha 'crunch'/'scrunch' y syniad o'r creadur yn bwyta neu'n gwasgu dyn ac y mae'n gosod pwyslais ar symudiad a sŵn nad yw'r cyfieithydd yn gallu ei atgynhyrchu.

Dewisa Dahl ei eiriau nonsens yn ofalus fel eu bod yn creu delweddau sy'n dwyn i gof brofiadau personol i'r darlennydd. I mi, y mae'r enw 'Biddy-Bright Hen' yn dwyn i gof yr enw 'Old Biddy', sy'n cyfeirio at hen fenyw fusneslyd. Bydd darllenwyr o bosibl yn sylwi ar y gwrthyferbyniad rhwng enw a chymeriad yr iâr: 'so playful, so kind...' (Dahl 1961, t.54), ac yn canfod difyrrwch ynddo. Cawn gyflythreniad o'r llythyren 'b' yn y Saesneg hefyd sy'n ychwanegu at effaith yr enw yn y Saesneg am fod nodweddion clywedol megis cyflythrennu yn ychwanegu at fwynhad darllen plant. Cedwir yr un disgrifiad o'r iâr yn y Gymraeg, ond collir effaith yr enw:

We may see the sweet little Biddy-Bright Hen  
So playful, so kind and well-bred;  
And such beautiful eggs! You just boil them and then  
They explode and they blow off your head.

(Dahl 1961, t.54)

Fe allem weld Iâr fach sy'n annwyl a llon,



Yn chwarae a chrwydro a phigo.  
Os bwytwch un wy o'r nyth gwellt sy gan hon,  
Bydd eich pen chi yn fflamio a ffrwydro.

(Meek 2003, t.54)

Ni cheir cyferbyniad rhwng enw a chymeriad yr iâr, a chollir y cyflythreniad. Yn sicr, y mae enwau'r creaduriaid yn fwy llwyddiannus yn y Saesneg na'r cyfieithiad am nad yw enwau'r ddau greadur yn cyfieithu'n effeithiol i'r Gymraeg.

Fel y nodwyd eisoes, y mae cyfieithu geiriau nonsens yn anodd am fod yr hiwmor ynghlwm wrth iaith. Dadleua Debra West fod jôcs ieithyddol yn gymhleth dros ben i'w cyfieithu am ein bod yn ymdrin, nid yn unig â natur y jôc, ond â natur yr iaith yn ogystal (1989, t.131), ac y mae hyn yn cynnwys geiriau nonsens a chwarae ar eiriau sy'n frith yng ngwaith Dahl. Er hyn ni ddefnyddia Mererid Hopwood unrhyw dechnegau eraill i wneud iawn am unrhyw golledion. Gellid bod wedi cynnwys *neologisms* yn y cerddi i gadw'r hiwmor. Dyma dechneg lle y caiff geiriau sy'n bodoli eu haddasu, neu ychwanegir rhagddodiad neu ôl-ddodiad iddynt. Er enghraifft, gellid bod wedi addasu'r enw 'Bwystfil' i 'Bwytfil', sy'n awgrymu'r ffaith bod y creadur yn bwyta dynion. Yn ogystal â hyn, y mae cyfnewid elfennau ieithyddol am elfennau diwylliannol yn dechneg arall y gellid ei defnyddio i geisio trosglwyddo effaith y gwreiddiol a sicrhau bod y cyfieithiad yr un mor llwyddiannus; er enghraifft gellid bod wedi dewis yr enw 'Hen Iâr Fach Cydweli'. Dyma adlais o'r pennill 'Hen Fenyw Fach Cydweli' sy'n atgynhyrchu'r ddelwedd o hen fenyw yn yr enw Saesneg 'Biddy-Bright Hen'.

### 3.6.2 Ailadrodd

Yn arbennig am fod llyfrau i blant yn cael eu darllen yn uchel yn aml, y mae sŵn a rhythm yn arbennig o bwysig. Yn aml, defnyddia Dahl dechnegau clywedol, megis ailadrodd, i greu mwynhad. Yn un o gerddi'r Neidr Gantroed, ailadroddir y sain 'gn' ar ddechrau geiriau:

A Gnu and a Gnocerous surely you'll see  
And that gnormous and gnorrible Gnat  
Whose sting when it stings you goes in at the knee  
And comes out through the top of your hat

(Dahl 1961, t.54)

Byddai plant yn mwynhau clywed sŵn y geiriau ac yn canfod digrifwch yn y defnydd o'r sain 'gn' ar ddechrau geiriau nad ydynt yn dechrau â 'gn' mewn gwirionedd. Yn yr un modd â'r defnydd o eiriau nonsens, y mae'r dechneg hon yn chwarae â rhesymeg y darllenydd.

Sylwer y collir effaith yr ailadrodd yn y Gymraeg:

R'yn ni'n siŵr o weld Chwilod a haid o Frogaod,  
A Phryfyn â phigiad fel sbardun.  
Bydd un pen o'r pigiad i lawr wrth eich traed  
A'r pen arall lan fry wrth eich corun.

(Meek 2003, t.54)

Sylwer yn ogystal na chedwir yr un nifer o sillafau ag yn y Saesneg. Yn y Saesneg, ceir 11 sillaf yn llinell 1 a 3, a 9 yn llinell 2 a 4 y pennill. Er hyn, yn y pennill Cymraeg, ceir 13 sillaf yn llinell 1 ac 11 yn llinell 3, a cheir 9 sillaf yn llinell 2 a 10 yn llinell 4. Y mae'r patrwm sillafiadau yn y gerdd Saesneg yn rhoi rhythm arbennig ond drwy amrywio nifer y sillafau ym mhob llinell, collir hyn yn y Gymraeg. Eto i gyd, ychwanegir elfen arall i'r cyfieithiad Cymraeg. Ceir odl rhwng 'chwilod' a 'brogod', ac odl rhwng 'pryfyn' a 'sbardun' ac y mae yn ogystal gyflythreniad o'r sain 'ph' gyda 'phryfyn' a 'phigiad'. Gwelir felly i'r cyfieithydd gydnabod ei bod yn amhosibl cadw effaith y gwreiddiol yn llwyr, ac felly ychwanega dechneg arall i'r darn, sef odl. Os nad oes modd atgynhyrchu arddull y testun ffynhonnell,

dylid canfod modd arall i sicrhau'r effaith yn y testun targed. Y mae'r cyfieithydd yn gwneud iawn am y golled gyda'r defnydd o dechneg arall:

[W]hile at times we must lose, at others we gain, and the good translator will take advantage of the text, improving upon the weaker lines of the original, while doing his best with the best. (Barnstone a McCulloh 1962, t.xxxi)

### 3.6.3 Chwarae ar Eiriau

Y mae'r defnydd o chwarae ar eiriau yn boblogaidd yng ngwaith Roald Dahl. Er enghraifft, yn *George's Marvellous Medicine*, ceir chwarae ar eiriau rhwng hoarse/horse:

The next bottle he took down had about five hundred gigantic purple pills in it. FOR HORSES WITH HOARSE THROATS, it said on the label. THE HOARSE-THROATED HORSE SHOULD SUCK ONE PILL TWICE A DAY. 'Grandma may not have a hoarse throat,' George said, 'but she's certainly got a sharp tongue. Maybe they'll cure that instead.' (Dahl 1982, t.35)

Hefyd, ceir chwarae ar eiriau yn *James and the Giant Peach*: 'I like hot-dogs, I LOVE hot-frogs' (Dahl 1961, t.72). Ar yr olwg gyntaf, byddai 'hot-dogs' yn dwyn i gof y bwyd Americanaidd o selsig mewn bara. Ond wrth fynd ymlaen i ddarllen 'hot-frogs', byddai'r darllenydd yn sylwi mai bwyta cŵn yw ystyr 'hot-dogs' yn y cyd-destun hwn. Er y byddai hyn yn sicr o ddenu ymdeimlad o ffieidd-dod, diau y byddai plant yn canfod hiwmor a digrifwch yn y disgrifiad. Fel y nodwyd eisoes, y mae'r defnydd o gerddi lle mabwysiedir lleisiau cymeriadau yn gallu pwysleisio personoliaeth y cymeriad. Canfu'r Neidr Gantroed bleser mewn pethau y byddai eraill yn eu canfod yn ffaidd, a gwelwn hyn wrth iddo ganu am ei hoff fwyd. Yr her, felly, yw sicrhau bod personoliaeth y Neidr Gantroed a'r elfennau ffaidd hyn yn cael eu trosglwyddo wrth gyfieithu i'r Gymraeg. Cedwir y chwarae ag ystyr wrth droi i'r Gymraeg: 'A hen gŵn poeth a chwilod noeth' (Meek 2003, t.72), a llwyddir i ychwanegu mwy o hiwmor at y darn. Y mae sôn am 'chwilod noeth' yn beth rhyfedd, ac yn

awgrymu ei bod yn gyffredin iddynt wisgo dillad. Byddai hyn ynddo'i hun yn ddifyr i blant am fod y ddelwedd mor chwerthinllyd.

Elfen arall o Garnifaliaeth a welir yn nofelau Dahl yw'r pwyslais ar fwydydd, neu unrhyw beth y gellir ei fwyta. Y mae Bakhtin yn defnyddio'r syniad o fwyd fel rhywbeth sy'n pwysleisio adfywiad a digonedd, ond y mae Dahl yn troi'r cysyniad hwn ben i waered drwy bwysleisio bwyd fel rhywbeth afiach. Yn *The Twits* (1980), er enghraifft, y mae Mr Twit yn bwyta amryw o fwydydd na fyddai plant yn hoff ohonynt, gan gynnwys wyau a phigoglys. Y mae bwyta creaduriaid yn rhan o gysyniad grotesg Dahl, ond eto pwysleisir yr elfen hon ymhellach yn *James a'r Eirinen Wlanog Enfawr* drwy ychwanegu'r cyfeiriad at fwyta pryfed. Y mae cyfeiriadau at bryfed yn grotesg i blant ac oedolion ill dau, ond yn ddigrif i blant am eu bod yn mwynhau nodweddion ffaidd ac atgas. Atgynhychir odl y gerdd Saesneg yn ogystal. Ys dywed Lathey, dylid cadw rhythmau ac effaith cerddi, gan aberthu cyfieithiad llythrennol (2006, t.22). Defnyddia'r cyfieithydd ei dyfeisgarwch i atgynhyrchu hiwmor ac odl, ond ychwanegir at y disgrifiad yn ogystal.

### 3.6.4 Cyfeiriadau Llenyddol

Y mae cyfieithu cyfeiriadau llenyddol yn llythrennol yn amhosibl am fod cyfeiriadau o'r math wedi'u cysylltu'n llwyr ag iaith a diwylliant neilltuol. Ar ddiwedd un o gerddi'r Neidr Gantroed, ceir cyfeiriad at hwiangerdd boblogaidd yn y Saesneg:

And Old Mother Hubbard  
Got stuck in the c-. (Dahl 1961, t.104)

Mae gan y darllenydd wybodaeth flaenorol o'r pennill am fod nifer helaeth o blant Saesneg eu hiaith, ar un adeg, wedi ei glywed a'i adrodd. Y mae adnabod yr hwiangerdd yn galluogi plant i fwynhau a chanfod digrifwch yn y darn. Ceir digrifwch yn y ffaith bod yr hwiangerdd yn ymddangos mewn cyd-destun anghyffredin. Llwydda Mererid Hopwood i

ganfod ateb llwyddiannus i'r her hwn: 'A'r ddau gi bach' (Meek 2003, t.104) sy'n cyfeirio at y gerdd 'Dau gi bach (yn mynd i'r coed)'. Byddai plant ledled Cymru yn ymwybodol o'r cyfeiriad llenyddol hwn am fod y gerdd yn un boblogaidd ymysg plant ifainc. Llwydda Mererid Hopwood i sicrhau'r un effaith yn y gerdd Gymraeg drwy ganfod cerdd sy'n ennyn yr un ymdeimlad ymysg plant Cymraeg eu hiaith.

### 3.7 Tabŵs

Er ei boblogrwydd ymysg plant, y mae nifer o oedolion yn beirniadu gwaith Dahl. Y mae *James and the Giant Peach* yn ymddangos ar y rhestr '100 llyfr sy'n cael eu beirniadu'n aml' a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llyfrgelloedd America (ALA). Ym marn nifer, y mae ei nofelau yn ddi-chwaeth ac yn dylanwadu'n wael ar blant (Powling 1997, t.18). Yn ogystal â hyn, beirniadir ef am ei syniadau llawn drygioni a'r ffaith ei fod yn gwneud hwyl am ben oedolion a normau cymdeithasol. Y mae ei nofelau'n canolbwyntio ar herio normau cymdeithasol cyffredin, ac yn cynnwys amryw o dabŵs mewn llenyddiaeth plant, megis darlunio oedolion yn gymeriadau drwg, hiwmor grotesg, a thrais ysgafn. Serch hynny, noda Oittinen mai 'violating these taboos in children's books is what makes them so appealing to children' (2000, t.92). Sonnir yn aml am ymdrechion cyhoeddwyr a golygyddion i sensro ac addasu llenyddiaeth plant a ystyrir yn anaddas neu'n dabŵ. <sup>14</sup> Yn un o gerddi'r Neidr Gantroed, ceir amryw o gyfeiriadau at dabŵs:

And monkeys chewed tobacco  
And hens took snuff  
To make themselves look tough  
...  
And porcupines  
Drank fiery wines

(Dahl 1961, t.104)

---

<sup>14</sup> Trafodir yr ymdrechion i sensro un o lyfrau Astrid Lindgren ar dudalen 26.

Cyfieithwyd y nofel i'r Gymraeg bum degawd ar ôl iddi gael ei chyhoeddi gyntaf yn y Saesneg, ac o fewn y cyfnod hwnnw y mae'r hyn sy'n 'dderbyniol' ac 'addas' mewn llenyddiaeth plant wedi newid. Mewn nofelau i blant yn gyffredinol, tueddir i beidio â sôn am alcohol, rhyw neu gyffuriau — tueddir i ddileu cyfeiriadau o'r fath neu osod cyfeiriadau 'addas' yn eu lle. Yn y cyfieithiad Cymraeg, ceir:

A mwncïod yn cnoi tybaco,  
A'r ieir yn chwarae pŵl  
I ymddangos yn cŵl  
...  
A brain wrth y dwsin  
Yn yfed gwin

(Meek 2003, t.104)

Cedwir felly y rhan fwyaf o'r tabŵs wrth drosglwyddo o'r Saesneg. Cedwir y cyfeiriad at dybaco, gwin, ond dilëir y cyfeiriad at 'snuff', sef tybaco sy'n cael ei snwffian. Pam felly y dilëir y cyfeiriad hwn? O bosibl, y mae cyfeirio at 'snuff', sydd fel yr awgryma'r enw yn cael ei snwffian, yn dwyn i gof gyffuriau fel cocên sy'n cael eu cymryd yn yr un modd. O bosibl, dyma ymgais i warchod plant, hynny yw, ceir yma fath o 'sensro' ar ran y cyfieithydd a'r golygydd. Er hyn, y mae'n annhebygol mai dyma'r prif reswm pam y dilëir y cyfeiriad at 'snuff'. Petai cyhoeddwr am ddileu'r cyfeiriad hwn o ganlyniad i'r effaith niweidiol bosibl ar blant, oni fyddent yn ogystal wedi dileu'r cyfeiriad at dybaco a gwin? Gellid bod wedi cadw'r gair 'snyff' yn y Gymraeg — byddai cyfieithu'r darn yn agos wedi cadw'r un ddelwedd, ac wedi sicrhau'r un odl:

A'r ieir yn cymryd snyff  
I ymddangos yn tyff

Yn fy marn i, ceir rheswm arall pam y dilëir y cyfeiriad, a'i gyfnewid am gyfeiriad mwy diniwed, sef am nad yw plant heddiw yn deall ystyr y gair. Mae rhaid imi gyfaddef nad oeddwn i'n deall y cyfeiriad tan i mi wneud gwaith ymchwil. Gellid dadlau bod y ddelwedd o ieir yn chwarae pŵl yn apelio'n fwy at hiwmor plant am fod y ddelwedd yn chwerthinllyd. Yn hyn o beth, teimlaf y ceir darn mwy llwyddiannus a digrif sy'n dileu'r elfen ddryslyd.

Atgynhychir y tabŵs yn y cyfieithiad Cymraeg i raddau helaeth, sy'n dangos penderfyniad y cyfieithydd i gadw'n ffyddlon at y testun ffynhonnell yn hytrach na chadw'n ffyddlon i normau llenyddiaeth plant y cyfnod, sef y 60au.

### 3.8 Casgliad

Er bod nifer o oedolion o'r farn bod nofelau Dahl yn rhy dreisgar ac yn dangos amarch tuag at oedolion (West 1992, t.19), cânt eu cofleidio a'u darllen gan blant. Dengys Roald Dahl yn *James and the Giant Peach* ei fod yn gwybod sut i gynnig mwynhad i blant (Aileen Pippet yn West 1992, t.70). Gyda phlot a naratif gwreiddiol a chyflym, hiwmor a thrais digrif, llwyddodd i greu stori y mae plant yn ei mwynhau. Adroddir y stori ganddo mewn ffordd fywiog a chwareus a cheir, ar bron pob tudalen, odlau, chwarae â geiriau a gorbwysleisio i ddenu ymateb.

Ar ôl astudio'r cyfieithiad Cymraeg, gwelwn fod Elin Meek wedi cadw'n driw i'r testun ffynhonnell, a dilyn y strategaeth honno'n agos, o safbwynt enwau personol y cymeriadau, y lleoliadau, a'r arddull. Atgynhychir pob enw lle, sef 14 i gyd, yn ogystal ag enwau James, Aunt Sponge ac Aunt Spiker, ond cyfieithir yn llythrennol enwau'r saith creadur yn yr eirinen wlanog. Yn yr un modd, sicrheir cywerthedd o safbwynt arddull Dahl, gan atgynhyrchu ei iaith hen ffasiwn i adleisio cyfnod cyhoeddi'r nofel Saesneg.<sup>15</sup> Noda Meek mewn cyfweliad mai ei nod wrth drosi nofelau o'r Saesneg i'r Gymraeg yw 'gosod y peth mewn cyd-destun Cymreig', gan geisio newid lleoedd ac enwau cymeriadau i'r diben hwnnw. Ni chafodd ganiatâd, fodd bynnag, i ddomestigeiddio llyfrau Roald Dahl a oedd 'yn peri trafferthion iddi' (Davies 2007). Serch hynny, 'dieithrio' yw'r dull mwyaf priodol wrth gyfieithu nofelau Dahl

---

<sup>15</sup> Yn y cyfieithiad Ffrangeg, fodd bynnag, er y caiff enw James ei atgynhyrchu, domestigeiddir enwau Sponge a Spiker i Éponge a Piquette, gan felly ddileu'r elfen Seisnig yn eu henwau.

i'r Gymraeg yn fy marn i. Fel y dywedir yn rhagair adargraffiad 1997 o *James and the Giant Peach*, 'Roald Dahl is one of the most successful and well-known of all children's writers... His books... are read by children the world over' (t.1). Y mae ei nofelau felly'n rhan annatod o blentyndod nifer fawr o blant Cymru. Ys dywed Houle, '[h]e was responsible for authoring some of the best known and most popular books for young people ever published' (2006, clawr cefn). Er y bu farw yn 1990, y mae ei lyfrau mor boblogaidd heddiw ag oeddynt pan oedd yn fyw (Powling 1997, t.6). Y mae ei straeon, ei gymeriadau a'i ffordd o ysgrifennu'n rhan o brofiad darllen plant yng Nghymru. Felly, a oes 'hawl' gan gyfieithwyr i addasu gwaith Dahl, wrth ystyried pwysigrwydd yr awdur a'i nofelau sydd wedi datblygu'n glasuron?

Er bod rhai elfennau yn mynd ar goll yn y cyfieithiad, gan gynnwys addasu'r gair nonsens 'Pink-Spotted Scrunch' i 'Bwystfil', y mae'r cyfieithiad yn un llwyddiannus dros ben. Yn fy marn i, enghraifft o un o'r penderfyniadau gorau a wnaethpwyd gan y cyfieithydd Cymraeg oedd cyfnewid y cyfeiriad 'And hens took snuff' am 'A'r ieir yn chwarae pŵl'. Sicrha h yn y dilëir cyfeiriad cymhleth ac anodd ei ddeall am gyfeiriad mwy difyr. Er bod colledion wrth gyfieithu yn anochel, dyma dystiolaeth bod cyfieithydd ar adegau yn gwneud iawn am hyn mewn rhannau eraill o'r cyfieithiad: 'Where it is impossible to create the same effect translators can compensate by creating that effect in a place where the source text does not have a reference' (Desmet 2006, t.125).



## **Pennod 4**

### Astudiaeth Achos 2 —

### *Cyfieithu Harry Potter and the Philosopher's Stone*

Stori am fachgen un ar ddeg oed yw *Harry Potter and the Philosopher's Stone* (1997). Ers marwolaeth ei rieni pan oedd yn faban, y mae Harry Potter wedi byw gyda'r Dursleys, sef ei fodryb, ei ewythr a'i gefnder. Maent yn ei gam-drin yn emosiynol, gan ei orfodi i gysgu yn y cwtsh dan staer a'i drin fel alltud. Teulu o 'Muggles', pobl nad ydynt yn ddewiniaid neu'n wrachod, yw'r Dursleys ond y mae Harry yn ddewin fel ei rieni. Caiff ei anfon i Hogwarts, ysgol breswyl i ddewiniaid a gwrachod, ac y mae'r nofel yn dilyn ei anturiaethau ef a'i ddau ffrind, Ron a Hermione, yn yr ysgol.

Ers i'r nofel *Harry Potter and the Philosopher's Stone* gael ei chyhoeddi gyntaf yn 1997 yn y Saesneg, y mae poblogrwydd a dylanwad y stori wedi lledu i bedwar ban byd (Jentsch 2002, t.190). Cynulleidfa darged y gyfres yn wreiddiol oedd plant dros wyth mlwydd oed ond datblygodd hefyd yn boblogaidd ymysg oedolion yn ogystal â phlant. Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, yr oedd y rhan fwyaf o bobl mewn gwledydd Saesneg eu hiaith yn ymwybodol o Harry Potter (Anatol 2003, t.ix):

There is no doubt that since the advent of Harry Potter, the concept of an international bestseller for children has taken on a new meaning as well as a new epithet: "phenomenon". (Lathey 2005, t.141)

Nid yw'n syndod bod cyhoeddwy'r o wledydd eraill yn frwdfrydig i elwa ar y gyfres ac i ymateb i alwad pobl am gyfieithiadau o'r nofel. Erbyn heddiw, y mae'r nofel gyntaf yn y gyfres wedi ei chyfieithu i o leiaf 68 o ieithoedd (de Vera 2013). Yn ogystal â'i chyfieithu i ieithoedd mwyaf y byd megis Sbaeneg, Ffrangeg ac Almaeneg, cafodd ei chyfieithu i ieithoedd clasurol megis Lladin a Hen Roeg ac ieithoedd lleiafrifol megis yr Wyddeleg a'r Gymraeg. Cyfieithwyd y nofel i'r Gymraeg yn 2003 gan Emily Huws, un o brif awduron

llynyddiaeth plant yn y Gymraeg. Y mae wedi ysgrifennu o leiaf ddeunaw llyfr i blant ifainc a phobl yn eu harddegau, gan gynnwys *Tisio Tshipsan* (1993) a *Ned* (2005). Yn ogystal â hyn, mae hi wedi cyfieithu nifer o nofelau, megis nofelau Beatrix Potter.

Y mae *Harry Potter and the Philosopher's Stone* yn cynnig nifer o sialensiau unigryw i gyfieithwyr nad ydynt yn bodoli wrth gyfieithu nifer o nofelau eraill (Hahn 2007; Jentsch 2002, t.190). Dywed Emily Huws ei hun: '[G]wynebais [*sic*] anawsterau nad oeddwn wedi eu profi o'r blaen wrth gyfieithu Harri Potter' (BBC Cymru 2003a). Ceir nifer helaeth o eiriau sydd wedi eu dyfeisio gan yr awdures ei hunan, megis Quidditch a Muggles. Er nad ydynt yn her anghyffredin mewn llynyddiaeth plant (yr oedd Roald Dahl yn aml yn dyfeisio geiriau newydd yn ei nofelau), y mae cyfieithu geiriau sydd wedi eu dyfeisio yn creu trafferthion arbennig (Jentsch 2002, t.190). Gellid awgrymu y byddai eu cadw yn yr iaith darged yn colli eu heffaith a'u hystyr, ond y mae gan y geiriau hyn sŵn a rhythm arbennig a fyddai'n anodd eu hefelychu yn yr iaith darged.

Yn ogystal â hyn, gall y cyfeiriadau diwylliannol sy'n britho'r testun megis enwau priod a chyfeiriadau at fwydydd greu her arbennig am fod angen penderfynu a ddylid eu cyfnewid am gyfeiriadau diwylliannol yn y diwylliant targed neu eu hatgynhyrchu er mwyn pwysleisio lleoliad y nofel. Dyma nofel sydd wedi'i hangori'n gadarn yn y diwylliant Seisnig ac felly y mae'r ddadl hon yn codi'n aml wrth fynd ati i gyfieithu'r testun.

#### **4.1 Enwau Priod**

Ceir lliaws o enwau cymeriadau o fydd y dewiniaid yn Hogwarts ac o fydd y Muggles yn Llundain sydd ynghlwm wrth y diwylliant Seisnig neu sydd ag arwyddocâd arbennig iddynt. Yn ogystal â hyn, y mae enwau lleoedd yn y nofel sy'n cynnwys technegau megis chwarae ar

eiriau, a'r rheini yn anodd eu cyfieithu. Ynghyd ag enwau cymeriadau a lleoedd, ceir enwau eraill yn y nofel gan gynnwys enwau tai yn ysgol Hogwarts, er enghraifft 'Gryffindor', sy'n datgelu gwybodaeth am aelodau'r tai hynny ac enwau losin sy'n odli neu sy'n cyflythreanu, megis Bertie Bott's Every Flavour Beans. Y mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y strategaethau a ddefnyddir gan Emily Huws wrth gyfieithu enwau priod yn *Harry Potter and the Philosopher's Stone*.

#### 4.1.1 Enwau Personol

Y mae'r nofel gyntaf yn y gyfres *Harry Potter* yn dangos yr heriau sy'n codi wrth gyfieithu enwau personol am fod nifer fawr ohonynt yn cynnwys elfennau megis chwarae ar eiriau a chyflythreanu, a'r rheini yn awgrymu nodweddion ym mhersonoliaeth y cymeriadau.

Cedwir enwau cyntaf rhai disgyblion Hogwarts, ond addasir hwy i sillafiad y Gymraeg, er enghraifft, mae '**Hannah**' a '**Susan**' yn mynd yn '**Hanna**' a '**Siwsan**'. Ond yr arferiad yn gyffredinol yw eu domestigeiddio.

Y mae'r ysgolhaig o Japan, Akiko Yamazaki, o'r gred bod cyfnewid enwau am rai cyfarwydd yn amddifadu plant 'of the chance to realize the wealth of cultural diversity that surrounds them' (2002, t.53), ac yn eu rhwystro rhag dysgu am 'the perspective into another culture' (2002, t.57). Er hyn, y mae plant Cymraeg o dan ddylanwad y Saesneg a'r diwylliant Seisnig yn gyson, gan gynnwys y cyfryngau a llyfrau. Nid yw domestigeiddio enwau Saesneg wrth gyfieithu yn eu hamddifadu o ddeall a dysgu am y diwylliant; maent yn cael eu trwytho yn ddyddiol yn y diwylliant Eingl-Americanaidd. Y mae enwau Saesneg, e.e. '**Terry**' a '**Lee**', yn gyfarwydd i blant Cymru, ac felly gellid awgrymu nad oes pwrpas eu trosglwyddo i'r Gymraeg. Wrth ddefnyddio enwau Cymraeg, gellid dadlau bod Emily Huws yn dileu

gwybodaeth bwysig yn y nofel Saesneg, gan danseilio lleoliad y nofel mewn ysgol breswyl Saesneg. Ys dywed Mulliez: 'Borrowing a proper noun enables [the reader] to maintain a unity of location and culture — Great Britain in *Harry Potter*' (2010). Traddodiad neilltuol Seisnig yw'r ysgol breswyl ac felly trwy gadw enwau Saesneg ar y plant, byddai'r cyfieithydd wedi gallu cadw'r naws Seisnig sy'n gysylltiedig â'r ysgol ei hun. Cred Newmark na ddylid newid enwau er mwyn trosglwyddo hunaniaeth genedlaethol y cymeriadau (1988, t.35; t.214), ac felly gadw lleoliad y testun ffynhonnell. Yn yr un modd, dywed Jentsch, 'names readily understood by the target audience and those that have no further significance can and should be left in the original' (2002, t.191).

Gellid awgrymu bod yr enwau wedi'u domestigeiddio er budd y gynulleidfa ifanc. Yn wahanol i gyfieithu llenyddiaeth oedolion, caiff enwau mewn llenyddiaeth plant eu domestigeiddio er mwyn sicrhau bod plant yn gallu ynganu'r enwau a'u bod yn creu'r un effaith â'r enwau yn y testun ffynhonnell (Lathey 2010, t.196), gan felly sicrhau cywerthedd dynamig. Er bod enwau Saesneg yn boblogaidd yng Nghymru, mae nifer fawr o enwau'r disgyblion yn Hogwarts yn anghyffredin ar blant, megis '**Terry**' a '**Dean**'. Ymddengys '**Terry**' a '**Dean**' yn rhif 699 a 292 ar y rhestr o'r enwau mwyaf poblogaidd i fechgyn yng Nghymru a Lloegr (Powell-Smith 2010a; 2010b). Wrth gyfieithu i'r Gymraeg, domestigeiddir yr enwau yn '**Tomos**' a '**Dafydd**', enwau Cymraeg poblogaidd. '**Tomos**' a '**Dafydd**' yw'r trydydd a'r pumed enw Cymraeg mwyaf poblogaidd i fechgyn (Twf Cymru 2012); '**Tomos**' oedd rhif 35 ar y rhestr o'r enwau mwyaf poblogaidd i fechgyn yng Nghymru yn 2010 (Miller 2010). Y mae moderneiddio enwau yn ddull poblogaidd wrth gyfieithu llenyddiaeth plant neu pan ailgyhoeddir nofel flynyddoedd ar ôl y cyhoeddiad cyntaf. Pan ailgyhoeddwyd y gyfres *The Magic Faraway Tree Book* gan Enid Blyton, er enghraifft, moderneiddiwyd enwau Jo, Bessie a Fanny i Joe, Beth a Frannie (Bradbury 2010). Gwnaethpwyd hyn, nid yn unig i osgoi defnyddio enwau a fyddai'n creu hiwmor ac yn

awgrymu nodweddion sy'n 'dabw' mewn llenyddiaeth plant, ond hefyd yn unol â'r gred y byddai enwau hen ffasiwn ac anghyfarwydd yn dieithrio plant.

Fel y trafodwyd eisoes ar dudalen 36, y mae ysgolheigion gan mwyaf yn cytuno bod cyfieithu enwau priod mewn llenyddiaeth plant yn dueddol o fod yn wahanol i gyfieithu enwau mewn llenyddiaeth i oedolion, 'because children are perceived as a special audience that requires familiar cultural items' (Jaleniauskiene a Čičelytė 2009, t.34). Yn y nofel *Gymraeg dan sylw*, domestigeiddir bron pob un o'r cyfenwau i adlewyrchu cyfenwau poblogaidd yng Nghymru. Y mae cyfenwau'r cymeriadau yn Seisnigaidd iawn.<sup>16</sup> Nid yw'r cyfenwau yn boblogaidd yng Nghymru; yn wir, nid ydynt yn boblogaidd ledled Lloegr ychwaith (Titford 2009, t.79; t.478). Penderfynodd Emily Huws eu Cymreigio, gan osod cyfenwau cyfarwydd poblogaidd ar y cymeriadau, sef '**Parry**', '**Thomas**' a '**Bowen**'. Y mae '**Thomas**', yn arbennig, yn un o gyfenwau mwyaf poblogaidd Cymru (Titford 2009, t.459). Disgrifir cyfieithu i blant yn aml fel, 'a tailoring of source text to the perceived experience and requirements of the child' (Lathey 2006, t.196). Y mae cyfnewid yr enw yn fodd i blant uniaethu yn fwy â'r cymeriadau yn y nofel.

Dywed Maria Nikolajeva, er nad yw'r rhan fwyaf o blant Prydain yn mynychu ysgolion preswyl, fod straeon ysgolion preswyl megis *Harry Potter* yn adleisio profiadau cyffredin mewn ysgolion: 'In boarding school novels... the plot revolves around 'ordinary' adventures: lessons, homework, sports...' (2003, t.131). Y mae'r holl nodweddion cyffredin hyn yn 'reassuringly familiar... fantastical on the one hand, but on the other, quite conventionally domestic in its description of childhood experience' (Smith 2003, t.70). Y mae gwersi drachtiau yr Athro Sneip yn dwyn i gof wersi cemeg, Dreigo Mallwyd yw'r bwli a geir ym mhob ysgol, ac y mae'r gêm Quidditch yn pwysleisio pwysigrwydd chwaraeon mewn

---

<sup>16</sup> Daw'r enw '**Pusey**' o'r hen air Saesneg am 'ynys' ac y mae'n enw lle yn Berkshire (Titford 2009, t.373); ffurf Ffrangeg Normanaidd o'r enw Hen Norsg 'Thorfinnr' (y Duw Thor a'r hil 'Finnr') yw '**Turpin**' (Titford 2009, tt.477-478); y mae gan '**Bones**' ei wreiddiau yn Hen Ffrangeg a Hen Saesneg a llysenw ydyw sy'n golygu 'da' a daw o'r gair Ffrangeg 'bon'. Fe'i defnyddir hefyd i ddisgrifio person tenau (Titford 2009, t.79).

ysgolion cyffredin. Y mae'r nodweddion hyn yn cysylltu â phrofiadau personol y darllenwyr ac yn sicrhau, er bod y cymeriadau yn y nofel yn mynychu ysgol breswyl, eu bod yn debyg iddynt hwy a'u cyfoedion (Nikolajeva 2003, t.131). Ys dywed O'Brien, '[c]hildren need to be able to connect with the characters and the environment of a story in ways that relate to their lives in order to find any enjoyment in it whatsoever' (2009), a dyma nodwedd bwysig y mae angen ei hystyried wrth ysgrifennu neu gyfieithu i blant. Dyma un rheswm pam y moderneiddir enwau yn straeon Enid Blyton. Yn yr un modd, cymerodd Emily Huws hyn i ystyriaeth a phenderfynodd gyfnewid enwau cyntaf a chyfenwau am rai Cymraeg cyfarwydd. Sicrha hyn fod y darllenwyr nid yn unig yn gallu uniaethu â phrofiadau'r cymeriadau, ond hefyd yn gweld adlais o'u bywydau hwy yn yr enwau. Er hyn, gellid gofyn a oedd dileu lleoliad pwysig y stori mewn ysgol preswyl Saesneg i raddau helaeth er mwyn cynnwys enwau cyfarwydd Cymraeg yn benderfyniad llwyddiannus. Ys dywed Jentsch: 'After all, English names for people and places can help create the sense of place, integral to a novel whose setting is in large part a boarding school in Britain' (2002, t.191).

Y mae'n amlwg i Rowling ddewis enwau Saesneg anghyfarwydd ar nifer o'i chymeriadau i gyfleu ystyr arbennig: 'Names function as character tags, suggesting something of the characters' personality and demeanor' (Mulliez 2010). Domestigeiddiodd Emily Huws enwau ac iddynt arwyddocâd arbennig, sy'n ddull cyffredin wrth gyfieithu llenyddiaeth plant. Y mae cyfenw **Neville Longbottom**, un o gyfeillion Harry yn y nofel, yn Seisnigaidd iawn. Daw'r ail elfen o'r hen air Saesneg 'bothm' neu 'botm', sef 'cwm' neu 'glyn' (The Internet Surname Database 2012), ac felly ystyr yr enw yw 'cwm hir'. Y mae'r cyfenw '**Longbottom**' yn cynnig hiwmor i blant am fod nodweddion rhai rhannau o'r corff megis 'bum' a 'bottom' yn aml yn destun digrifwch iddynt. Trafoda'r awdur i blant, Andy Griffiths, am ei brofiadau yn teithio o amgylch Awstralia yn siarad gyda phlant: 'And so I would run ideas past them and

I'd tell them stories and every now and again would say the world bum... they'd just fall about laughing' (Griffiths ac O'Loghlin 2012). Y mae'r hiwmor yn y cyfenw yn briodol wrth ystyried portread y cymeriad yn y nofel: 'Longbottom is not a very flattering name, but fitting for a boy who, at first, seems quite slow and dim-witted' (Fenske 2008, t.253). Ef yw 'clown' y dosbarth, ac y mae eraill yn chwerthin am ei ben yn aml, gan gynnwys y darllynydd. Gwelwn hyn pan fo'r disgyblion yn cymysgu drachtiau yn nosbarth Snape: 'Neville had somehow managed to melt Seamus's cauldron into a twisted blob and their potion was seeping across the stone floor, burning holes in people's shoes' (Rowling 1997, t.103). Y mae'r enw hefyd yn cynnwys cyfeiriad at waith llenyddol arall. Enw ar bentref yn *The Lord of the Rings* gan J. R. R. Tolkien yw '**Longbottom**', ac yna y cynhyrchir y tybaco gorau yn yr ardal (Fenske 2008, t.253). Gellid awgrymu bod y cyfeiriad hwn yn addas am fod gan **Neville Longbottom** ddawn yn y pwnc Herboleg. Wrth gyfieithu, y mae'n amhosibl trosglwyddo cyfeiriad llenyddol a ymgorfforir mewn enw am fod cyfeiriadau o'r math yn neilltuol i iaith a diwylliant arbennig. Yn y Gymraeg, cyfnewidir y cyfenw '**Longbottom**' am '**Llywelyn**', sy'n dileu'r cyfeiriad llenyddol a'r hiwmor. Serch hynny, dyma enw llwyddiannus yn fy marn i. Yn y Gymraeg, dwg ei gyfenw i gof Llywelyn Fawr a Llywelyn ein Llyw Olaf, tywysogion dewr Cymru. Y mae **Neville Longbottom** yn dangos dewrder yn y nofel drwy geisio rhwystro Harry, Hermione a Ron rhag gadael ganol y nos: "you can't go out" said Neville, "you'll be caught again. Gryffindor will be in even more trouble." ... "I won't let you do it...I'll — I'll fight you" (Rowling 1997, t.198) a chaiff ei wobrwyo am hyn gan Dumbledore (Rowling 1997, t.221). Y mae enw'r ddau arwr hanesyddol felly'n briodol o safbwynt cymeriad y bachgen. Dilëir y cyfeiriad llenyddol, ond ychwanegir cyfeiriad hanesyddol yn y Gymraeg. Yn ogystal â hyn, y mae'r enw yn dwyn i gof yr anifail 'llew' sydd ar fathodyn Gryffindor, ac felly'n cysylltu â'r ffaith bod **Nefydd Llywelyn** yn aelod o'r tŷ hwn.

Y mae enw **Pansy Parkinson**, aelod o Slytherin, eto yn addas, ac yn cyfleu'i chymeriad. Ys dywed Lavoie: '[Her] name says it all — she is frilly, simpering, nasty. Her first name is synonymous with a wimp, and her surname suggests a Nosy Parker' (2003, t.37). Y mae'i henw cyntaf yn y Gymraeg, '**Prydwen**', yn gyfuniad o ddwy elfen; 'pryd', sef enw arall am 'wyneb', a ffurf fenywaidd o'r ansoddair 'gwyn', ac felly'n awgrymu harddwch. Y mae'r lliw gwyn yn ogystal yn symbol o heddwch, sy'n gwrthgyferbynnu â chymeriad **Prydwen Parri**. Fel y gwelir o'r nofel, y mae'n hoff o fychanu eraill. Yn y nofel Saesneg, dywed **Pansy** wrth Parvati: 'Ooh, sticking up for Longbottom? ... Never thought *you*'d like fat little cry babies, Parvati.' (Rowling 1997, t.110). Yn ogystal â hyn, enw llong y Brenin Arthur yw **Prydwen**, ac felly gellid awgrymu bod naws chwedlonol a mawreddog i'r enw. Mae'r enw Cymraeg yn cyferbynnu felly â'r enw a geir yn y testun ffynhonnell. Yn fy marn i, gallai'r cyfieithydd fod wedi atgynhyrchu enw'r Saesneg, gan ei addasu'n orgraffyddol ('**Pansi**'). Byddai hyn wedi cadw arwyddocâd yr enw, a chadw'n gyson â phenderfyniad Emily Huws i addasu enwau rhai o aelodau eraill Slytherin (fel Draco Malfoy/Dreigo Mallwyd). Hefyd, gellid awgrymu y byddai cyfnewid y cyfenw '**Parkinson**' am '**Picton**' yn hytrach na '**Parri**' wedi bod yn benderfyniad llwyddiannus. Nid yw '**Parri**' yn cyfleu cymeriad atgas **Pansi Parkinson**. Serch hynny, mae'r cyfenw '**Picton**' yn dwyn i gof Mr Arthur Picton ar y rhaglen deledu boblogaidd *C'Mon Midffîld*. Cymeriad dig ydyw sy'n colli ei dymer o hyd, a dyma nodwedd y mae'n ei rhannu â'r cymeriad yn y nofel Saesneg. Er i'r rhaglen gael ei darlledu gyntaf yn y 90au, mae'n parhau i gael ei darlledu o bryd i'w gilydd ar S4C. Felly, y mae'n debygol y byddai rhai plant wedi gwyllo'r rhaglen ac y byddent wedi deall y cyfeiriad diwylliannol yn enw **Pansi Picton**.



Yn ogystal â throsglwyddo awgrym o bersonoliaeth y cymeriadau wrth gyfieithu, ceisia Emily Huws gynnwys cyfeiriadau at y diwylliant Cymraeg yn enwau rhai o'r cymeriadau. Gweler, er enghraifft, yr enw '**Goyle**', enw bachgen amhleserus sy'n hoff o godi ofn ar eraill ac sy'n gyfaill i Malfoy. Yn y Saesneg, mae'r enw '**Goyle**' yn dwyn i gof y gair 'gargoyle', sef cerflun o anghenfil bychan a welir ar adeiladau. Ffigur hyll ydyw ac yn draddodiadol caiff ei ddefnyddio i godi ofn ar ysbrydion. Yn ôl Rowling, '[b]oth of them [Crabbe a Goyle] were thickset and looked extremely mean' (1997, t.81) ac y mae'r ddau yn codi ofn ar Harry: '... get out now,' said Harry, more bravely than he felt, because Crabbe and Goyle were a lot bigger than him or Ron' (Rowling 1997, t.82). Gellid awgrymu, felly, fod yr awdures wedi ystyried cymeriad a golwg y bachgen yn ofalus cyn penderfynu ar gyfenw sy'n adlewyrchu'r nodweddion hyn. Dewisodd Emily Huws yr enw '**Efnisien**' ar y cymeriad. Dyma enw hanner brawd cenfigennus Branwen yn ail gainc y Mabinogi. Yn y chwedl, cymeriad chwerw, llawn casineb ydyw sy'n 'dinistrio' ceffylau Brenin Iwerddon, gŵr ei chwaer Branwen, drwy dorri eu gweflau a'u clustiau. Ei weithred fwyaf ofnadwy oedd lladd ei nai Gwern drwy ei daflu i'r tân (Williams 1930, t.43). Er na ellir cymharu gweithredoedd a phersonoliaeth **Efnisien** *Harry Potter* yn llwyr â chymeriad **Efnisien** *Branwen*, y mae'r ddau yn atgas ac yn hoff o greu helynt a drygioni. Er enghraifft, y mae **Goyle/Efnisien** yn ceisio dwyn Llyffantod Siocled Ron a Harry (Rowling 1997, t.82). Yn ôl Jentsch, dylid cyfieithu ac addasu enw i'r iaith darged os oes ystyr ddyfnach y tu ôl iddo, er mwyn cyfleu effaith y gwreiddiol yn yr iaith darged (2002, t.205). Collir y cyfeiriad llenyddol wrth gyfieithu enw Neville Longbottom; yma, fodd bynnag, ychwanegir cyfeiriad llenyddol lle na cheir un yn y Saesneg. Pan yw jôc, chwarae ar air neu gyfeiriad diwylliannol, llenyddol neu hanesyddol yn mynd ar goll mewn cyfieithiad, gall cynnwys yr elfen a gollir rhywle arall yn y cyfieithiad wneud iawn am y golled hon. Dadleua Eirlys E. Davies fod cyfieithiad, '[that] draws on whatever

resources and conventions of wordplay its target language has to offer may succeed in transferring the original flow, albeit through different examples' (2003, t.96).

Pwysleisir yn y nofel y gwahaniaethau a geir rhwng byd y Myglers a byd y dewiniaid. Y mae byd y Myglers yn llawn technolegau newydd megis cyfrifiadur Dudley Dursley, teledu a ffilmiau, ond maent yn absennol o'r byd dewinol. I Harri, y mae'r ddau fyd yn cynrychioli dau fywyd gwahanol. Ym myd y Myglers, caiff ei gam-drin yn emosiynol ac yn feddyliol gan y Dursleys. Yn Hogwarts, caiff ddysgu am ei rieni a bwyta llond ei fol, ac y mae ganddo gyfeillion ac athrawon sy'n gofalu amdano. Ys dywed Jentsch, '[t]he juxtaposition of magical and Muggle worlds is integral to the original text and must be a serious consideration to its translators' (2002, t.191). Yn y nofel Gymraeg, ceir gwrthgyferbyniad pellach rhwng y ddau fyd; ym myd y dewiniaid cyfnewidia Emily Huws nifer helaeth o'r enwau Saesneg am enwau Cymraeg, fel y trafodwyd eisoes, ond ym myd y Myglers cedwir yr enwau Saesneg ar y cymeriadau (gweler Tabl 6, Atodiad 2). Yn fy marn i, yr oedd yn hanfodol cadw lleoliad y stori ym myd y Myglers am ei fod wedi ei leoli yn y byd 'go-iawn' yn Lloegr. Y **Dursleys** yw'r cymeriadau mwyaf pwysig ym myd y Myglers, a'r mwyaf diddorol o ran eu henwau. Nid enwau Saesneg cyffredin sydd gan y **Dursleys**, ond enwau dosbarth canol sy'n awgrymu mai teulu snobyddlyd ydynt. 'Characters' names in *Harry Potter* are carefully chosen not to be lifelike but rather to colour our understanding of the various characters' social ranks and personality' (Sparknotes 2003). Daw'r cyfenw '**Dursley**' o enw lle yn Swydd Gaerloyw a oedd yn dref flaenllaw yn y diwydiant gwllân, ac mae'n awgrymu bywyd hen ffasiwn sy'n gosod pwyslais ar statws cymdeithasol (Sparknotes 2003). Awgryma enwau cyntaf y **Dursleys** ('**Petunia**', '**Vernon**' a '**Dudley**') fod y teulu o ddosbarth canol-uwch yn ogystal (Sparknotes 2003). Cynrychiola'r **Dursleys**, 'an excruciating parody of the middle class'

(Park 2003, t.186). Y mae **Petunia** yn treulio'i hamser yn sbecian ar y cymdogion (Rowling 1997, t.7), a brolia'r **Dursleys** eu bod yn 'deulu cwbl normal' (Huws 2003, t.1):

They live in a 'perfect' house at Privet Drive, where they dote upon their son, Dudley, who grows fatter and cruder to Harry every year. His very size emphasizes the family's obsession with excess and luxury as they constantly strive to prove their financial and social standing. (Park 2003, t.109)

Y mae eu henwau a'u cyfenw dosbarth canol Saesneg yn nodi ymhellach eu hymgais i fyw bywyd confensiynol Prydeinig ac yn cyfleu mai teulu sy'n gosod pwyslais ar statws cymdeithasol ydynt (Sparknotes 2003). Gallai Emily Huws fod wedi dewis enwau sy'n sicrhau cywerthedd dynamig yn y Gymraeg, er enghraifft, '**Blodwen**', '**Rhisiart**' a '**Dyfrig**'. Er hyn, y mae trosglwyddo'r enwau Saesneg yn benderfyniad llwyddiannus yn fy marn i. Domestigeiddiodd Emily Huws enwau cyd-ddisgyblion Harry er mwyn adlewyrchu profiadau personol y darllenwyr ac fel y byddent yn gallu uniaethu â'r cymeriadau. Yn y nofel Gymraeg, drwy atgynhyrchu'r enwau Saesneg anghyffredin dosbarth canol ym myd y Myglers, sicrha'r cyfieithydd y crëir pellter pellach rhwng y darlennydd a theulu atgas y **Dursleys**.

#### 4.1.2 Enwau Lleoedd

Y mae'r nofel yn frith o chwarae ar eiriau: 'Indeed play on sounds, letters and meanings can often be found in Potterian names' (Moore 2000, t.176) gan gynnwys enwau lleoedd megis '**Privet Drive**' a '**Diagon Alley**'. Fel y gwelwyd eisoes, portreadir y Dursleys yn Brydeinwyr confensiynol 'who live in the suburban conformity that is instantly familiar to most British readers' (Lathey 2005, t.146) a phwysleisia'r awdures hyn yn ei dewis o enwau personol, fel y trafodwyd eisoes, ac yn enw eu stryd, sef **Privet Drive**. Enw ar berth yw 'privet' sy'n nodweddiadol Brydeinig (Moore 2000, tt.176–177), ac y mae'r stryd ei hun yn creu delwedd o ardal dosbarth canol Brydeinig. Yn ogystal â hyn, gan fod 'Privet' yn debyg

i'r ansoddair 'private' (cyfrinachol), gall yr enw awgrymu mai teulu cyfrinachol yw'r

Dursleys. Yn wir, gwelir hyn ar dudalen gyntaf y nofel:

The Dursleys had everything they wanted, but they also had a secret, and their greatest fear was that somebody would discover it. They didn't think they could bear it if anyone found out about the Potters. (Rowling 1997, t.7)

Mae hefyd yn dwyn i gof y gair 'privy', sef enw am 'outhouse'. Awgrymir yn gynnil felly mai cymeriadau i wneud hwyl am eu pennau ydynt. Y mae'n anodd gwybod sut y gallai cyfieithydd gyfleu gwahanol ystyron 'privet' heb gynnwys esboniadau neu droednodiadau (Lathey 2005, t.147). Penderfynodd Emily Huws drosglwyddo'r enw'n uniongyrchol sy'n gyson â'i phenderfyniad i gadw enwau Saesneg y cymeriadau ym myd y Myglers. Sicrha hyn y diogelir lleoliad y nofel yn Lloegr yn ogystal â'r ymdeimlad dosbarth canol Prydeinig.

Yn y nofel, '**Diagon Alley**' yw'r enw ar yr ardal siopa i ddewiniaid yn Llundain. Ceir dwy ystyr bosibl iddo. Ystyr 'alley' yw stryd gefn gul; mae ganddo yn ogystal yr un sŵn â'r dibeniad adferfol 'ally' a geir ar ddiwedd geiriau fel 'academically' a 'socially'. Cyfeiria'r enw felly at y ffaith bod y stryd yn rhedeg yn groes i fyd y Myglers yn Llundain ('Diagonally'). Y mae'n bwysig nodi bod llyfrau plant yn aml yn cael eu darllen yn uchel, a byddai'r chwarae ar eiriau yn enw'r stryd yn arbennig o lwyddiannus ac effeithiol ar lafar am fod plant yn mwynhau nodweddion llafar (Lathey 2006, t.10) megis geiriau nonsens, cyflythrennu a chwarae ar eiriau. Yn ogystal â hyn, y mae'r enw'n atgyfnerthu gwybodaeth yn y naratif. Yn y Gymraeg, llwydda Emily Huws i gadw'r amwysedd yn ystyr yr enw gan ei gyfieithu fel '**Lôn Groes**'. Ansoddair yw 'croes' sy'n disgrifio rhywbeth sydd gyferbyn â rhywbeth arall, gan felly atgyfnerthu'r ffaith bod y stryd yn groes i fyd y Myglers. Neu gall 'croes' ddisgrifio rhywun sy'n ddig. Gellid dadansoddi enw'r stryd mewn nifer o wahanol ffyrdd felly. Er na lwydda'r enw Cymraeg i gadw'n llwyr y chwarae ar eiriau sydd yn

arbennig o effeithiol ar lafar, defnyddiodd Emily Huws ei chreadigrwydd a'i dyfeisgarwch i greu enw ar y stryd sydd ag ystyr ddwbl fel yn y Saesneg.

### 4.1.3 Enwau Gwneud

Ynghyd ag enwau personol ac enwau lleoedd, ceir amryw o enwau gwneud yn y nofel. Dyfeisiwyd nifer o eiriau yn y nofel gan J. K. Rowling ei hun, a rhaid felly i'r cyfieithwyr fod yn greadigol. Pe na baent yn eu cyfieithu, byddai'r hiwmor a'r ystyr ddwbl a geir yn y gwreiddiol yn cael eu colli (gweler Tabl 8, Atodiad 2). Sylwer, er enghraifft, ar enwau tai'r ysgol yn y nofel. Enwau awgrymus ydynt sy'n dweud rhywbeth am aelodau'r tai hynny. Ystyrir yr enw '**Gryffindor**', sef tŷ Harry, Ron a Hermione, tŷ sy'n adnabyddus am ddewrder, daioni a gwroldeb ei aelodau. Ys dywed The Sorting Hat:

You might belong in Gryffindor,  
Where dwell the brave at heart,  
Their daring, nerve and chivalry  
Set Gryffindors apart.

(Rowling 1997, t.88)

Daw elfen gyntaf yr enw o'r creadur chwedlonol griffon sydd â chorff llew a phen ac adenydd eryr. Portreadir llew ac eryr yn aml fel anifeiliaid dewr a chryf, ac ystyrir griffon yn arbennig o bwerus a mawreddog. Daw'r ail elfen 'or' o'r Ffrangeg am 'aur'. Yn fy marn i, ceir ymgais gan Emily Huws wrth ddyfeisio'r enw '**Llereuol**' i gyfuno elfennau cyntaf enwau'r anifeiliaid llew ac eryr, gan geisio cadw'r cyfeiriad at y creadur griffon. Er hyn, y mae'r enw Saesneg yn awgrymu mwy i ni am nodweddion aelodau'r tai. Yn yr enw Cymraeg, ni cheir cyfeiriad at 'aur', sy'n cyfleu gwerth a daioni aelodau'r tai yn y Saesneg. Yn fy marn i, ni fyddai cadw'r enw hwn wedi ymddangos yn od nac yn anghymreig; yn wir, y mae '**Gryffindor**' ei hunan yn ymddangos fel enw Cymraeg, yn arbennig gyda'r llythyren 'ff'.

'**Muggles**' yw'r enw ar y bobl nad ydynt yn ddewiniaid yn y gyfres *Harry Potter*. Y mae gan 'muggles' neu 'mug' amryw o ystyron. Gall y gair 'mug' ddisgrifio wyneb hyll yr olwg, sy'n briodol i ryw raddau yn y nofel am fod y prif **Muggles**, y Dursleys, yn bobl atgas a hyll. Daw'r enw 'muggles' yn *Harry Potter* o'r term sarhaus Saesneg 'mug', sef 'twpsyn', 'ffwl' neu 'hurty'n' (Burenich yn Caselli 2004, t.180). Cyfeiriad yw'r enw at y ffaith mai pobl i'w dirmygu yw **Muggles**. Wrth gyfieithu i'r Gymraeg, yr oedd yn anodd canfod enw ar y bobl hyn a fyddai'n cyfleu effaith nawddoglyd yr enw Saesneg. Wynebodd y cyfieithydd her; a ddylai gadw'r enw er mwyn cadw sŵn y gwreiddiol, neu gyfieithu'r ystyr i gadw'r sarhad yn yr enw? Gellid awgrymu y byddai enw megis '**Twplod**' wedi llwyddo i gyfleu effaith nawddoglyd y gwreiddiol. Er hyn, y mae penderfyniad y cyfieithydd i gadw'r enw gan ei addasu i ffonoleg y Gymraeg ('**Myglers**') yn llwyddiannus yn fy nhyb i. Ceir ymgais i gadw Seisnigrwydd byd y **Myglers** yn y cyfieithiad Cymraeg ac felly byddai rhoi naws Gymreig ar enw'r bobl yn y byd hwn wedi bod yn anghyson â phenderfyniadau eraill y cyfieithydd. Y mae'n bwysig nodi hefyd fod yr enw wedi datblygu'n boblogaidd y tu allan i fyd Harry Potter ac wedi treiddio'n rhan swyddogol o'r iaith Saesneg. Yn 2003, penderfynwyd cynnwys y term yng Ngeiriadur Rhydychen. Y mae'n anghyffredin iawn i air gan awdur ffuglen sy'n fyw gael ei gynnwys mewn geiriadur (Newsround 2003), a phwysleisia hyn felly boblogrwydd y gair hwn a'r awdures. Yn hyn o beth, yr oedd cadw'r enw'n briodol iawn.

## 4.2 Cenedl Enwau

Fel y trafodwyd eisoes, gall cenedl enw mewn iaith greu her wrth gyfieithu os yw cenedl yr enw yn wahanol i ryw y cymeriad. Newidir rhyw cymeriad yn *Harri Potter a Maen yr Athronydd* o ganlyniad i genedl yr enw. Yn y Saesneg y mae Norbert, draig Hagrid, yn

wrywaidd — dywed Hagrid, ‘Isn’t he beautiful?... Bless him, look, he knows his mummy!’ (Rowling 1997, t.172). Ond sylwer ei fod yn troi’n fenywaidd yn y Gymraeg am fod yr enw ‘draig’ yn fenywaidd: ‘Tydi hi’n fendigedig?... mae’n nabod ei mam!’ (Huws 2003, t.186). Y mae’r rhagenw syml ‘hi’ a pheidio â threiglo ar ôl rhagenw’r trydydd person unigol ‘ei’ yn nodi hyn. Enw’r ddraig yn y nofel Gymraeg yw Nerys, enw personol benywaidd. Er nad yw’r ddraig yn chwarae rhan hollbwysig yn y nofel, ac felly nid yw newid rhyw’r creadur yn amharu’n ormodol ar y stori, dyma enghraifft o genedl enw yn newid y stori i raddau. Gallai plant sy’n gyfarwydd â’r nofel Saesneg neu â’r ffilm gael eu drysu wrth ddarllen y nofel Gymraeg a darganfod bod y creadur wedi newid o fod yn wrywaidd i fenywaidd yn y cyfieithiad. Yn ogystal â hyn, gall newid rhyw cymeriad newid ei bŵer. Ni ellir gwadu’r ffaith bod enwau gwrywaidd yn ennyn mwy o bŵer nag enwau benywaidd (Karasawa a Maass 2008, t.321), fel y trafodwyd eisoes.<sup>17</sup> Yn yr un modd, byddai darllenwyr y Gymraeg o bosibl yn ystyried y ddraig yn llai peryglus ac yn llai pwerus oherwydd ei bod yn fenywaidd. Os yw cenedl enw’n fenywaidd ond rhyw y cymeriad yn wrywaidd, un ffordd i amgyffred â’r her hon yw rhoi enw personol gwrywaidd arno. Yn argraffiad 2010 o *Alice in Wonderland* i’r Gymraeg, er enghraifft, rhoddir yr enw ‘Gwyn Gwningen’ ar The White Rabbit. Yn yr un modd, Guto Gwningen yw Peter Rabbit yn y cyfieithiadau Cymraeg o waith Beatrix Potter (Davies 2012, t.135). Oni fyddai rhoi enw gwrywaidd ar y ddraig yn *Harry Potter* wedi sicrhau ei bod yn parhau’n wrywaidd, ac yn hyn o beth, wedi cadw’n ffyddlon at y nofel wreiddiol? Er mwyn cadw at gyflythreniad y ffynhonnell wreiddiol (Norbert the Norwegian Ridgeback), gellid bod wedi galw’r ddraig yn Now y Ddraig Gefnwrymiog Norwyaidd. Byddai hyn wedi sicrhau cysondeb o safbwynt y testun ffynhonnell a’r ffilm.

---

<sup>17</sup> Gweler tudalen 29.

### 4.2.3 Rhagenwau Cyfarch

Her arall sy'n wynebu cyfieithwyr yn aml yw'r dewis o ragenwau a ffurfiau'r ail berson unigol a lluosog (gweler tudalen 30 a 31). Manylir ar hyn yn *Harri Potter a Maen yr Athronydd*.

Yn gyntaf, edrychir ar berthynas Harri a'i ewythr Vernon, gŵr chwaer ei fam. Nid perthynas gyfeillgar a geir rhwng y ddau. Ceir tyndra parhaol yn eu perthynas, ac y mae Vernon yn aml yn dangos ei atgasedd tuag at Harri: 'Hoffai [Vernon] gwyno ynghylch pethau: pobl yn y gwaith, Harri, y cyngor, Harri, y banc, a Harri...' (Huws 2003, t.19). Wrth edrych ar y defnydd o ragenwau, gwelir perthynas y cymeriadau â'i gilydd, er enghraifft:

'Cer i nôl y post, Dudley' meddai Yncl Vernon...

'Gwna i Harri ei nôl o'

'Cer i nôl y post, Harri.'

'Gwnewch i Dudley ei nôl o.'

(Huws 2003, t.26)

Sylwer ar y defnydd o ffurf yr ail berson unigol 'gwna' gan Dudley wrth siarad â'i dad. Y mae hyn yn adlewyrchiad o'r arfer ymysg pobl ifainc yn y cyfnod modern i ddefnyddio ffurfiau'r ail berson unigolyn gyda'u rhieni (Thomas 1996, t.245). Er hyn, y mae'n ddi-ddorol nodi y defnyddia Harri ffurf yr ail berson lluosog 'gwnewch' wrth siarad â'i ewythr, sy'n syndod efallai o ystyried bod Vernon wedi magu Harri a'i fod wedi byw o dan do ei ewythr er pan oedd yn faban. Serch hynny, ys dywed Lavoie: 'Harry, of course, has known only the Dursleys' version of family before his life at Hogwarts... [and they] seem to shape their family life around the very exclusion of Harry' (2003, t.45). Nid ffordd i gyfleu parch at ei ewythr yw'r defnydd o ffurfiau'r ail berson lluosog, ond y mae'n fodd i'r cyfieithydd gyfleu'r pellter yn eu perthynas. Er iddo fagu Harri, nid ffigur tadol yw Vernon i'r bachgen. Y mae gan ieithoedd a chanddynt ddau ragenw yr ail berson fantais dros ieithoedd sydd ag un



rhagenw yr ail berson yn unig wrth gyfleu perthynas rhwng cymeriadau (gweler tudalen 30 a 31). Er bod y Saesneg yn dangos atgasedd Vernon tuag at Harry, cyflea'r Gymraeg ymhellach y rhwyg ym mherthynas y ddau.

Mae'r dewis o ragenwau yn y Gymraeg hefyd yn fodd i ddangos datblygiad rhwng perthynas cymeriadau (gweler tudalen 30 a 31). Daw hyn yn amlwg ym mherthynas Harri Potter a Hagrid. Sylwer ar eiriau cyntaf Harri wrth Hagrid: 'Pwy 'dach chi?' (Huws 2003, t.37). Er hyn, y mae'r ffurfioldeb hwn yn troi'n gyfeillgarwch: 'Sut doist ti yma?' (Huws 2003, t.50). Er y bwlch rhwng oedrannau'r ddau, nid ffigur awdurdodol yw Hagrid i Harri a'i ffrindiau, ond cyfaill. Er enghraifft, maent yn helpu Hagrid i ryddhau ei ddraig, er y gwyddant y gallent gael eu diarddel o'r ysgol am hynny. Yn hyn o beth, ni fyddai'r defnydd o ragenwau a ffurfiau'r ail berson lluosog yn gweddu i berthynas agos y tri â Hagrid.

Nid yw'n syndod bod y plant yn arddel rhagenwau a berfau'r ail berson lluosog ar yr athrawon yn Hogwarts yn y cyfieithiad. Dyma'r duedd gyffredin mewn ysgolion (Thomas 1996, t.245). Yn y nofel Gymraeg, dywed Harri wrth Sneip: '... Pam na ofynnwch chi iddi hi [Hermione]?' (Huws 2003, t.108). Y mae'n ddiddorol nodi bod yr athrawon hefyd yn arddel y rhagenw syml 'chi' ar y plant. Dywed Sneip wrth Harri: 'Er mwyn i chi gael gwybod Potter...' (Huws 2003, t.108). Wrth ystyried oedran y plant yn y nofel, sef un ar ddeg, gellid awgrymu bod y defnydd o ragenwau a ffurfiau'r ail berson lluosog arnynt gan eu hathrawon yn annaturiol. Y duedd erbyn heddiw yw i athrawon ddefnyddio ffurfiau'r ail berson unigol ar ddisgyblion (Thomas 1996, t.245). Er hyn, y mae angen cofio mai ysgol breswyl yw Hogwarts, sy'n fwy ffurfiol nag ysgolion cyffredin Prydain. Mewn ysgolion preswyl, yr arfer yw galw disgyblion wrth y teitl Miss neu Mr a'u cyfenwau ac adlewyrchir yr arfer hon yn y

testun ffynhonnell.<sup>18</sup> Dywed Professor McGonagall wrth Hermione: ‘Miss Granger, you foolish girl, how could you think of tackling a mountain troll on your own?’ (Rowling 1997, t.131). Y mae Professor Hooch yn ogystal yn defnyddio teitlau wrth siarad â disgyblion: ‘Be quiet, Miss Patil—’ ... ‘That’s *enough*, Mr Weasley’ (Rowling 1997, t.111). Mae’r defnydd o deitlau yn rhoi ffurfioldeb ym mherthynas cymeriadau (gweler tudalen 30 a 31), ac adlewyrcha Emily Huws y ffurfioldeb hwn yn y defnydd o ragenwau a ffurfiau’r ail berson lluosog gan athrawon.

#### 4.4 Araith Union

Megis y defnydd o ragenwau, y mae’r defnydd o araith union yn nodwedd bwysig wrth gyfleu cymeriad. Yn *Harry Potter and the Philosopher’s Stone*, defnyddir araith union i ddynodi dosbarth cymdeithasol, addysg, a gwreiddiau daearyddol cymeriadau. Hagrid, ciper hanner-cawr caredig Hogwarts, yw un o gymeriadau mwyaf diddorol y nofel o ystyried ei iaith. Siarada Saesneg anffurfiol mewn tafodiaith de-orllewin Lloegr sy’n frith o wallau ieithyddol a hynny’n pwysleisio diffyg addysg y cymeriad. Cynrychiola haen isaf y gymdeithas yn ei ddefnydd o iaith. Ar ddechrau’r nofel Saesneg, pan wêl Hagrid Harry am y tro cyntaf er pan oedd yn faban, dywed: ‘Las’ time I saw you, you was only a baby... Yeh look a lot like yer dad, but yeh’ve got yer mum’s eyes’ (Rowling 1997, t.39). Sylwer ar y camgymeriad gramadegol sylfaenol a geir yn y dyfyniad pan ddywed ‘you was’ yn lle ‘you were’, y cywair anffurfiol megis ‘yeh’ a’r ffaith ei fod yn hepgor cytseiniaid ar ddiwedd geiriau megis yn ‘las’. Y mae angen ystyried yn ofalus sut i gyfieithu deialog am ei bod yn cynnwys iaith ansafonol yn amlach na naratif. Gall deialog yn ogystal ddatgelu gwybodaeth nas ceir yn y naratif am gymeriad, gan awgrymu ei addysg neu ei ddiffyg addysg a’i

---

<sup>18</sup> Gellir awgrymu bod y defnydd o deitlau ar ddisgyblion hefyd yn fodd o bwysleisio nad ysgol arferol, mewn byd cyffredin, yw Hogwarts.

ddosbarth cymdeithasol, ac felly gall newid cywair iaith wrth gyfieithu ddileu gwybodaeth angenrheidiol. Dywed Jentsch, ‘a skilled translator can portray the important aspect of social class by level of language’ (2002, t.195). Yn y Gymraeg, llwydda Emily Huws i gadw iaith sathredig ac anffurfiol Hagrid: ‘y tro dwythu y gwelish i ti, babi oeddat ti... Ti’n debyg i dy dad, ond llgada dy fam sy gin ti’ (Huws 2003, tt.36–37). Sylwer ar yr iaith ogleddol yn y cyfieithiad Cymraeg gyda’r defnydd o eiriau megis ‘gwelish’ a ‘llgada’, ynghyd â’r modd y mae’r cyfieithydd yn anffurfioli’r iaith drwy hepgor diweddebau yn ‘sy’ a ‘dwytha’. Yn y nofel Saesneg, y mae iaith cymeriadau eraill yn y nofel gan mwyaf yn safonol ac yn anhafodieithol. Dywed Hermione: ‘I’ve tried a few simple spells just for practice and it’s all worked for me. Nobody in my family’s magic at all, it was ever such a surprise when I got my letter, but I was ever so pleased, of course’ (Rowling 1997, t.79). Meddai Ron: ‘You could say I’ve got a lot to live up to... Everyone expects me to do as well as the others, but if I do, it’s no big deal, because they did it first’ (Rowling 1997, t.75). Gwelir felly fod iaith safonol gywir y cymeriadau eraill yn cyferbynnu’n llwyr ag iaith sathredig Hagrid. Yn y Gymraeg, ceir elfennau tafodieithol yn iaith cymeriadau eraill, ond ar y cyfan, iaith safonol a geir fel yn y Saesneg. Dywed Yncl Vernon: ‘Wel, dyna ti, hogyn. Plattform naw — plattform deg. Ddylai dy blatfform di fod rywle yn y canol, ond dydyn nhw ddim fel petaen nhw wedi ei godi o eto, nad ydyn?’ (Huws 2003, t.71). Meddai Dreigo Mallwyd wrth drefnu gornest â Harri: ‘Fyddai’n ddim problem ymladd efo ti ar fy mhen fy hun... Heno, os ti isio...’ (Huws 2003, t.121). Er bod anffurfioldeb yn iaith y cymeriadau gyda geiriau gogleddol megis ‘efo’ ac ‘isio’, nid yw eu hiaith mor ansathredig ac anffurfiol ag iaith Hagrid. Trwy osod iaith anffurfiol ar y cymeriad, crëir delwedd nad yw’n gallu siarad iaith safonol Gymraeg ac, yn hyn o beth, awgrymir diffyg addysg y cymeriad. Llwydda Emily Huws felly i sicrhau cywerthedd yn iaith Hagrid y nofel Gymraeg.

Yn wir, mae Emily Huws wedi llwyddo yn well na chyfieithwyr ieithoedd Ewropeaidd eraill i gadw iaith sathredig yr hanner-cawr. Yn y cyfieithiadau Sbaeneg, Almaeneg, a Ffrangeg, ni throsglwyddir iaith ansafonol Hagrid o'r Saesneg. Yn wir, 'none of the translators... has chosen to render his speech with anything but normal vocabulary and syntax' (Jentsch 2002, t.195). Gosodant Hagrid ar yr un lefel â'r cymeriadau eraill, o ran ei addysg a'i fagwraeth, ac felly ni lwydda'r cyfieithiadau i gyfleu'r elfennau sy'n gwahaniaethu Hagrid oddi wrth y cymeriadau eraill. Er bod Emily Huws yn llwyddo i gadw iaith sathredig Hagrid yn y Gymraeg, gallai fod wedi pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng ei iaith ef ac iaith cymeriadau eraill ymhellach. Yn y nofel Saesneg, sylwer ei fod yn siarad tafodiaith de-orllewin Lloegr sy'n groes i dafodiaith y cymeriadau eraill. Yn y cyfieithiad Cymraeg, siarada mewn tafodiaith gogledd-orllewin Cymru fel y cymeriadau eraill, ac felly collir yr arwyddocâd diwylliannol pwysig yn ei iaith. Daw Emily Huws ei hun o'r gogledd-orllewin ac felly mae ysgrifennu yn y dafodiaith honno yn naturiol iddi; yn wir dyma'r iaith y mae hi'n gyfforddus yn ei defnyddio. Hefyd, gellid awgrymu y defnyddia'r cyfieithydd yr un dafodiaith ar bawb i beidio â thrangwyddo siaradwyr tafodiaith arall drwy osod y dafodiaith honno ar yr Hagrid diddysg. Dyma'r rheswm pam mae Hagrid y cyfieithiadau Sbaeneg, Almaeneg a Ffrangeg yn siarad mewn iaith safonol. Noda Jentsch, 'using a particular dialect for the character of Hagrid would be demeaning to the speakers of that dialect' (2001, t.56). Er hyn, collodd y cyfieithydd gyfle i bwysleisio ymhellach pa mor wahanol yw Hagrid i weddill y cymeriadau. Y mae gogledd-orllewin Lloegr (o ble daw Hagrid y nofel Saesneg) yn ardal wledig. Yn hyn o beth, gallai Emily Huws fod wedi gosod elfennau o dafodiaith gorllewin Cymru, sydd hefyd yn ardal wledig, ar Hagrid i sicrhau cywerthedd â'r testun ffynhonnell ac i osod Hagrid ar wahân i'r cymeriadau eraill.

Y mae Dumbledore, ar y llaw arall, yn siarad mewn iaith ffurfiol a chywir, sy'n adlewyrchiad o'i addysg a'i statws uchel yn y byd dewinol. Yn y Saesneg, ceir defnydd o iaith safonol drwy'r nofel ganddo. Yn yr ysbyty ar ddiwedd y nofel, dywed wrth Harry: 'The truth... It is a beautiful and terrible thing, and should therefore be treated with great caution. However, I shall answer your questions unless I have a very good reason not to, in which case I beg you'll forgive me' (Rowling 1997, t.216); 'Well they [Professor Snape a thad Harri] did rather detest each other. Not unlike yourself and Mr Malfoy' (Rowling 1997, t.217). Sylwer ar y defnydd o ymadroddion ffurfiol megis 'I beg you'll forgive me' a'r defnydd o'r berfenw 'detest' yn hytrach na 'hate'. Cymerodd Emily Huws i ystyriaeth y ffurfioldeb yn iaith Dumbledore, a cheisiodd ei drosglwyddo i'r Gymraeg: 'dwi'n credu iddo [Sneip] weithio mor galed i'th amddiffyn di eleni oherwydd ei fod yn teimlo y byddai hynny'n ei wneud o a dy dad yn gyfartal' (Huws 2003, t.238). Y mae'r rhagenw clwm 'th' yn gosod safon a ffurfioldeb yn iaith y prifathro oherwydd, ys dywed Thomas: 'dim ond mewn arddulliau tra ffurfiol y defnyddir y rhagenwau clwm U1 ac U2' (1996, t.253). Yn wir, y duedd yw defnyddio'r rhagenwau rhydd mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Daw'r dyfyniad o ddiwedd y nofel, pan ymwêl Dumbledore â Harri yn yr ysbyty ac felly nid sefyllfa ffurfiol a geir. Cyflëir safon ei iaith ymhellach yn y dyfyniad canlynol: 'Teimlai Madam Prysorwen, fodd bynnag, nad oedd yn rhyw lanwaith iawn...' (Huws 2003, t.235). Sylwer ar y defnydd o'r negydd berfol 'nad oedd' sy'n perthyn i arddull ffurfiol (Thomas 1996, t.540), ynghyd â'r defnydd o'r ferf gryno 'teimlai'. Y mae defnyddio 'nad oedd' a 'teimlai' yn cyfleu'r parhad yn iaith ffurfiol, ramadegol gywir y prifathro, hyd yn oed pan nad yw'r sefyllfa'n galw am iaith safonol. Llwydda'r cyfieithydd felly i adleisio iaith ffurfiol y Dumbledore Saesneg yn y Gymraeg.

## 4.5 Bwydydd Prydeinig

Fel y nodwyd eisoes, y mae'r nofel yn frith o gyfeiriadau at y diwylliant Seisnig. Trafodir yn awr un o'r nodweddion diwylliannol pwysicaf yn y nofel, sef y disgrifiadau eang o fwydydd. Nid yw nifer o'r bwydydd yn bodoli mewn diwylliannau eraill ac felly y mae angen i'r cyfieithydd benderfynu'n ofalus sut y dylid eu cyfieithu. A ddylid eu disgrifio, eu cyfnewid am fwydydd yn y diwylliant targed, neu eu hatgynhyrchu?

Ynghyd â chwaraeon, gellid awgrymu mai bwyd yw un o'r nodweddion pwysicaf mewn ysgol breswyl ac mewn straeon am ysgolion preswyl (Smith 2003, t.81). Ceir amryw o wleddoedd yn Hogwarts, megis gwledd gyntaf y disgyblion yn Hogwarts a phryd y Nadolig, a cheir disgrifiadau manwl ac eang o'r holl fwydydd. Yn Nhabl 12, Atodiad 2 ceir rhestr o'r holl fwydydd yn y nofel. Ceir pum math o fwyd sydd wedi'u dyfeisio, ond y mae'r gweddill yn fwydydd poblogaidd yn y diwylliant Prydeinig. Cafodd 51 o'r bwydydd sy'n bodoli go-iawn naill ai eu hatgynhyrchu neu eu cyfieithu'n llythrennol yn y Gymraeg. Trafodir gwledd dechrau'r tymor a gwledd y Nadolig:

<b>Bwydydd yn <i>Harry Potter and the Philosopher's Stone</i></b>	<b>Bwydydd yn <i>Harri Potter a Maen yr Athronydd</i></b>
'Harry had never in all his life had such a Christmas dinner. A hundred fat, roast turkeys, mountains of roast and boiled potatoes, platters of fat chipolatas, tureens of buttered peas, silver boats of thick, rich gravy and cranberry sauce — and stacks of wizard crackers... Flaming Christmas puddings followed the turkey...' (Rowling 1997, tt.149–150).	'Doedd Harri erioed yn ei fywyd wedi cael y fath ginio Nadolig. Cant o dyrwyn tewion wedi'u rhostio, mynyddoedd o datws rhost a berw, plateidiau o sosejys bach tewion, dysgleidiau o bys mewn menyn, greffi tew blasus mewn jygiau arian, a saws llugaeron — a phentyrrau o graceri hud... Dilynwyd y twrci gan bwddinau fflamllwyd...' (Huws 2003, t.160).
'He had never seen so many things he liked to eat on one table: roast beef, roast chicken, pork chops and lamb chops, sausages, bacon and steak, boiled potatoes, roast potatoes, chips, Yorkshire pudding, peas, carrots, gravy, ketchup...' (Rowling 1997, t.92).	'Doedd o erioed wedi gweld cymaint o bethau yr hoffai eu bwyta ar un bwrdd: cig eidion a chywion ieir wedi'u rhostio, cig oen a chig mochyn, sosej a stêc, tatws wedi'u berwi a thatws wedi'u rhostio, sglodion a phwdin Swydd Efrog, pys a moron, greffi a sôs...' (Huws 2003, tt.96–97).

‘Blocks of ice-cream in every flavour you could think of... trifle, strawberries, jelly, rice pudding...’ (Rowling 1997, t.93).

‘Blociau o hufen iâ bob blas fedrech chi feddwl amdano...treiffl a mefus, jeli a phwdin reis...’ (Huws 2003, t.98).

Y mae’r bwydydd i gyd yn nodweddiadol Brydeinig ac yn cynnig her ddiwylliannol wrth gyfieithu i ieithoedd eraill. ‘As these passages carry strong cultural significance, the translators’ strategies are important in ensuring that the ritual functions in a similar way in the new cultural context’ (Inggs 2003). Un o’r prif heriau yw cyfieithu cyfeiriadau a geiriau diwylliannol. Noda Bester yr anawsterau sy’n codi wrth gyfieithu geiriau diwylliannol megis planhigyn, coeden neu fwyd arbennig, yn arbennig pan fo ganddynt gysylltiadau agos â darllenwyr y testun ffynhonnell (yn Higashino 2001, tt.53–54). I ddarllenwyr nad ydynt yn ymwybodol o’r bwydydd, nid yw darllen amdanynt yn ysgogi’r un ymdeimlad. Y tebygrwydd yw y bydd cyfieithydd sy’n mabwysiadu’r strategaeth dieithrio yn cadw’r un bwydydd a diodydd, ac o bosibl yn cynnig esboniadau ohonynt er budd dealltwriaeth y darlennydd. Er hyn, wrth ddomestigeiddio ac addasu testun, bydd angen sicrhau cywerthedd gan ganfod gair sy’n creu’r un effaith i ddarllenwyr y testun targed a darllenwyr y testun ffynhonnell (gweler tudalen 9 a 10). Y mae *skopos* y cyfieithiad yn chwarae rhan hollbwysig felly ym mhenderfyniadau’r cyfieithydd.

‘Christmas dinner in an English culture contains certain compulsory elements. It includes turkey, roast potatoes... Christmas pudding — traditionally made with a coin hidden inside... drenched with brandy and set alight’ (Inggs 2003). Yn y pryd Nadolig yn Hogwarts, ceir yr elfennau hyn. Y mae’r bwydydd sydd ar gael yn amlwg yn rhai Prydeinig, ac wrth gyfieithu i ieithoedd eraill, gall hyn greu her arbennig. Yn Rwsia, ni cheir pryd Nadolig traddodiadol fel y ceir ym Mhrydain (Inggs 2003), ac felly gallai cadw’r bwydydd neu eu cyfieithu’n llythrennol greu dryswch i’r darllenwyr. Cyfieithwyd ‘Christmas pudding’ yn llythrennol gan Oranskii: ‘On the table were hundreds of fat roast turkeys, mountains of roast and boiled

potatoes... After the turkey came Christmas puddings dotted with candles' (yn Inggs 2003) a chreodd 'a rather fuzzy image in the mind of the Russian reader' (Inggs 2003). Er bod y Nadolig yn dathlu pen-blwydd, gall cyfnewid y pwddinau Nadolig am deisennod pen-blwydd gamarwain y darllynydd, gan roi gwybodaeth anghywir iddo am draddodiadau Nadoligaidd Prydeinwyr. Y mae hyn yn cryfhau dadl Klingberg: '[I]n translation, deletion and change should... be avoided. The translator should tell what the characters really eat and drink' (1986, t.38).

Y mae'r bwydydd a enwir yn rhai cyfarwydd i blant Cymru, ac felly ni fyddai camddealltwriaeth yn codi fel yn y cyfieithiad Rwsieg. Ys dywed Smith, 'English food is not a notable world cuisine, but it is cozy and familiar to Rowling's readers' (2003, t.82). Yn y Gymraeg yn ogystal, y mae'r bwydydd yn ysgogi'r un ymdeimlad ymhlith darllynydd ac yn eu hatgoffa o brofiadau ac achlysuron pwysig. Y mae gan y cyfieithydd Cymraeg fantais dros gyfieithwyr eraill, felly, am fod diwylliannau Lloegr a Chymru yn agos o ran eu bwydydd. Dyma dystiolaeth felly ei bod yn haws cyfieithu rhwng diwylliannau tebyg. Yn wir, ys dywed Akiko Yamazaki, '[t]he difficulty seems to be enhanced if the work to be translated is for children who have little knowledge about the culture from which the text originates' (2002, t.53). Caiff 'bacon' ei hepgor yn y Gymraeg, ond cadwa Emily Huws bopeth arall. Sylwer bod amryw o enwau'r bwydydd wedi'u Seisnigo wrth gyfieithu. Ceir 'sosej' yn hytrach na 'selsig' a 'sôs' yn lle 'saws'. Gall hyn fod yn fodd i atgoffa'r darllynydd mai bwydydd traddodiadol Seisnig sydd yn y wledd, gan ddwyn i gof leoliad y nofel yn Lloegr.

Caiff y bwydydd eu rhestru yn syml yn y Saesneg ('trifle, strawberries, jelly, rice pudding'), ond sylwer yn y Gymraeg y ceir rhythm: 'treiffl a mefus, jeli a phwddin reis'. Y mae sŵn geiriau yn ystyriaeth bwysig wrth ysgrifennu neu gyfieithu i blant am fod llyfrau plant yn aml yn cael eu darllen yn uchel. Ys dywed Riitta Oittinen, 'the translator is



responsible for contributing to the aloud-reader's enjoyment of the story in every way possible' (1995, t.93). Gall rhestru fod yn ddiflas i blentyn ond llwydda'r cyfieithydd i ychwanegu rhythm a mwynhad clywedol i'r cyfieithiad drwy gynnwys y cysylltair 'a' a nodweddion arddull nad ydynt yn bresennol yn y testun ffynhonnell.

#### 4.6 Casgliad

The translators of the Harry Potter books are faced with numerous unusual situations, and must weigh the options carefully, in order not to compromise J. K. Rowling's characterizations, her novel's sense of place, and her careful use of language, be it in the realm of nomenclature, satire, or playfulness. (Jentsch 2002, t.301)

Bwriad y bennod hon oedd astudio'r strategaethau a'r dulliau a ddefnyddir gan Emily Huws wrth gyfieithu *Harry Potter and the Philosopher's Stone* i'r Gymraeg. Dengys yr astudiaeth fod penderfyniadau'r cyfieithydd yn llwyddiannus i raddau helaeth, ond ceir enghreifftiau o Emily Huws yn methu â throsglwyddo effaith y gwreiddiol. Ni fabwysioda un dull yn unig wrth gyfieithu, ond defnyddia amryw o ddulliau wrth drosglwyddo enwau personol, enwau lleoedd, a chyfeiriadau diwylliannol. Er enghraifft, domestigeiddir 53 o enwau personol cymeriadau yn y cyfieithiad tra atgynhyrchir 49 ohonynt, gan felly sicrhau cydbwysedd rhwng chwistrellu naw Gymreig i'r nofel a chadw'n ffyddlon i'r testun ffynhonnell.<sup>19</sup> Yn yr un modd, addasir pedwar enw lle sydd wedi eu dyfeisio ac atgynhyrchir pump ohonynt, a thri o'r rheiny o fydd y Muggles (gweler Tabl 9, Atodiad 2). Llwydda'r cyfieithydd i greu gwrthgyferbyniad pellach rhwng y byd hudol a byd y Muggles yn y defnydd o enwau priod Cymraeg yn y naill ac wrth atgynhyrchu'r enwau Saesneg yn y llall. Wrth ddomestigeiddio enwau priod, ceir ymgais i sicrhau cywerthedd o ran ystyr neu effaith yr enwau, er enghraifft yn enw Efnisien ac enw'r stryd Y Lôn Groes. Er hyn, nid yw pob enw wedi'i gyfieithu'n llwyddiannus a cholli'r ystyr chwareus y gwreiddiol, er enghraifft enw Prydwen Parri.

---

<sup>19</sup> Yn ogystal â hyn, addaswyd dau enw yn orgraffyddol, addaswyd dau, cyfieithwyd dau yn llythrennol, cafodd un enw ei ddomestigeiddio/atgynhyrchu, addaswyd/atgynhyrchwyd pedwar ohonynt, domestigeiddwyd/addaswyd yn orgraffyddol dri enw, ac addaswyd/cyfieithwyd yn llythrennol un enw.

Yn fy marn i, cyfieithu enw'r tŷ Gryffindor i 'Llereuol' yw penderfyniad lleiaf llwyddiannus Emily Huws. Byddai cadw'r enw Saesneg wedi bod yn benderfyniad llwyddiannus wrth ystyried ei fod yn ymddangos fel enw Cymraeg. Serch hynny, mewn unrhyw gyfieithiad, y mae'n amhosibl trosglwyddo holl nodweddion ac elfennau'r testun ffynhonnell. Yn anffodus, 'however skilful the translator may be, there will inevitably remain elements that are, alas, "lost in translation"' (Wilcockson 2010, t.58).

## **Pennod 5**

### Astudiaeth Achos 3 — *Addasu Vicky Angel*

Jacqueline Wilson yw un o'r awduron plant mwyaf adnabyddus a llwyddiannus ym Mhrydain, yn arbennig ymysg merched ifainc. Am bedair blynedd yn olynol, benthycwyd ei nofelau hi o lyfrgelloedd yn amlach ym Mhrydain nag unrhyw awdur arall (Dienw 2008). Yn ogystal â hyn, gwerthwyd dros 10 miliwn o gopiau o'i nofelau. Y mae nifer o'i nofelau wedi'u haddasu ar gyfer y teledu, gan gynnwys *The Story of Tracy Beaker* (2002–2006) a *Double Act* (2002). Erbyn heddiw, y mae wedi ysgrifennu dros gant o nofelau ac yn parhau i gyhoeddi nofelau i blant o bob oedran. Y mae ei gwaith, hefyd, wedi cael ei gyfieithu i dros 30 o ieithoedd (Booktrust 2013), gan gynnwys y Gymraeg.

Beirniadir Wilson gan rai oedolion oherwydd bod ei straeon yn ddwys ac yn trafod pynciau tywyll (Dienw 2008). Trafoda farwolaeth, ysgaru, iselder, cam-drin plant ac alcoholiaeth, ynghyd â nifer o bynciau eraill. Er enghraifft, yn *The Dustbin Baby* a gyhoeddwyd yn 2001, deuir o hyd i faban mewn bin sbwriel; yn *The Illustrated Mum* a gyhoeddwyd yn 2000, y mae'r fam Marigold yn goryfed ac yn bygwth ei lladd ei hun, ac yn *Vicky Angel* a gyhoeddwyd yn 2000, trafoda Wilson farwolaeth merch ifanc.

Yn 2011, addaswyd y nofel *Vicky Angel* i'r Gymraeg gan Elin Meek dan y teitl *Lowri Angel*. Cynulleidfa darged y nofel yw merched Prydeinig rhwng 9 ac 11 oed ac fel y rhan fwyaf o nofelau Jacqueline Wilson, adroddir y stori yn y person cyntaf o safbwynt merch ifanc. Mae Jade Marshall a Vicky Waters wedi bod yn ffrindiau gorau ers iddynt fod yn y cylch meithrin gyda'i gilydd, er bod personoliaethau'r ddwy yn hollol wahanol. Merch dawel a swil yw Jade, tra bo Vicky yn boblogaidd a dylanwadol. Yn wir, 'mae pawb yn ysu am fod yn ffrind i Lowri' (Meek 2011, t.4). Mae'r ddwy yn gwneud popeth gyda'i gilydd er mai

Vicky sy'n gwneud yr holl benderfyniadau ac yn feistres ar ei ffrind. Yn aml, nid oes gan Jade gyfle i fynegi'i barn a dewis drosti hi ei hun am ei bod yn llwyr dan ddylanwad ei ffrind gorau. Ar ôl i'r ddwy gael ffræe ynglŷn â pha weithgaredd allgyrsiol y dylent ym gymryd ag ef, rhed Vicky i'r ffordd heb edrych a chaiff ei bwrw gan gar. Er iddi gael ei rhuthro i'r ysbyty, mae Vicky'n marw o'i hanafiadau gan adael ei ffrind Jade yn dorcalonnus. Ond nid yw Vicky'n diflannu am byth. Mae'n ymddangos eto fel ysbryd ac yn parhau i boeni a dylanwadu ar ei ffrind gorau. Er mwyn helpu i leddfu poen marwolaeth ei ffrind, ymuna Jade â Chlwb Rhedeg am Hwyl ar ôl ysgol, ac mae'n canfod ffrind yn Sam Tew, bachgen yn ei dosbarth. Nid yw Vicky'n hapus gyda'r cyfeillgarwch newydd hwn, ac mae'n dylanwadu ar Jade i fod yn gas wrth Sam. Er ei bod wedi marw, mae Vicky'n parhau i ddal gafael gref ar Jade, ac felly nid yw Jade yn teimlo ei bod yn gallu symud ymlaen gyda'i bywyd gyda'i ffrind gorau marw yn bresenoldeb parhaus.

Drwy gymharu *Vicky Angel* â'r addasiad Cymraeg, ystyrir a yw dewisiadau Elin Meek yn llwyddiannus ai peidio. Y mae'r bennod wedi'i rhannu'n bum rhan. Yn y rhan gyntaf, trafodir sut y trosir enwau priod, cyn bwrw ymlaen yn yr ail ran i drafod yr heriau wrth drosi'r cyfeiriadau niferus at y diwylliant Eingl-Americanidd gan drafod penderfyniadau ideolegol yr addasydd. Yn y drydedd ran, manylir ar y dewis o ragenwau, mater hanfodol bwysig am eu bod yn datgan gwybodaeth ychwanegol am berthynas a statws cymeriadau. Yn y bedwaredd ran, ystyrir penderfyniadau Elin Meek yn wyneb nodweddion arddull megis geirfa arbenigol ac elfennau clywedol cyn cyflwyno casgliadau.

Cyfeirir at y testun targed Cymraeg fel 'addasiad' ac Elin Meek fel 'yr addasydd' yn y bennod hon. Wrth ystyried yr hyn a drafodwyd yn rhan gyntaf y traethawd ynghylch y gwahaniaethau rhwng cyfieithu ac addasu (tt.13–16), ac wrth ystyried cysyniadau Georges L.

Bastin, gwelir mai addasiad ac nid cyfieithiad yw *Lowri Angel*. Nid pwysleisio'r ffaith bod y stori wedi'i lleoli yn Lloegr a'r diwylliant Seisnig yw nod yr addasydd, ond ei throsglwyddo'n llwyr i Gymru a'r diwylliant Cymreig. Y bwriad felly yw rhoi'r argraff nad 'cyfieithiad' yw'r testun.

## 5.1 Enwau Priod

### 5.1.1 Enwau Personol

Heb gynnwys enwau lleoedd ac enwau enwogion, y mae cyfanswm o 37 enw priod yn y nofel (gweler Tabl 1, Atodiad 3). Ceir cyfeiriadau at enwau pobl enwog, megis Judi Dench a'r awdur Terry Pratchett, ond trafodir sut y troswyd hwy yn y rhan ar gyfieithu cyfeiriadau diwylliannol. Y mae gan y rhan fwyaf o'r cymeriadau enwau traddodiadol Saesneg fel Vicky (Victoria), Rita a Jessica. Am fod y nofel wedi'i lleoli mewn ysgol, ceir cyfeiriadau at gyfenwau athrawon, ac mae'r rheiny'n nodweddiadol Saesneg, megis 'Robson' a 'Failsworth'. Yn ogystal â hyn, y mae Jacqueline Wilson wedi dyfeisio rhai enwau, megis Fatboy Sam a Marshmallow Madeleine. Mewn rhai achosion, y mae Elin Meek yn addasu enw i ffonoleg y Gymraeg (megis 'Anne' i 'Ann'), ond yn yr addasiad, y mae bron pob enw arall yn cael ei ddomestigeiddio (domestigeiddir 27 o enwau (73%) yn llwyr neu'n rhannol). Trafodir rhai enghreifftiau o enwau yn unig:

<i>Vicky Angel</i>	<i>Lowri Angel</i>	<b>Penderfyniad yr addasydd</b>
Vicky Waters	Lowri Walters	Domestigeiddio/Addasu
Rita	Sara	Domestigeiddio
Jessica	Branwen	Domestigeiddio
Miss Robson	Miss Roberts	Domestigeiddio
Mr Failsworth	Mr Puw	Domestigeiddio
Miss Gilmore	Miss Griffiths	Domestigeiddio
Jade Marshall	Cara Morgan	Domestigeiddio
Fatboy Sam	Sam Tew	Cyfieithu'n llythrennol

Marshmallow Madeleine	Beca Bisged	Creu
Mrs Anne Cambridge	Mrs Ann Llywelyn	Addasu'n ffonoleg/Domestigeiddio
Ryan Harper	Rhys Siôn	Domestigeiddio
Charlie Waters	Carwyn Walters	Domestigeiddio
Jenny	Cerys	Domestigeiddio
Yvonne	Megan	Domestigeiddio
Mr Lorrimer	Mr Lewis	Domestigeiddio
Mrs Dewhurst	Mrs Davies	Domestigeiddio
Liam	Llŷr	Domestigeiddio

Ym mhob achos, rhoddir enw priod Cymraeg yn lle'r un Saesneg. Mewn rhai enghreifftiau, y canlyniad yw creu yr un effaith yn y ddwy iaith. Er enghraifft, cyfnewidia Meek yr enw **'Ryan'** am **'Rhys'**. Y mae **'Ryan'** yn enw cyffredin ym Mhrydain — dyma oedd un o'r enwau mwyaf poblogaidd i fechgyn yng Nghymru a Lloegr yn 2010 (Office for National Statistics 2011), a **'Rhys'** yw un o'r enwau Cymraeg mwyaf cyffredin yng Nghymru i fechgyn (Jones 2011).<sup>20</sup> Ymddengys felly fod cyfnewid yr enw **'Ryan'** am **'Rhys'** yn ymdrech at sicrhau cywerthedd.

Sylwer nad dyna'r dewis bob tro. Weithiau, cyfnewidir enwau sy'n hen ffasiwn yn y Saesneg am enwau poblogaidd a chyfoes yn y Gymraeg. Gellid dadlau bod enwau megis **'Rita'** ac **'Yvonne'** wedi dyddio ac nid yw'n arferol i alw'r enwau hyn ar blant heddiw. Sylwer nad yw'r ddau enw yn ymddangos yn y rhestr o'r cant enw mwyaf poblogaidd ar blant yng Nghymru a Lloegr (Office for National Statistics 2011). Yn y Gymraeg, cyfnewidir hwy am enwau Cymraeg cyfoes, sef **'Sara'** a **'Megan'**. Tra bo **'Rita'** ac **'Yvonne'** yn enwau llai cyfarwydd bellach ar blant, y mae **'Sara'** a **'Megan'** yn enwau poblogaidd yng Nghymru (Jones 2011). Drwy gyfnewid **'Rita'** ac **'Yvonne'** am yr enwau Cymraeg, sicrheir y ceir enwau cyfoes sy'n fwy adnabyddus i blant Cymru.

<sup>20</sup> Hefyd yn achos **'Charlie'** a **'Carwyn'**, **'Jenny'** a **'Cerys'**, a **'Vicky'** a **'Lowri'**, y mae pob un ohonynt yn enwau poblogaidd heddiw.

Nid oes gan enwau yn nofelau Jacqueline Wilson arwyddocâd arbennig gan amlaf, yn wahanol i'r enwau yn *Harry Potter*, nofelau Roald Dahl a nifer o nofelau eraill i blant. Er hyn, y mae gan rai enwau yn ei nofelau arwyddocâd penodol. Er enghraifft, yn *Double Act* enwau'r ddwy efeilles yw Ruby a Garnet, sef enwau dau emfaen coch. Y mae gan yr enwau arwyddocâd arbennig yn y nofel — maent yn cyfleu bod y ddwy ferch yn debyg yn gorfforol, a hefyd yn pwysleisio'r ffaith fod gan y ddwy wallt coch. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau emfaen yn adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng y ddwy ferch o ran eu personoliaeth. Y mae'r gemfaen 'ruby' yn llachar tra bo 'garnet' yn oleuach gan awgrymu mai Ruby yw'r efeilles fwyaf dominyddol a'r un y mae pobl yn sylwi arni gyntaf. Yn yr un modd, gellir awgrymu bod yr enw '**Jade**' (gemfaen gwyrdd) yn *Vicky Angel* yn datgelu gwybodaeth am y cymeriad. Yn draddodiadol, cysylltir y lliw gwyrdd â chenfigen, sy'n briodol wrth ystyried bod y ferch swil a thawel hon yn teimlo math o genfigen tuag at ei ffrind hyderus:

When I'm at home on my own... I parade round the living room and act out all the soaps... or I'll just make up my own plays. Sometimes I'll act people I know. I always end up acting Vicky... I can feel her long thick bright hair bouncing about my shoulders and my green eyes are glittering and I'm smiling Vicky's wicked smile. I dance up and down the room until I catch sight of myself in the big mirror above the fireplace and see my own sad pale skinny self. (Wilson 2000, t.9)

Gellid awgrymu bod yr enw '**Cara**' yn yr addasiad Cymraeg yn cyfleu yr un arwyddocâd â'r enw '**Jade**'. Enw Lladin/Gwyddeleg yw '**Cara**' a chofier mai lliw cenedlaethol Iwerddon yw gwyrdd. Yn hyn o beth, cedwir arwyddocâd arbennig yr enw, er y cyflea Elin Meek yr ystyr mewn ffordd wahanol.

Domestigeiddir cyfenwau yn ogystal ag enwau priod. Sylwer bod nifer o'r cyfenwau yn *Vicky Angel* yn rhai Seisnig. Gellir olrhain yr enw '**Lorrimer**', er enghraifft, i Ogledd Lloegr ac ardaloedd yn yr Alban (Titford 2009, t.284). Ystyr y cyfenw '**Dewhurst**' yw 'pren gwlyb', ac y mae ei boblogrwydd wedi'i gyfyngu i Swydd Gaerhirfryn (Titford 2009, t.150).

Cyfnewidia Elin Meek '**Mr Lorrimer**' a '**Mrs Dewhurst**' am '**Mr Lewis**' a '**Mrs Davies**';

tystiolaeth bod yr addasydd yn ffafrio'r dull o ddomestigeiddio. Y mae cyfenwau sy'n deillio o enwau cyntaf megis '**Lewis**' a '**Davies**' yn boblogaidd yng Nghymru (Cramb 2009; Morgan a Morgan 1985, t.149; t.82), ond y mae '**Lorrimer**' a '**Dewhurst**' yn anghyffredin iawn hyd yn oed yn Lloegr (Titford 2009, t.150; t.284). Diau fod athrawon sy'n dwyn y cyfenwau '**Lewis**' a '**Davies**' i'w cael ym mhob ysgol yng Nghymru, gan greu elfen gyfarwydd yn yr addasiad.

Domestigeiddir enwau yn aml mewn llenyddiaeth plant fel modd i greu testun y byddai plant yn gallu uniaethu ag ef ac i osgoi eu dieithrio (Lathey 2006, t.7). Ond fel y nodir ar dudalen 37 i 38, gwlad ddwyieithog yw Cymru ac y mae enwau Saesneg yn rhai cyfarwydd i blant hyd yn oed mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Ni fyddai cynnwys rhai enwau Saesneg yn broblematic i'r darlennydd felly. Gellid bod wedi cadw rhai enwau Saesneg poblogaidd, megis '**Liam**' a '**Jessica**', yn lle eu cyfnewid am yr enwau Cymraeg '**Llŷr**' a '**Branwen**'. Y mae'r enwau yn y nofel Saesneg yn rhai cyffredin yng Nghymru (Jones 2011), tra bo rhai o'r enwau Cymraeg yn llai poblogaidd. Yn gyffredinol, fodd bynnag, gellid awgrymu bod Meek wedi llwyddo yn well na Wilson i ddewis enwau cyfarwydd a chyffredin. Sylwer nad yw'r addasydd yn newid orgraff y cyfenwau i'r iaith Gymraeg (gellid bod wedi penderfynu ar ffurfiau Cymraeg yr enwau megis 'Dafis', 'Gwilym' neu 'Gruffydd') ond llwyddodd i ddewis cyfenwau sy'n gyffredin a chyfarwydd i blant, hynny yw enwau yn eu ffurfiau Saesneg. Dengys hyn y dylid ystyried ymateb a phrofiadau'r gynulleidfa darged wrth gyfieithu neu addasu (Schäffner 1998, t.236).



### 5.1.2 Enwau Lleoedd

Y mae'r nofel hefyd yn cynnwys sawl enw lle. Cafodd rhai enwau lleoedd eu dyfeisio gan Jacqueline Wilson, megis enw'r ysgol 'Downfield' ac enw'r parc thema 'Fairwood Park', a chyfeirir yn ogystal at leoedd mewn gwledydd tramor, sef Efrog Newydd a Disneyland Paris. Lleoedd yn Lloegr yw lleoedd eraill y nofel, megis Waterloo a Covent Garden. Gweler Tabl 2, Atodiad 3 am restr gyflawn o'r enwau lleoedd. Adleolir y nofel Gymraeg yn llwyr yng Nghymru:

'Let's go up to London'. (Wilson 2000, t.50)	'Gad i ni fynd ar y trên i Gaerdydd'. (Meek 2011, t.68)
'We both go to Picadilly Circus because we're both sure that's the middle of London'. (Wilson 2000, t.54)	'Rydyn ni'n mynd i lawr i Fae Caerdydd ar y bws'. (Meek 2011, t.75)

Wrth ddomestigeiddio testun, y prif beth yw sicrhau cysondeb. Ni ddylid domestigeiddio pob enw priod heb adleoli'r testun. Byddai anghysondebau rhwng enwau priod Cymraeg a lleoliadau yn Lloegr yn creu darlun afrealistig i ddarllenwyr, gan symud y darlennydd o'r naill le i'r llall.

Yn wahanol i *Harry Potter* a nifer o nofelau eraill i blant, nid yw lleoliad *Vicky Angel* yn hanfodol i'r stori. Megis nofelau Wilson yn gyffredinol, stori yw *Vicky Angel* am bobl gyffredin mewn lleoliad cyffredin. Fel y nodwyd eisoes, mae ei llenyddiaeth yn cynnwys pynciau dwys megis marwolaeth, alcoholiaeth a thrais sy'n berthnasol i unrhyw ddiwylliant. Trafoda yn ogystal bynciau sy'n gyffredin i fywyd unrhyw blentyn mewn unrhyw ddiwylliant yn y byd cyfoes gan gynnwys cyfeillgarwch, y cyfryngau, y teulu a'r ysgol. Y mae hyn yn rhoi rhyddid i'r addasydd adleoli'r stori yn niwylliant y gynulleidfa darged gan sicrhau y gall unrhyw ferch ifanc uniaethu â'r straeon mewn perthynas â'i bywyd a'i phrofiadau hi. Ni cholli'r effaith y testun ffynhonnell, ond drwy adleoli'r stori yng Nghaerdydd, sicrheir y bydd

plant Cymru, neu blant y De yn sicr, yn gallu uniaethu â'r stori. Y mae Meek yn hyn o beth yn sicrhau cywerthedd dynamig o ran y lleoliad.

## 5.2 Cyfeiriadau Diwylliannol

Y mae nifer helaeth o gyfeiriadau at enwau sêr byd enwog, rhaglenni teledu, a chwmnïau enwog yn y nofel. Canolbwyntir ar sut y troswyd hwy i'r Gymraeg yn yr adran hon o'r bennod. Gall cyfeiriadau diwylliannol fod yn anodd eu deall heb unrhyw wybodaeth o'r diwylliant a gallant fod yn her wrth gyfieithu (Alousque 2009, t.137). Y mae ceisio cyfleu 'those unspoken cultural assumptions' yn un o brif heriau cyfieithu yn ôl Hirano (1999, t.229). Wrth gyfieithu llenyddiaeth plant, y duedd yw cyfnewid cyfeiriadau at ddiwylliant y testun ffynhonnell am gyfeiriadau at y diwylliant targed, hynny yw eu domestigeiddio. Gwneir hyn oherwydd addasu testun i'r diwylliant targed yw'r norm wrth gyfieithu llenyddiaeth plant, fel y nodir ar dudalen 22. Wedi dweud hynny, gwlad ddwyieithog yw Cymru, ac y mae'r Saesneg a'r diwylliant Seisnig (a'r diwylliant Americanaidd) yn chwarae rhan flaenllaw yn y gymdeithas. Y mae plant Cymru yn aml yn hoff o'r un caneuon, ffilmiau, cantorion, ac actorion â phlant Lloegr. Yn ogystal â hyn, y mae plant Cymru'n drwm dan ddylanwad y diwylliant Americanaidd.

Y mae'r adran hon wedi'i rhannu'n ddwy, sef cyfeiriadau at y diwylliant Seisnig, a chyfeiriadau at y diwylliant Americanaidd. Ceir cyfanswm o 30 o gyfeiriadau diwylliannol (gweler Tabl 3, 4 a 5, Atodiad 3 am y rhestrau cyflawn). Domestigeiddir cyfanswm o 4 cyfeiriad diwylliannol, caiff 10 eu dileu ac atgynhychir 12 ohonynt.<sup>21</sup> Ystyrir a yw

---

<sup>21</sup> Yn ogystal â hyn, cafodd un cyfeiriad diwylliannol ei addasu ('*Toad of Toad Hill*' i '*Y Llyffant a'i Ffrindiau*'), cafodd un ei drawsnewid ('*ER*' am '*Casualty*'), a chyfieithwyd dau yn llythrennol ('*Flower Fairy books*' a '*Ilyfr Tylwyth Teg y Blodau*', a '*The Lord is my Shepherd*' ac '*Yr Arglwydd yw fy Mugail*').

domestigeiddio neu ddileu'r cyfeiriadau diwylliannol yn fwy llwyddiannus na'u hatgynhyrchu.

### 5.2.1. Cyfeiriadau at y Diwylliant Seisnig

Wrth ystyried bod *Vicky Angel* wedi'i lleoli yn Lloegr ac wedi'i hysgrifennu yn benodol ar gyfer merched ifainc Prydeinig, nid yw'n syndod bod llawer o gyfeiriadau yn y nofel at lenyddiaeth, rhaglenni teledu, siopau ac enwogion o'r byd Seisnig a Phrydeinig. Mae cyfeiriadau at y diwylliant Seisnig a Phrydeinig yn chwarae rôl bwysig yn y nofel, ac yn datgelu llawer am y cyfnod ac am yr hyn y mae merch gyffredin o Brydain yn ei hoffi neu'n gyfarwydd ag ef. Yn *Lowri Angel*, er y caiff cyfeiriadau at siopau a chwmnïau Prydeinig eu hatgynhyrchu, megis y siop Topshop a'r bar siocled Kit Kat, ceir ymdrech ymwybodol i ddileu cyfeiriadau at ddiwylliant poblogaidd Lloegr, drwy naill ai eu dileu neu eu cyfnewid am gyfeiriadau at y diwylliant Cymreig neu Gymraeg. O'r 15 cyfeiriad at y diwylliant Seisnig, caiff 8 eu domestigeiddio neu eu dileu. Er enghraifft, caiff cyfeiriad at awdur cyfoes poblogaidd ei ddileu:

'Fatboy Sam... sticks his nose in his latest Terry Pratchett...' (Wilson 2000, tt.92–93)	'yn rhoi ei drwyn mewn llyfr'. (Meek 2011, t.135)
--	---

Pam y penderfynwyd dileu enw'r awdur? Gellid awgrymu y gwnaethpwyd hyn er mwyn osgoi'r risg y byddai'r cyfeiriad yn dyddio am fod poblogrwydd awduron yn newid gyda threigl amser. O fewn rhai blynyddoedd, efallai na fyddai'r darlennydd Saesneg yn ymwybodol pwy yw'r awdur Terry Pratchett. Yn y 1990au, Terry Pratchett oedd un o'r awduron plant mwyaf llwyddiannus ym Mhrydain (BBC Wiltshire 2003; Weale 2002). Dros y degawd diwethaf, fodd bynnag, datblygodd J. K. Rowling i fod y ffigur llenyddol enwocaf ar gyfer plant, ond erbyn heddiw, Michael Morpurgo gellid dadlau yw'r nofelydd mwyaf

poblogaidd i blant ym Mhrydain. Y mae dileu enw'r awdur yn y cyswllt hwn yn y Gymraeg felly'n sicrhau na fydd y cyfeiriad yn dyddio, yn wahanol i'r Saesneg.

Yn fy marn i, penderfyniad Elin Meek i ddileu'r cyfeiriad at y Dywysoges Diana yw un o'i phenderfyniadau mwyaf diddorol. Wrth weld y 'carped o flodau a chardiau a theganau bach meddal dros y palmant' (Meek 2011, t.60) er cof amdani, y mae Vicky yn cymharu'r sefyllfa â'r sylw a roddwyd i farwolaeth y Dywysoges Diana. Yn yr addasiad Cymraeg fodd bynnag, caiff enw'r Dywysoges ei ddileu:

'It's just like I'm Princess Diana!' (Wilson 2000, t.44)	'Mae e'n union fel petawn i'n rhywun enwog!' (Meek 2011, t.60)
--	--

Pam dileu enw'r Dywysoges? Fel y nodwyd eisoes yn achos Terry Pratchett, y mae cyfeiriadau yn cael eu dileu yn aml er mwyn sicrhau nad yw cyfeiriadau'n dyddio yn y cyfieithiad neu'r addasiad. Yn wir, ys dywed Deborah Halverson, ni ddylid enwi sêr o gwbl mewn nofelau er mwyn osgoi dyddio'r cyfeiriadau: 'Unless your story takes place in a certain historical era and you're creating a sense of place... do not mention musicians, movie stars... or any other such famous folks by name' (2011, t.314). Ai oherwydd hyn ac am na fyddai plant yn ymwybodol o'r Dywysoges y cafodd y cyfeiriad ei ddileu? Y mae Diana, er iddi farw dros ddegawd cyn i'r addasiad gael ei gyhoeddi, yn parhau'n ffigur poblogaidd a phwysig yn llygaid y cyhoedd. Datblygodd yn icon, 'who captured the world's imagination as no other public figure of our time' (Trevor McDonald yn Owen 2002, t.8), a hyd heddiw y mae sôn amdani yn y cyfryngau. Adnewyddwyd y diddordeb ynddi pan briododd y Tywysog William, ei mab hynaf, ym mis Ebrill 2011, sef blwyddyn cyhoeddi *Lowri Angel*. Byddai cadw'r cyfeiriad yn hyn o beth wedi parhau'n gyfoes ac yn berthnasol i'r byd cyfoes. Felly, nid er mwyn osgoi dryswch y cafodd enw Diana ei ddileu.

Y mae angen cofio mai cyfeirio at Diana yng nghyd-destun ei marwolaeth a wna Vicky yn y nofel Saesneg. Ni fyddai plant o bosibl yn ymwybodol o'r holl sylw ar y newyddion neu yn

y papurau newydd ynglŷn â marwolaeth Diana wrth ystyried y bu farw yn 1997, cyn i'r gynulleidfa darged gael ei geni (cofiwn fod y nofel wedi'i hanelu at ferched rhwng 9 ac 11 oed). Yn hyn o beth, y mae'r sylw at farwolaeth y Dywysoges yn *Vicky Angel* yn bradychu cyfnod y nofel ac yn ei dyddio i raddau. Byddai plant o bosibl yn fwy ymwybodol o farwolaethau enwogion mwy diweddar megis Michael Jackson. Serch hynny, ys dywed Trevor McDonald, '[t]he sudden and tragic death of Diana, Princess of Wales, affected the people of Britain and the world as perhaps no other event in modern times' (yn Owen 2002, t.7). Eto, petasai'r addasydd wedi cynnig enw arall, y mae'n annhebygol y byddai hyn wedi sicrhau'r un effaith a gellid dadlau felly fod dileu enw'r Dywysoges Diana yn ateb llwyddiannus.

Er bod poblogrwydd y Teulu Brenhinol yn gyffredinol wedi codi yn y blynyddoedd diweddar yn sgil priodas Tywysog William a Kate Middleton, a dathliadau'r Jiwbilî, y mae nifer o genedlaetholwyr Cymraeg yn erbyn y Frenhiniaeth. Yn y 1960au, yn ystod cyfnod arwisgo'r Tywysog Siarl, bu protestiadau gan genedlaetholwyr, megis Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, yn erbyn ei arwisgo'n Dywysog Cymru (Davies 1990, t.609). Yn hyn o beth, gall dileu cyfeiriad at y Dywysoges fod yn ymdrech gan Elin Meek i geisio rhwystro plant rhag cael eu dylanwadu'n ormodol gan y Teulu Brenhinol, a cheisio rhwystro cenedlaetholwyr Cymraeg rhag cael eu tramgwyddo gan gyfeiriadaeth ato (y mae angen cofio bod nofelau i blant yn cael eu dewis gan oedolion yn aml, ac y mae'n gyffredin i oedolion eu darllen i blant). Yn hyn o beth, y mae angen sicrhau bod y nofel yn apelio at blant ac at yr oedolion sy'n dewis a darllen y llyfrau iddynt.

Y mae gan gyfieithydd/addasydd, felly, 'an ideological power... performing an active role in the formation and interpretation of ideology' (Hatim a Munday 2004, t.329) ac ni allai ddianc o'i ideoleg ei hunan neu ideoleg y gymuned, fel y trafodir ar dudalen 20 a 26. Gellid gofyn, felly, a yw dileu enw'r Dywysoges yn fath o brotest wleidyddol gan yr addasydd yn

erbyn y Teulu Brenhinol? Cenedlaetholwraig yw Elin Meek, fel y dengys mewn cyfweliad pan ofynnwyd iddi, ‘Pa berson byw neu hanesyddol ydych chi'n ei edmygu fwyaf a pham?’. Ei hateb oedd arwr Plaid Cymru, ‘Gwynfor Evans, am sefyll yn gadarn ac unplyg pan oedd bod yn genedlaetholwr yn brofiad unig ac amhoblogaidd, ac am ddioddef sen a gwawd’ (BBC Cymru 2003b) sy’n awgrym o’i thueddiadau cenedlaetholgar. Trwy ddileu enw’r Dywysoges Diana, dengys y pŵer sydd gan gyfieithwyr ac addaswyr i ddileu cyfeiriadau nad ydynt yn cydweddu â’u hideolegau a’u safbwyntiau hwy, yn ogystal ag ideolegau a safbwyntiau’r gymuned.

Yn ogystal â dileu cyfeiriadau, ceir ymdrechion ymwybodol gan yr addasydd i gyfnewid cyfeiriadau Seisnig am rai Cymreig, sy’n dangos ei bwriad i addasu’r testun i’r diwylliant Cymreig a Chymraeg. Sylwer ar benderfyniad yr addasydd i gyfnewid enw drama boblogaidd Saesneg am un Gymraeg:

‘...do Clare Danes’ lines in <i>Romeo and Juliet</i> ’ (Wilson 2000, t.9)	‘...neu linellau Blodeuwedd’ (Meek 2011, t.7).
---	--

*Romeo and Juliet* yw un o ddramâu mwyaf poblogaidd William Shakespeare ac astudir y ddrama mewn ysgolion ledled Prydain (Dunton-Downer a Riding 2004, t.305). Yn ogystal â hyn, yn sgil addasu’r ddrama’n ffilm yn 1996, cynyddodd ei phoblogrwydd ymysg pobl ifainc. Er na ellir dadlau bod y ddrama *Blodeuwedd* yr un mor boblogaidd â *Romeo and Juliet*, hyd yn oed yng Nghymru, gellid cymharu pwysigrwydd y naill ddrama a’r llall i’w diwylliannau penodol. Dadleua Cefin Roberts, yn yr adargraffiad yn 2009 o *Blodeuwedd*, mai’r chwedl honno, o blith yr holl chwedlau Cymraeg, yw’r un a adroddir amlaf a’r un sydd wedi’i llwyfannu fwyaf (yn Lewis 1948, clawr cefn).

Ystyrir poblogrwydd y dramodwyr hefyd. Ganwyd William Shakespeare yn yr unfed ganrif ar bymtheg, a hyd yn oed heddiw, efe yw un o brif ffigurau llenyddol y byd Saesneg ei iaith. Ys dywed Dunton-Downer a Riding: ‘No dramatist in history has wielded such

influence' (2004, t.467). Saunders Lewis yw un o'r prif ffigurau gwleidyddol a llenyddol yn hanes Cymru: 'Ym mywyd llenyddol a chyhoeddus yn ystod yr ugeinfed ganrif, prin y bu enw amlycach na Saunders Lewis' (Jones yn Lewis 2000, clawr cefn). Er nad yw *Blodeuwedd* yn sicrhau'r union effaith â *Romeo and Juliet*, un o'r dramâu mwyaf poblogaidd erioed, gellid dadlau ei bod hi'n bosibl cymharu pwysigrwydd a statws y dramodwyr William Shakespeare a Saunders Lewis. Yn hyn o beth, ni fyddai cynnig cyfeiriadaeth at ddrama dramodwr arall wedi sicrhau'r un effaith neu gywerthedd yn y Gymraeg.

### 5.2.2 Cyfeiriadau at y Diwylliant Americanaidd

Ni ellir dadlau nad oes gan Unol Daleithiau America effaith ar Brydain. Y mae plant Prydain yn cael eu boddi gan ddiwylliant y wlad, gan gynnwys rhaglenni teledu, ffilmiau, a chantorion Americanaidd. Fel y nodwyd eisoes, ceir llu o gyfeiriadau at y diwylliant Americanaidd yn *Vicky Angel*, a thrafodaf rai o benderfyniadau Elin Meek wrth ddod wyneb yn wyneb â hwy. Ceir deg cyfeiriad at y diwylliant Americanaidd yn *Vicky Angel*. Domestigeiddir neu dilëir pump ohonynt, gan gynnwys cyfnewid enw George Clooney am Matthew Rhys, ond caiff pump eu hatgynhyrchu (er enghraifft McDonald's a Coke) neu eu cyfnewid am gyfeiriadau eraill yn y diwylliant Prydeinig (cyfnewidir *ER* am *Casualty*).

Yn gyntaf, y mae'n ddi-ddorol ystyried y modd yr aeth Elin Meek ati i drosi'r cyfeiriadau at gymeriadau Disney. Sylwer eu bod yn cael eu dileu yn y Gymraeg:

'My teddies and my little plastic Belle and Cinderella and Ariel and a handful of Dalmation puppies'. (Wilson 2000, t.62)	'y tedis a'r dolis plastig a chwplwl o deganau meddal'. (Meek 2011, tt.87-88)
---	---

Ai ymdrech sydd yma i sicrhau na fyddai'r cyfeiriad yn dyddio? Yn fy marn i, nid yw hynny'n debygol o ystyried poblogrwydd Disney er degawdau. Ers y 1930au, y mae enwau

cymeriadau Disney yn gyfarwydd i blant ledled y byd ac mae'r cwmni wedi datblygu'n ffenomen ryngwladol (Singer 2001, t.41). Er y rhyddhawyd y ffilmiau gyda'r cymeriadau uchod ynddynt amryw o flynyddoedd yn ôl, y mae plant yn parhau'n ymwybodol ohonynt o ganlyniad i deganau a rhaglenni sydd wedi deillio o'r ffilmiau (Artz 2005, t.75). Caiff plant eu cyflwyno i Disney o oedran ifanc iawn (Singer 2001, t.415). Y mae ffilmiau Disney yn cael eu rhyddhau yn aml mewn sinemâu ac y mae poblogrwydd siopau Disney a pharciau thema Disney ledled y byd yn sicrhau y bydd y cwmni yn llwyddo i apelio at blant am flynyddoedd i ddod (Artz 2005, tt.75–76). Felly, ni chafodd y cyfeiriadau eu dileu am na fyddai plant yn gyfarwydd â Disney.

Gellid dadlau bod rhesymau eraill pam y cafodd y cyfeiriadau eu dileu. I nifer o bobl, y mae Disney yn symbol o nodweddion negyddol America megis materoliaeth, masgynhyrchu a phrynwriaeth. Y mae cynnyrch Disney, megis teganau'r cwmni a mynediad i barciau thema Disney, yn ddrud dros ben ac yn aml yn rhy gostus i deuluoedd cyffredin (Singer 2001, t.417). Yn ogystal â hyn, y mae rhai yn credu bod Disney yn dysgu gwerthoedd negyddol i blant ac yn dangos rhagfarn yn erbyn eraill, er enghraifft beirniadir Disney am ei agweddau hiliol, yn arbennig agweddau tuag at bobl dduon (megis yn y ffilmiau *Song of the South* a *Jungle Book*) (Giroux 2010, t.108). Y mae nifer hefyd yn dadlau bod gan Disney ragfarn yn erbyn menywod (Singer 2001, t.418; Giroux 2010, t.104). Dadleua Jack Zipes, arbenigwr mewn straeon tylwyth teg, fod ffilmiau Disney yn ystrydebol wrth drafod y rhywiau: '[The films] have an adverse effect on children in contrast to what parents think... parents think they're essentially harmless... and they're not harmless' (yn Giroux 2010, t.108). Ym marn Giroux, y mae Disney yn creu'r ddelwedd mai tynged merch yw, 'to fulfill her selfhood by becoming the appendage, if not the property, of a man' (2010, t.108). Yn wir, y mae hapusrwydd y cymeriadau benywaidd ynghlwm wrth gwmpo mewn cariad a phriodi. Yn *The Little Mermaid*, er enghraifft, y mae Ariel y fôr-forwyn yn cyfnewid ei llais am goesau er



mwyn dod o hyd i Eric y tywysog ac ar ôl iddi gyfarfod ag ef, ceisia Eric roi cusan y gwir gariad iddi hi er nad yw erioed wedi siarad â hi. Awgryma hyn fod y ferch yn cael ei hystyried yn wrthrych i'r dyn yn unig a bod ei haddasrwydd ar gyfer priodi yn ddibynnol ar ei hymddangosiad corfforol yn unig ac nid ar ei phersonoliaeth. Yn *Cinderella*, sef addasiad o un o chwedlau'r Brodyr Grimm, caiff y prif gymeriad ei cham-drin gan ei llysfam a'i llyschwiorydd. Er ei dyhead i adael ei chartref, nid yw'n gallu dianc oddi wrth ei theulu hyd nes i'r tywysog gwmpo mewn cariad â hi a'i hachub. Cymeriadau gwan nad ydynt yn annibynnol yw cymeriadau benywaidd Disney, felly, sy'n ddibynnol ar ddynion i achub y dydd. Hyd yn oed pan fo'r dynion yn eu cam-drin, cwmpa'r merched o dan eu hud. Cwmpa Belle mewn cariad â'r bwystfil yn *Beauty and the Beast* er ei fod yn ei cham-drin yn gorfforol ac yn emosiynol drwy ei charcharu yn ei gartref (Giroux 2010, t.106). Yn hyn o beth, gellid dweud bod cymeriadau benywaidd Disney yn esiamplau gwael i ferched ifainc yn y cyfnod modern. Yn fy marn i, dyma pam y cafodd y gyfeiriadaeth ei dileu yn y Gymraeg. Yn y byd cyfoes, rhoddir pwyslais ar y ffaith bod merched yn fodau annibynnol sydd yn gallu llwyddo yn y byd ar eu pennau eu hunain. Yn y ffilmiau, fodd bynnag, y mae'r cymeriadau benywaidd yn llwyr ddibynnol ar ddynion i ganfod hapusrwydd. Nid yw ideolegau Disney, gellid dadlau, wedi datblygu a newid yn unol â'r cyfnod modern.

Yn ogystal â hyn, gellid awgrymu bod penderfyniad Elin Meek i ddileu enwau'r cymeriadau yn ymwneud â'u hymddangosiadau corfforol. Y mae cymeriadau benywaidd Disney i gyd yn fain a phrydferth a gall hyn effeithio'n negyddol ar ferched ifainc. Yn aml, caiff merched eu cyflwyno i ddelweddau yn y cyfryngau a all ddylanwadu'n negyddol ar eu hunan werth. Y mae'n gred gyffredinol bod merched yn gosod mwy o bwyslais ar fod yn denau ac yn ddeniadol o gymharu â bechgyn (Banyard 2010, t.17). Nid yw hyn yn syndod wrth ystyried bod cylchgronau a hysbysebion ar y teledu yn canolbwyntio'n gyson ar sut y gall merched newid eu hymddangosiad, gan awgrymu'n gryf bod cael corff main a deniadol

yn cysylltu â hapusrwydd a bodlonrwydd (Banyard 2010, t.32). Caiff merched eu dysgu o oedran ifanc iawn bod ymddangosiad corfforol yn bwysig. Sylwer bod cymeriadau benywaidd mewn cartwnau poblogaidd i blant megis Bugs Bunny yn fwy tebygol o gael eu portreadu'n ddeniadol na chymeriadau gwrywaidd, a'u bod yn llwyddo mewn bywyd oherwydd eu prydfwerthwch (Banyard 2010, t.25). Drwy ddileu enwau Belle, Cinderella ac Ariel felly, sef merched tenau a deniadol sydd wedi eu modelu ar y ferch 'ddelfrydol', gellid awgrymu bod yr addasydd yn gwrthod trosglwyddo'r delweddau anghyraeddadwy o ferched sydd i'w gweld yn gyson yn y cyfryngau. Gellid awgrymu y cyfnewidir y cyfeiriad at Miss World (Wilson 2000, t.139) am 'Sioe Ffasiynau' am yr un rheswm (Meek 2011, t.209).

Yn ogystal ag enwau ar gymeriadau ffuglennol o'r diwylliant Americanaidd, ceir hefyd gyfeiriadau at enwogion o America, sef George Clooney, Sylvester Stallone ac Elvis. Wrth drosi enw'r actor o fri, George Clooney, mae Elin Meek yn ei gyfnewid am Matthew Rhys yn y Gymraeg:

'...she'll [Vicky] have hoped for a George Clooney lookalike'. (Wilson 2000, t.26)	'...byddai hi [Lowri] wedi hoffi cael doctor oedd yn edrych fel Matthew Rhys'. (Meek 2011, t.31)
--	--

George Clooney yw un o brif actorion Hollywood, sy'n boblogaidd nid yn unig am ei dalentau actio ond hefyd oherwydd ei fod yn olygus. Y mae Matthew Rhys yntau yn actor blaenllaw sydd wedi chwarae rhannau mewn ffilmiau a rhaglenni poblogaidd gan gynnwys portreadu Dylan Thomas yn *The Edge of Love*. Er bod Matthew Rhys yn ffigur poblogaidd yn y byd teledu a ffilmiau, ni ellir dadlau nad yw George Clooney yn fwy cyfarwydd na Matthew Rhys, hyd yn oed ymysg plant Cymru. Pam y penderfynwyd newid enw'r actor felly? O bosibl, penderfynwyd moderneiddio'r cyfeiriad er mwyn ei wneud yn berthnasol i ferched ifainc heddiw — y mae George Clooney yn ei bumdegau ac o bosibl yn rhy hen i ferched ifainc heddiw ei ystyried yn olygus. Er hyn, ceir sêr Hollywood eraill y gellid bod

wedi eu dewis sy'n fwy poblogaidd na Matthew Rhys fel yr actor Zac Efron. Y mae'r actor Americanaidd hwn yn enwog am ei ffilmiau ac yn ennyn edmygedd merched ifainc. Dyma ymdrech ymwybodol, felly, i ddileu dylanwad y diwylliant Americanaidd.

'[T]he transition of a text from one language to another registers ideological differences between countries and cultures' (Lathey 2010, t.xv). Yn wir, yn y testun ffynhonnell, gwelir y duedd ymysg awduron Lloegr i gofleidio a chynnwys cyfeiriadau at ddiwylliant America yn eu gwaith. Ceir yr argraff glir mai byd i'w efelychu yw diwylliant America ac nid byd i droi i ffwrdd oddi wrtho. Wrth addasu i'r Gymraeg, cafwyd cyfle i chwistrellu diwylliant a bywyd Cymreig i'r nofel. Er bod y diwylliant Eingl-Americanaidd o amgylch plant yn barhaus, gan gynnwys rhaglenni teledu a ffilmiau o America, y mae cyfieithu ac addasu yn gyfle i sicrhau nad yw plant Cymru yn darllen llenyddiaeth sy'n sôn am Loegr a'r diwylliant Eingl-Americanaidd yn unig. Yn hyn o beth, ceir cyfle i normaleiddio'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig mewn llenyddiaeth.

### **5.3 Rhagenwau Cyfarch**

Wrth droi at y defnydd o'r rhagenwau cyfarch yn yr addasiad, diddorol yw canolbwyntio'n gyntaf ar y ffurfiau a ddefnyddir gan blant wrth siarad â'u hathrawon. Sylwer bod y plant yn yr addasiad yn defnyddio ffurfiau'r ail berson lluosog wrth siarad â'u hathrawon. Dywed Cara wrth Mr Lewis, yr athro addysg gorfforol: 'Roedd Lowri eisiau ymuno [â'r Clwb Rhedeg am Hwyl], chi'n gweld...' (Meek 2011, t.110), a dywed Cara wrth Mrs Llywelyn ar ôl iddi beidio â dod â'i gwaith cartref i'r ysgol: 'Ry'ch chi'n gwybod fel mae hi, Mrs Llywelyn' (Meek 2011, t.179). Ond tybed a yw hyn yn adlewyrchu realiti'r byd cyfoes? Byddai cynnwys cymeriad neu gymeriadau sy'n galw athrawon wrth y rhagenw 'ti',

yn fy marn i, yn adlewyrchiad mwy teg o'r sefyllfa mewn rhai ysgolion Cymraeg heddiw ac yn sicrhau bod y darllenwyr yn gallu uniaethu ymhellach â'r stori a'r cymeriadau.

Y mae'r athrawon yn defnyddio ffurfiau'r ail berson unigol wrth siarad â Cara a'r disgyblion eraill. Dywed Mr Lewis: 'Bydd croeso mawr i ti' (Meek 2011, t.110), a dywed Mrs Llywelyn: 'Paid â cheisio fy nhwylo i' (Meek 2011, t.179) sy'n adlewyrchu'r arfer mewn ysgolion i athrawon ddefnyddio ffurfiau'r ail berson unigol wrth siarad â disgyblion.

Gwelir mai perthynas gilyddol ffurfiol a geir rhwng rhieni Cara a'i hathrawes, Mrs Llywelyn. Dywed Mam Cara wrth Mrs Llywelyn: 'Ga i wneud cwpaned o goffi i chi?' (Meek 2011, t.146). Meddai Mrs Llywelyn wrth dad Cara: '... os oes eiliad gyda chi, Mr Morgan' (Meek 2011, t.145). Gall y defnydd o ffurfiau'r ail berson lluosog fod yn fodd i ddynodi perthynas rhwng dau berson cyfartal eu statws cymdeithasol sydd am gadw pellter cymdeithasol priodol rhyngddynt (Thomas 1996, t.244). Dyma'r hyn a geir ym mherthynas rhieni Cara a'i hathrawes. Er bod y defnydd o'r rhagenw 'chi' yn awgrymu bod parch yn bodoli yn eu perthynas, y mae'n fodd hefyd i sicrhau bod y berthynas yn parhau'n un broffesiynol ac yn rhoi pellter rhyngddynt. Yn wir, nid cyfeillgarwch a geir rhwng rheini Cara a'r athrawes. Gweler ymateb mam Cara ar ôl i'r athrawes adael cartref y teulu: 'Pwy ddiawl mae hi'n meddwl yw hi... yn rhoi'r argraff nad ydw i'n gwybod sut i ofalu am fy merch fy hunan?' (Meek 2011, t.154).

Fel y nodir ar dudalen 31, y mae'n bwysig ystyried normau cymdeithasol cyn penderfynu ar y defnydd o ffurfiau sy'n gweddu i berthynas cymeriadau. Y duedd yw i rieni ac athrawon arddel ffurfiau'r ail berson lluosog wrth siarad â'i gilydd, ac felly y mae'r addasiad yn cyfleu normau cyffredin ym mherthynas rheini ac athrawon.

Er bod nifer o bobl hyd heddiw yn galw ‘chi’ ar eu rhieni, wrth bortreadu merch ifanc yn Ne Cymru y mae’r defnydd o’r rhagenw ‘ti’ yn adlewyrchu normau cymdeithasol cyffredin. Sylwer yn *Lowri Angel* bod Cara yn galw ‘ti’ ar ei mam: ‘Rwyt ti’n garedig iawn, Mam’ (Meek 2011, t.216). Defnyddia ffurfiau’r ail berson unigol wrth siarad â’i thad yn ogystal: ‘Ddylet ti ddim dod i mewn’ (Meek 2011, t.188). Y duedd bellach yw i rieni a’u plant ddefnyddio ffurfiau’r ail berson unigol wrth siarad â’i gilydd, yn hytrach na’r ffurfiau anghilyddol fel yr arferid genhedlaeth ynghynt (Thomas 1996, t.245), ac felly y mae’r defnydd o ffurfiau’r ail berson unigol yn briodol wrth ystyried yr arfer ymysg plant heddiw.<sup>22</sup>

I grynhoi, y mae Elin Meek wedi ystyried yr enwau cyfarch a ddefnyddir gan gymeriadau yn ogystal â normau cymdeithasol er mwyn sicrhau’r defnydd cywir a phriodol o ragenwau cyfarch a berfau.

## **5.4 Arddull**

Canolbwyntir yn awr ar y nodweddion arddull sydd bwysicaf yn fy marn i, sef geirfa benodol, elfennau clywedol, a geiriau sarhaus.

### **5.4.1 Geirfa**

Adroddir straeon Jacqueline Wilson gan gymeriadau ifanc, benywaidd sy’n byw yn y byd cyfoes. Y mae’r awdur yn ysgrifennu mewn cywair anffurfiol a llafar i adlewyrchu iaith plant heddiw gan ddefnyddio geiriau anffurfiol, fel y gwelir yn y tabl isod:

---

<sup>22</sup> Dyma’r arfer mewn nofelau eraill i blant y cyfnod yn ogystal. Yn yr addasiad *Y Clwb Cysgu Cŵl: Ar Garlam*, gan Siân Lewis, er enghraifft, dywed Meleri mewn llythyr at ei mam: ‘Rwyt ti’n werth y byd’ (2002, t.39).

'No <b>nosh</b> ' (Wilson 2000, t.110)	'Dim <b>bwyd</b> ' (Meek 2011, t.163)
'I run on, bumping into <b>folk</b> ' (Wilson 2000, t.33)	'Dwi'n dal i redeg, gan fwrw i mewn i <b>bol</b> ' (Meek 2011, t.35)
'she <b>whips</b> out her felt pen' (Wilson 2000, t.9)	'gan <b>dynnu</b> ei phen ffelt allan' (Meek 2011, t.11)
' <b>tossing</b> her hair' (Wilson 2000, t.8)	'gan <b>daflu</b> ei phen' (Meek 2011, t.11)
'Shame she can't <b>toss</b> ...' (Wilson 2000, t.110)	'Trueni na all hi <b>daflu</b> ...' (Meek 2011, t.163)

Sylwer ar y gwahaniaeth yn ffurfioldeb yr eirfa. Gwelir bod y Gymraeg yn methu â chyfleu anffurfioldeb y gwreiddiol. Nid bai ar yr addasydd yw hyn yn llwyr, ond y mae diffyg geirfa anffurfiol mewn rhai cyd-destunau yn y Gymraeg yn golygu nad yw'r addasydd yn gallu trosglwyddo effaith y gwreiddiol. Er enghraifft, ceir sawl gair am 'food' yn y Saesneg, megis 'nosh' neu 'grub', yn wahanol i'r Gymraeg. Ffurf ansafonol o 'bwyd' yw 'nosh' (Collins 2004, t.575), fodd bynnag, nid yw defnyddio'r gair 'bwyd' yn cyfleu'r un anffurfioldeb; gair niwtral ydyw a ddefnyddir ym mhob sefyllfa gymdeithasol. Yn yr un modd y ceir nifer o eiriau am 'food' yn Saesneg, y mae mwy nag un gair am 'people' sy'n amrywio o ran eu ffurfioldeb. Yn *Vicky Angel*, fel y dengys y tabl uchod, defnyddia Wilson y gair anffurfiol ac ansafonol 'folk'. Serch hynny, nid yw'r gair 'pobl' yn y Gymraeg yn cyfleu'r un anffurfioldeb am mai gair niwtral ydyw. Yn fy marn i, gellid bod wedi defnyddio 'pobol'. Dyma'r ffurf lafar ac anffurfiol ar 'pobl' sydd, gellir awgrymu, yn gyfarwydd i bawb (fe'i defnyddir yn enw'r rhaglen deledu *Pobol y Cwm*). Byddai hyn wedi sicrhau cywerthedd dynamig o safbwynt anffurfioldeb yr eirfa.

Ceir hefyd anffurfioldeb yn y defnydd o'r berfenw 'whips' yn hytrach na 'takes [out]' neu 'brings [out]'. Serch hynny, mae'r Gymraeg yn creu naws niwtral nad yw'n bodoli yn y Saesneg gyda'r defnydd o'r ferf 'tynnu'. Yn yr un modd, defnyddir 'tossing' a 'toss' mewn sefyllfaoedd anffurfiol (Collins 2004, t.908) ond nid yw 'taflu' yn cyfleu'r un anffurfioldeb. I raddau, ceir enghraifft o'r addasydd yn methu â bod yn fentrus wrth addasu a'r canlyniad yw bod y darn Cymraeg yn fwy ffurfiol na'r Saesneg. Yn fy marn i, byddai cynnwys geiriau tafodieithol wedi cadw anffurfioldeb y nofel Saesneg. Gellid bod wedi cynnwys geiriau o

dafodiaith y gorllewin (tafodiaith naturiol Elin Meek) yn lle'r geiriau safonol, er enghraifft, 'towlu' yn hytrach na 'taflu' neu 'wpo' yn lle 'tynnu allan'. Y mae problemau ynglŷn â defnyddio tafodiaith gref gan ei bod yn dieithrio rhai darllenwyr ond eto, yn fy nhyb i, ni fyddai cynnwys rhai geiriau o dafodiaith arbennig yn cynnig gormod o her i ddarllenwyr sy'n siarad tafodieithoedd eraill.

#### 5.4.2 Elfennau Clywedol

'Repetition, rhyme, onomatopoeia, wordplay and nonsense are all common features of children's texts and require a linguistic creativity that is a challenge to any translator' (Lathey 2006, t.10). Y mae elfennau clywedol mewn nofel yn hanfodol bwysig i blant sy'n parhau i ddysgu am bŵer a dylanwad iaith (Lathey 2006, t.10) ac felly y mae angen i gyfieithydd fod yn ddyfeisgar wrth ail-greu effeithiau llenyddol sy'n ddibynnol ar sŵn geiriau o un iaith i'r llall. Defnyddia Jacqueline Wilson iaith lafar a thechnegau megis cyflythreniad a geiriau wedi eu dyfeisio yn aml yn ei gwaith. A lwydda Elin Meek i gadw effaith ac ystyr y gwreiddiol, neu a gollir elfennau yn yr addasiad Cymraeg?

Gellid dadlau bod plant yn mwynhau darllen geiriau wedi'u dyfeisio ac yn canfod difyrrwch ynddynt. Yn *Vicky Angel*, gelwir Fatboy Sam yn 'Nosy old Wobbleguts' (Wilson 2000, t.88) gan Vicky. Enw nonsens yw 'Wobbleguts', sef cyfuniad o'r ddau air 'wobble' a 'guts'. Fel y nodir yng ngeiriadur Collins, y mae 'guts' yn air slang am y stumog (2004, t.376), ac mae'r ferf 'wobble' yn disgrifio rhywbeth sy'n siglo neu'n crynu (2004, t.991). Ceir delwedd felly o berson tew gyda bol mawr. Y mae 'wobble' hefyd yn air onomatopoeig, sef gair sy'n dynwared ei ystyr, ac yn adeiladu ar y ddelwedd o fol yn siglo neu'n crynu. Y mae'n anodd cyfieithu geiriau nonsens neu eiriau wedi eu dyfeisio yn aml. Yn y Gymraeg,

penderfynwyd ar ‘y bustach busneslyd’ (Meek 2011, t.128). Y mae bustach yn anifail mawr a chryf, yn debyg i fuwch. Er y collir yr elfen onomatopoeig a’r digrifwch yn y gair nonsens, cedwir yr un ddelwedd o berson mawr a thew a cheir cyflythreniad gyda’r llythyren ‘b’. Dyma ateb llwyddiannus i her cyfieithu enw nonsens yn fy marn i. Y mae cyfnewid techneg glywedol am un arall yn sicrhau bod mwynhad plant o glywed sŵn geiriau yn cael ei ddiogelu.

Yn ogystal â geiriau wedi eu dyfeisio, ceir defnydd o gyflythreniad gan Jacqueline Wilson yn ei nofel. Ceir enghraifft o lwyddiant cyflythrennu yn y dyfyniad canlynol: ‘Straight up in the sky, then swoop’ (Wilson 2000, t.52). Yn y Gymraeg, ceir: ‘I fyny fry i’r awyr, yna i lawr â fi’ (Meek 2011, t.72). Felly, cedwir ystyr y dyfyniad Saesneg a’r cyflythrennu yn y Gymraeg.

### **5.4.3 Geiriau Sarhaus**

Mae geiriau sarhaus yn peri her i gyfieithwyr ac addaswyr am fod geiriau o’r fath yn neilltuol i iaith benodol. Defnyddir amryw o eiriau sarhaus gan gymeriadau yn *Vicky Angel*, yn arbennig gan Vicky ar Fat Sam, ac yn benodol ynglŷn â’i ordewdra. Yn ogystal â’i alw’n ‘Nosy old Wobbleguts’ (Wilson 2000, t.88) fel y trafodwyd eisoes, dywed Vicky wrth Jade, ‘Get rid of that creep’ (Wilson 2000, t.87) amdano. Defnyddir ‘creep’ i ddisgrifio person annymunol ac od (Collins 2004, t.192). Ffordd i gyfleu personoliaeth a chymeriad byrbwyll a chas Vicky ydyw. Yn y testun targed, cedwir yr atgasedd i raddau wrth i Lowri ddweud wrth Cara, ‘[m]ae’n rhaid i ti gael gwared arno fe!’ (Meek 2011, t.126), fodd bynnag, ni ddefnyddir gair sarhaus cyfatebol Cymraeg. Yn fy marn i, byddai ychwanegu sarhad megis



‘mochyn’ wedi creu darn mwy llwyddiannus a fyddai wedi atgynhyrchu agwedd gas Vicky yn llwyr.

Yn yr un modd, sylwer ar y ddau ddyfyniad canlynol o’r nofel Saesneg a’r addasiad Cymraeg. Dywed mam Jade/Cara am ei merch:

‘It was Vicky always copying off our Jade. She did all her homework for her. I always used to think she was <b>a right little mug</b> ’ (Wilson 2000, t.100; fy mhwyslais i).	‘Lowri oedd yn copïo gwaith Cara drwy’r amser. Roedd hi’n gwneud ei gwaith cartref i gyd drosti. Ro’n i bob amser yn meddwl <b>nad oedd siâp arni</b> ’ (Meek 2011, t.146; fy mhwyslais i).
---	---

Y mae’n amlwg o’r nofel Saesneg nad oedd mam Jade yn gweld llygad yn llygad â Vicky, gan roi bai arni am gymryd mantais o Jade. Y mae ‘mug’ yn enw sarhaus poblogaidd yn y Saesneg, fel y nodir yn y drafodaeth ar *Harry Potter*. Ei ystyr yw ‘a gullible person, esp[ecially] one who is swindled easy’ (Collins 2004, t.555). Fe’i defnyddir fel sarhad cyffredin, yn debyg i ‘idiot’. Eto, er bod Elin Meek wedi dewis ymadrodd naturiol i’r Gymraeg, nid yw’n cyfleu’r un sarhad. Gellid bod wedi defnyddio ‘twpsen’ neu ‘ffw l’ a fyddai wedi cyfleu effaith sarhaus y wreiddiol.

## 5.5 Casgliad

Gwelir felly fod amryw o nodweddion yn y nofel Saesneg sydd yn her arbennig i’r addasydd, megis enwau priod a chyfeiriadau diwylliannol. Y mae’r addasydd wedi ystyried gwybodaeth a phrofiadau personol y gynulleidfa darged i greu darn o lenyddiaeth y gall plant uniaethu ag ef. Yn wir, mewn cyfweliad, eglurodd Meek mai ei nod wrth drosi o un iaith i’r llall yw ‘addasu’r testun yn hytrach na’i gyfieithu’, gan newid lleoliadau ar adegau ‘er mwyn eu gwneud yn fwy cyfarwydd i ddarllenwyr Cymraeg’ (Davies 2007). Yn *Lowri Angel*, newidir enwau Saesneg anghyfarwydd megis ‘Rita’ a ‘Dewhurst’ i enwau mwy cyfoes a

chyfarwydd, sef 'Sara' a 'Davies', ac adleolir y stori yn ogystal ym mhrifddinas Cymru. Y strategaeth fwyaf cyffredin wrth drosi enwau priod yw eu domestigeiddio. Caiff 73% o holl enwau'r cymeriadau eu domestigeiddio a domestigeiddir 89% o enwau lleoedd. Defnyddia Elin Meek amryw o strategaethau wrth ymdrin ag eitemau diwylliannol. Y strategaeth fwyaf cyffredin wrth drosi cyfeiriadau diwylliannol yw eu hatgynhyrchu (12 gwaith). Atgynhyrchir cyfeiriadau diwylliannol megis y cwmni trin gwallt Toni and Guy, y siop Evans Outsize a McDonald's. Yr ail strategaeth fwyaf poblogaidd yw dileu (10 gwaith), a defnyddir hyn yn arbennig pan fo gwrthdaro ideoleg yn codi rhwng diwylliant y testun ffynhonnell a diwylliant y testun targed, er enghraifft dilëir enw Diana a'r sioe Miss World. Er bod plant yn mwynhau darllen a chlywed cyfeiriadau at bethau maent yn eu hoffi ac yn gyfarwydd â hwy, y mae angen cofio pa mor gyflym y gall poblogrwydd awduron/ffilmiau/bandiau ddyddio, felly, gall dileu cyfeiriadau sicrhau bod y cyfieithiad neu'r addasiad yn parhau'n fwy cyfoes na'r testun ffynhonnell. Domestigeiddio yw'r drydedd strategaeth fwyaf poblogaidd. Defnyddir hi bedair gwaith, yn arbennig pan fo cyfatebiaeth yn bodoli yn y diwylliant targed (er enghraifft, cyfnewidir *Romeo and Juliet* am *Blodeuwedd*). Yr effaith, felly, yw lleihau dylanwad y diwylliant Seisnig ac Americanaidd yn y nofel a chynyddu dylanwad y diwylliant Cymreig. Yn anffodus, nid yw'r penderfyniadau i gyd yn llwyddiannus. A yw Matthew Rhys, er enghraifft, yr un mor enwog â George Clooney?

Y mae llenyddiaeth plant yn fodd nid yn unig i ddysgu plant i ddarllen, ond yn fodd i'w dysgu am werthoedd y gymdeithas:

What we call children's literature is an invention of adults who need to have something to write about... something to help them construct a vision of the way things are and ought to be so that the present generation and more importantly, the next generation will behave according to standards those adults who write children's books and publish them feel comfortable with. (Rod McGillis yn Zipes 2002, t.65)

Y mae plant Cymru o dan ddylanwad y diwylliant Eingl-Americanaidd a'r iaith Saesneg yn gyson. Caiff plant Cymru eu boddi gan ffilmiau, rhaglenni teledu a chantorion o'r byd Eingl-Americanaidd. Trwy gynnig llenyddiaeth iddynt sydd wedi'i domestigeiddio i'r diwylliant Cymraeg neu sy'n dileu cyfeiriadau o'r diwylliant Seisnig ac Americanaidd, ceir cyfle i chwistrellu ychydig o ddiwylliant Cymraeg i'w bywydau, lle nad yw'n bosibl bob tro yn y byd go-iawn. Dyma, yn fy marn i, strategaeth lwyddiannus iawn gan Elin Meek o ystyried *skopos* yr addasiad.

## Pennod 6

### Rhoi'r Theori ar Waith

Byddaf yn awr yn mynd ati i gyfieithu tair pennod o'r nofel *Mulla Nasruddin* gan Sampurna Chattarji mewn dwy ffordd — drwy gadw'n agos at y testun ffynhonnell a thrwy ei ddomestigeiddio. Ar ôl cyflwyno'r cyfieithiadau, byddaf yn cynnig dadansoddiad o'm penderfyniadau.

Stori am Shashank, bachgen ifanc 13 oed o'r India a gollodd ei dad mewn ffrwydrad trên ym Mumbai, yw *Mulla Nasruddin*. Ar ddechrau'r stori, nid yw Shashank yn gallu canolbwyntio ar ei waith cartref mathemateg, a daw dwdl o wŷr byr yn gwisgo tyrban a barf yn fyw o flaen ei lygaid. Myla Nasruddin yw'r gŵr byr hwnnw a daw'r ddau yn ffrindiau wrth iddo adrodd straeon digrif a doniol am ei fywyd wrth y bachgen.

Penderfynais drosi rhan o'r nofel gan Sampurna Chattarji, awdures o'r India, mewn dwy ffordd wahanol: yn gyntaf drwy lynu'n agos at y testun Saesneg, o ran y cynnwys a'r strwythur gramadegol, ac yn ail drwy gyfieithu'n ddiwylliannol (domestigeiddio'r testun), hynny yw adleoli'r testun yng Nghymru. Dewisais drosi'r tair pennod gyntaf yn y ddwy ffordd er mwyn deall a yw cyfieithu drwy ddilyn un dull yn anos na'r llall, a beth yw'r heriau gwahanol sy'n wynebu cyfieithydd wrth drosi testun yn y naill ffordd a'r llall.

Pam, felly, y penderfynais drosi'r nofel hon yn benodol? Mynychais weithdy yn Nhŷ Newydd yn Llanystumdwy ym mis Mawrth 2012 ar gyfieithu llenyddiaeth plant ble yr oedd Sampurna Chattarji ac awduron eraill o dramor ac o Gymru yn siarad am eu gwaith. Cawsom gyfle i holi'r awdures am ei nofel *Mulla Nasruddin*, megis arwyddocâd enwau'r cymeriadau, yr ysbrydoliaeth am ei nofel, a'r darluniau. O ganlyniad i'r wybodaeth ychwanegol a ddysgais am y nofel a'r awdures, penderfynais ddewis ei nofel hi i'w chyfieithu. Yr ail

reswm pam y penderfynais gyfieithu'r nofel benodol hon yw oherwydd ei bod mor wahanol i'r hyn a geir fel arfer yn y Gymraeg. Y duedd wrth gyfieithu nofelau plant i'r Gymraeg yw dewis nofelau sydd eisoes yn boblogaidd yn y Saesneg (sydd gan amlaf yn straeon o Loegr). Teimlais felly y byddai'n ddi-ddorol gweld yr heriau arbennig sy'n codi wrth gyfieithu nofel o ddiwylliant anghyfarwydd a sut y gellid mynd i'r afael â hwy. Rheswm arall pam y dewisais y nofel hon yw o ganlyniad i'r darluniau ynddi. Rwyf eisoes wedi sôn yn y traethawd hwn (tt.17–20) am bwysigrwydd darluniau mewn nofelau i blant a'r angen i sicrhau bod y testun a'r darluniau'n cyd-fynd. Wrth ddomestigeiddio testun, y mae angen sicrhau bod darluniau newydd yn cael eu comisiynu er mwyn sicrhau nad oes anghysondebau'n codi rhwng y testun newydd a'r darluniau. Sonnir ymhellach am hyn yn fy nhräfodaeth ar addasu'r testun.

Cyn penderfynu sut i drosi'r tair pennod, roedd yn rhaid imi ystyried pwy yw'r gynulleidfa darged. Noda'r awdures fod y nofel wedi'i hanelu at blant rhwng 9 ac 11 oed. Y mae'r nofel hefyd yn addas i blant hŷn am fod gofyn am wybodaeth ychwanegol, megis beth a phwy yw Mulla a'r Pallavas. Trafodir hefyd bynciau difrifol megis marwolaeth rhiant a therfysgaeth sy'n gweddu i ddealltwriaeth plant hŷn ac oedolion. Mae'n rhaid imi gyfaddef i minnau fwynhau darllen y nofel, sy'n dangos bod yr awdures wedi ystyried mwynhad yr oedolyn yn ogystal â'r plentyn. Y mae nofelau plant yn aml yn cael eu darllen yn uchel gan oedolion; cynulleidfa ddeuol, felly, sydd gan lenyddiaeth plant. Ceir amryw o rannau ym *Mulla Nasruddin* na fyddai plant, o bosibl, yn eu deall ond byddai oedolion yn canfod digrifwch ynddynt, megis y darn lle sonia'r awdures am y gân 'You Can Call Me Al' (2008, t.7). Er hyn, y peth pwysicaf oll oedd sicrhau bod y testun Cymraeg yn gweddu i ddealltwriaeth a phrofiadau'r gynulleidfa darged sef plant rhwng 9 ac 11 oed.

## 6.1 Cyfieithu'n agos

### Y Tyrban sy'n Siarad

#### Gwrthodwch weld pethau sydd ddim yno

Y tyrban a ddechreuodd yr holl beth. Roeddwn yn ceisio gwneud fy ngwaith cartref mathemateg pan ymddangosodd y tyrban. I ddechrau roeddwn yn meddwl mai bachyn cyrliog ydoedd. Ond na, tyrban ydoedd.

'Ewch i ffwrdd,' dywedais, 'peidiwch â fy styrbio'. Does dim syniad gennych chi gymaint y gall ymddangosiad tyrban heb gorff darfu arnoch, a hynny hefyd ar ganol gwaith cartref mathemateg.

Neidiodd y tyrban a diflannu. (Does dim syniad gennych chi gymaint y gall tyrban heb gorff sy'n *diflannu* ar ganol gwaith cartref mathemateg darfu arnoch). Treuliais weddill y noson yn edrych amdano ac o ganlyniad, ni chwblheais fy ngwaith cartref. Y diwrnod canlynol yn y dosbarth, gwnaeth yr athrawes fachyn cyrliog o'm clust.

Penderfynais mai dim ond un canlyniad sydd yn bosibl os ydych yn gweld pethau — canlyniad DRWG. O'r diwrnod hwnnw, penderfynais y byddwn yn gwrthod gweld pethau sydd ddim yno.

## Codi dyrnau yn yr awyr

Y tro nesaf iddo ymddangos, roedd wedi tyfu barf. Barf daclus oedd hi, wedi'i chribo yn farf bigfain, ac yn hofran yn yr awyr uwch ei phen yr oedd y tyrban. Yr un tyrban oedd ef, dim amheuaeth ynglŷn â hynny.

'O na,' ochneidiais, er fy mod yn falch mewn gwirionedd, 'dim eto! Roedd yn ddigon drwg y tro diwethaf. Ewch i ffwrdd a dewch nôl pan ydych chi'n gyflawn!'

Siglodd y farf fel petai'n cael ei thaflu yn yr awyr gan ên anweledig. Y math o weithred a fyddai'n cyd-fynd â'r sŵn hen ffasiwn a wneir gan athrawesau cartref mewn nofelau Saesneg pan ddywedant Hmmph!

'Na, syr, hmmph i *chi*,' dywedais wrth fy llyfr Bioleg, a oedd wedi'i agor ar y dudalen yn cynnwys diagram o galon. 'Oni welwch fy mod yn astudio? Symudwch o'r fentrigl chwith!'

Yr eiliad honno, rhoddodd fy mam ei phen heibio i'r drws. Yn naturiol, credai ei bod yn beth annaturiol i'w mab fod yn siarad â'i lyfr Bioleg, felly aeth â fi ar frys at y meddyg a wasgodd yn galed ar fy mynwes (gallaswn fod wedi dweud wrtho nad oeddwn yn siarad â'm mynwes) a dywedodd fy mod yn hollol iawn (gallaswn fod wedi dweud hynny wrtho hefyd) a rhoddodd bresgripsiwn imi ar gyfer y moddion Sat Isabgol (ar gyfer y rhwymedd) i'w gymryd bob dydd (a gododd gywilydd mawr arnaf).

'Arhoswch chi!' meddyliais, gan godi dyrnau yn yr awyr ar y tyrban nad oedd yn bodoli, ac ar yr un pryd yn llyncu'r moddion trwchus. 'Arhoswch chi!'

## Galwa fi'n Al

Yn y pen draw, fi oedd yn rhaid aros. Nid ymddangosodd y tyrban cyfrwys eto am ddiwrnodau. 'Rhoddais fraw ichi, dwi'n tybio?' a hynny'n fêl ar fy mysedd, gan geisio peidio ag ymddangos yn rhy ddigalon. 'Eitha reit â chi! Cas gan gi y gath a'i bratho, ac yn y blaen.'

Byddwn efallai wedi dechrau credu fy nghelwyddau fy hunan pe na bai wedi dod i'r golwg — y tyrban, y farf a rhacs yn llusgo ar ei ôl lle y dylai traed y tyrban fod yn sefyll.

*Nid rhacs, twpsyn, ond ryg.*

Ar fy llw, dyna a ddywedodd y tyrban heb gorff. '*Nid rhacs, twpsyn, ond ryg*'. Pe na bawn wedi diflasu'n llwyr yn dysgu hen hanes yr India ac yn ceisio (yn ofer) i gofio dyddiadau, byddwn wedi cau fy nghlustiau a'm llygaid unwaith ac am byth. Ond pwy all beidio ag anwybyddu llais heb gorff yn codi o dudalen sy'n sôn am y Pallavas, hen deulu brenhinol o'r India? A hwnnw'n llais cyfoethog a chryf.

'Pa fath o ryg?' gofynnais. Does dim o'i le mewn bod yn gwrtais. Ymwelydd oedd ef wedi'r cyfan (pa wahaniaeth na roddais wahoddiad iddo a hefyd ei fod yn anweledig).

*Ryng o Bersia, dym-dym. Oni wyddost ti unrhyw beth?*

Dylwn fod wedi dweud wrtho ei fod yn siarad drwy ei dyrban a'i anfon i ffwrdd. Heb ei wahodd, yn anweledig AC yn anfoesgar. Yn hytrach, syllais ar yr hyn y sylwais a *oedd* yn ryg mewn gwirionedd, ac o bosibl yn garped gyda phatrymau hyfryd, cywrain arno. Roedd y corff anweledig yn sefyll, fel petai, ar un pen o'r ryg. Ble'r oedd y pen arall? Beth oedd yn digwydd?

Sgwiglodd y dwdl, oherwydd roedd yn edrych fel dwdl wedi'i greu gyda phin ysgrifennu inc du tenau, a dywedodd, *Wel, wyt ti'n mynd i ddweud unrhyw beth neu wyt ti'n disgwyl i fi siarad dros y ddau ohonom?*



‘Haaa!’ wfftiais. ‘Pryd roesoch chi gyfle i mi? A beth bynnag, oni wyddoch chi nad yw bechgyn da yn siarad â dieithriaid?’

*Ac oni wyddost ti, a dwi’n amau hynny, fel dwi’n amau nad wyt yn fachgen da, po fwyaf rwyf ti’n siarad â dieithriaid, lleiaf dieithr y dônt?*

‘O ewch i ffwrdd,’ dywedais, ‘peidiwch â cheisio fy nrysu’n llwyr. Dwi’n rhy glyfar o bell ffordd!’

*O ho! Yn glyfar ac yn dda! Mae hyn yn galw am fy nghorff cyfan i fod yma! Ie’n wir!*

A chyn i mi allu dweud ‘stop’ neu ‘Sravanabelagola’ neu ‘be-ti’n-galw’, ymddangosodd dwy droed mewn esgidiau cyrliog, ac yn codi fel bakŵn ac al lan ohonynt daeth corff crwn fel pêl yn union fel y llais heb gorff, yna ymwithodd dwylo allan o lewys y gŵn, yna gwddf bychan ac yna wyneb gyda llygaid sgleiniog a thrwyn mor siarp â’r olwg yn y llygaid. Siglodd y farf, a oedd wedi bod yn bresennol yr holl amser, yn llawen, fel petai’n croesawu’n ôl yr elfennau roedd wedi gweld eu heisiau cymaint.

*Wel, dwed helo, neu ai dyna rywbeth arall nad yw bechgyn da yn ei wneud?*

‘Helo, a pheidiwch â fy ngalw’n fachgen da,’ dywedais, gan deimlo trueni na allwn guddio fy mhleser wrth weld ymddangosiad terfynol a chyflawn y dwdl oedd yn mynd a dod. Doeddwn i ddim eisiau i’r dyn (o’r diwedd gallwn beidio â’i alw’n ‘dyrban’) fod yn fwy hunandybus nag ydoedd yn barod. ‘Shashank ydw i ond gallwch chi fy ngalw’n Hank neu Shanky neu hyd yn oed S’.

*Os felly, galwa fi’n Al.*

‘Al?’ Pa fath o enw oedd hwnnw ar y dyn bach hwn gyda’i dyrban?

*Dim ots, enw mewn cân boblogaidd o’r cyfnod i yw e. Dwi’n tybio dy fod yn rhy ifanc i wybod amdani. Dyna ddigon o drafod manion dibwys — Nasruddin ydw i. Myla Nasruddin, ond gelli di fy ngalw’n Hodja, neu unrhyw beth arall.*

Myla Nasruddin? Roeddwn i'n meddwl bod mylahod yn ddynion dychrynlyd yn cario gynau. Nid y gŵr bychan hwn gyda'r farf sy'n siglo a llygaid sy'n cuddio gwên. Ond rwy'n fachgen cwrtais.

'Pleser cael cwrdd â chi, Myla Nasruddin,' dywedais, 'dwi'n credu y gwnaf eich galw'n MN, os yw hynny'n iawn.'

*O'r gorau, S. Dwi'n hoffi'r ffurf fer, y dyn bach, y jôcs byr.*

A dyma fe'n chwyrliô ac ymbincio ar ymyl y carped Persiaidd fel petai i ddangos pa mor fyr ydoedd. Wel, nid cawr ydw i ychwaith. O un dyn bychan i un arall. Roeddwn yn teimlo fel ysgwyd ei law.

*Beth oeddet ti'n ei ddweud dan dy wynt beth bynnag?*

'Hanes,' dywedais. 'Dwi methu ei oddef! Yr holl Frenhinoedd wedi marw. A dyddiad ar ôl dyddiad'.

*Beth?*

'Dyddiadau. Dêts!'

*A beth yw'r broblem gyda dêts? Minnau, dwi'n dwlu arnynt. Rai diwrnodau yn ôl, prynais lond dwrn ohonynt o werthwr sy'n honni mai ei ddêts ef yw'r rhai mwyaf meddal a blasus yn y dref. Mae e'n honni mai ei brisiau a'i gynnyrch ef yw'r gorau. Felly gofynnais iddo,*

*'Gyfaill, beth sydd mor dda am eich prisiau?' 'Y pris yn cynnwys popeth, syr,' dywedodd wrthyf, 'dim costau ychwanegol'. Felly prynais y dêts, es i adref a dechreuais eu bwyta. Mae fy ngwraig — paid â synnu, mae'n rhaid imi gyfaddef fod gennyf un — yn fenyw sylwgar.*

*'Myla,' meddai, achos dyna beth mae hi'n fy ngalw, 'beth sydd o'i le ar yr hadau? Pam nad wyt ti'n eu rhoi ar blât fel dyn normal yn lle eu rhoi yn dy boced? Fi fydd yn gorfod golchi'r boced, nid ti.'* 'O! paid â ffysan,' dywedais, 'dydw i ddim yn mynd i daflu yr hyn dwi wedi ei brynu. Y pris yn cynnwys popeth, dywedodd ef, felly telais am yr hadau yn ogystal â'r dêts.

*Wedi talu amdanynt gydag arian da! Os wyf am eu cadw, fe'u cadwaf, os wyf am eu taflu*

*allan, fe'u taflaf allan. Am nawr, dwi am eu cadw. Hapus?' Ac fe wnes i barhau i fwyta'r dêts a chadw'r hadau yn fy mhoced!*

Roedd MN ar ben ei ddigon gyda'i araith fer. Syllais arno. Roedd e'n wirion bost. Am beth roedd e'n sôn? Dêts? Hadau? Beth oedd y cysylltiad â hanes?

*Cred di fi, does dim hwyl i'w gael gyda dêts heb hadau...*

Ac mewn chwinciad, diflannodd MN.

Mae'n rhyfedd, ac ar fy llw, dwi ddim yn rhaffu celwyddau, tra roeddwn yn syllu ar y man lle safai MN ddwy eiliad yn ôl, gyda'i farf a'i rÿg ac ati, daeth llinell i'm cof:

HEN HANES YW DÊTS HEB HADAU.

Dywedais hynny wrthyf fy hun ddwywaith, deirgwaith, ac yna fe'i hysgrifennais i lawr.

Mwya'n y byd roeddwn yn edrych arno, mwyaf o awydd oedd gennyf i chwerthin. Roedd e'n llygad ei le, does dim hwyl i'w gael gyda dêts heb hadau. O hyn ymlaen, ni fyddwn yn gallu edrych ar unrhyw ddyddiad mewn hanes heb feddwl am hadau.

## 6.2 Cyfieithu'n Ddiwylliannol (Domestigeiddio/Addasu)

### Lewis y Glöwr a Siôn

#### Gwrthodwch weld pethau sydd ddim yno

Y cap fflat a ddechreuodd yr holl beth. Roeddwn yn ceisio gwneud fy ngwaith cartref Cymraeg pan ymddangosodd y cap. I ddechrau roeddwn yn meddwl mai soser ydoedd. Ond na, cap fflat ydoedd.

'Ewch i ffwrdd,' dywedais, 'peidiwch â fy styrbio'. Does dim syniad gennych chi gymaint y gall ymddangosiad cap fflat heb gorff darfu arnoch, a hynny hefyd ar ganol gwaith cartref Cymraeg.

Neidiodd y cap a diflannu. (Does dim syniad gennych chi gymaint y gall cap heb gorff sy'n *diflannu* ar ganol gwaith cartref Cymraeg darfu arnoch). Treuliais weddill y noson yn edrych amdano ac o ganlyniad, ni chwblheais fy ngwaith cartref. Y diwrnod canlynol yn y dosbarth, fel cosb, treuliais amser cinio yn dysgu cerddi Waldo Williams yn lle chwarae rygbi ar yr iard.

Penderfynais mai dim ond un canlyniad sydd yn bosibl os ydych yn gweld pethau — canlyniad DRWG. O'r diwrnod hwnnw, penderfynais y byddwn yn gwrthod gweld pethau sydd ddim yno.

## Codi dyrnau yn yr awyr

Y tro nesaf iddo ymddangos, roedd wedi tyfu mwstas. Mwstas taclus oedd ef ac yn hofran yn yr awyr uwch ei ben yr oedd y cap fflat. Yr un cap oedd ef, dim amheuaeth yngŷn â hynny.

‘O na,’ ochneidiais, er fy mod yn falch mewn gwirionedd, ‘dim eto! Roedd yn ddigon drwg y tro diwethaf. Ewch i ffwrdd a dewch nôl pan ydych chi’n gyflawn!’

Siglodd y mwstas fel petai’n cael ei daflu yn yr awyr gan ên anweledig. Y math o weithred a fyddai’n cyd-fynd â’r sŵn hen ffasiwn a wneir gan brifathrawon mewn nofelau Cymraeg pan ddywedant och a gwae!

‘Na, syr, och a gwae i *chi*,’ dywedais wrth fy llyfr Bioleg, a oedd wedi’i agor ar y dudalen yn cynnwys diagram o galon. ‘Oni welwch fy mod yn astudio? Symudwch o’r fentrigl chwith!’

Yr eiliad honno, rhoddodd fy mam ei phen heibio i’r drws. Yn naturiol, credai ei bod yn beth annaturiol i’w mab fod yn siarad â’i lyfr Bioleg, felly aeth â fi ar frys at y meddyg a wasgodd yn galed ar fy mynwes (gallaswn fod wedi dweud wrtho nad oeddwn yn siarad â’ m mynwes). Dywedodd fy mod yn hollol iawn (gallaswn fod wedi dweud hynny wrtho hefyd) a rhoddodd bresgripsiwn imi ar gyfer DulcoEase i’w gymryd dair gwaith y diwrnod (a gododd gywilydd mawr arnaf).

‘Arhoswch chi!’ meddyliais, gan godi dyrnau yn yr awyr ar y cap nad oedd yn bodoli, ac ar yr un pryd yn llyncu’r tabledi afiach. ‘Arhoswch chi!’

## Galwa fi'n Dic Siôn Dafydd

Yn y pen draw, fi oedd yn rhaid aros. Nid ymddangosodd y cap cyfrwys eto am ddiwrnodau. 'Rhoddais fraw ichi, dwi'n tybio?' a hynny'n fêl ar fy mysedd, gan geisio peidio ag ymddangos yn rhy ddigalon. 'Eitha reit â chi! Cas gan gi y gath a'i bratho, ac yn y blaen.'

Byddwn efallai wedi dechrau credu fy nghelwyddau fy hunan pe na bai wedi dod i'r golwg — y cap, y mwstas a sach datws yn llusgo ar ei ôl lle y dylai traed y cap fod yn sefyll.

*Nid sach datws, twpsyn, ond sach lo.*

Ar fy llw, dyna a ddywedodd y cap heb gorff. '*Nid sach datws, twpsyn, ond sach lo*'. Pe na bawn wedi diflasu'n llwyr yn dysgu hen hanes Cymru ac yn ceisio (yn ofer) i gofio dyddiadau, byddwn wedi cau fy nghlustiau a'm llygaid unwaith ac am byth. Ond pwy all beidio ag anwybyddu llais heb gorff yn codi o lyfr *Hanes Cymru* John Davies? A hwnnw'n llais cyfoethog a chryf.

'Glo o ble?' gofynnais. Does dim o'i le mewn bod yn gwrtais. Ymwelydd oedd ef wedi'r cyfan (pa wahaniaeth na roddais wahoddiad iddo a hefyd ei fod yn anweledig).

*Glo o'r Cymoedd. Ti'n gwbod dim, fachan!*

Dylwn fod wedi dweud wrtho ei fod yn siarad drwy ei gap a'i anfon i ffwrdd. Heb ei wahodd, yn anweledig AC yn anfoesgar. Yn hytrach, syllais ar yr hyn y sylwais a *oedd* yn sach lo mewn gwirionedd, a honno'n sach fudr a du. Roedd y corff anweledig yn sefyll, fel petai, ar un pen o'r sach. Ble oedd y pen arall? Beth oedd yn digwydd?

Sgwiglodd y dwdl, oherwydd roedd yn edrych fel dwdl wedi'i greu gyda phin ysgrifennu inc du tenau, a dywedodd, *Wel, dwed rywbeth neu wyt ti'n dishgwl i fi siarad dros y ddau ohonon ni?*

'Haaa!' wfftiais. 'Pryd roesoch chi gyfle i mi? A beth bynnag, oni wyddoch chi nad yw bechgyn da yn siarad â dieithriaid?'

*Ac oni wyddost ti, a dwi'n amau hynny, fel dwi'n amau nad wyt yn fachgen da, po fwyaf  
rwyf ti'n siarad â dieithriaid, lleiaf dieithr y dônt?*

'O ewch i ffwrdd,' dywedais, 'peidiwch â cheisio fy nrysu'n llwyr. Dwi'n rhy glyfar o bell  
ffordd!'

*O ho! Yn glyfar ac yn dda! Ma' hyn yn galw am fy nghorff cyfan i fod yma! Ie'n wir!*

A chyn i mi allu dweud 'stop' neu 'Abercwmsgwt' neu 'be-ti'n-galw', ymddangosodd  
dwy droed mewn esgidiau mawr du ac yn codi fel balŵn ac allan ohonynt daeth corff crwn ar  
siâp teisen gri yn union fel y llais heb gorff. Yna ymwithodd dwylo allan o lewys y siaced,  
yna gwddf bychan ac yna wyneb gyda llygaid sgleiniog a thrwyn mor siarp â'r olwg yn y  
llygaid. Siglodd y cap, a oedd wedi bod yn bresennol yr holl amser, yn llawen, fel petai'n  
croesawu'n ôl yr elfennau roedd wedi gweld eu heisiau cymaint.

*Wel, dwed shw mae, fachan. Neu ai dyna rywbeth arall dyw bechgyn da ddim yn ei  
wneud?*

'Shw mae, a pheidiwch â fy ngalw'n fachgen da,' dywedais, gan deimlo trueni na allwn  
guddio fy mhleser wrth weld ymddangosiad terfynol a chyflawn y dwdl oedd yn mynd a dod.  
Doeddwn i ddim eisiau i'r dyn (o'r diwedd gallwn beidio â'i alw'n 'gap') fod yn fwy  
hunandybus nag ydoedd yn barod. 'Siôn ydw i ond gallwch chi fy ngalw'n Sioni neu hyd yn  
oed S'.

*Os felly, galwa fi'n Dic Siôn Dafydd.*

'Dic Siôn Dafydd?' Pa fath o enw oedd hwnnw ar y dyn bach hwn gyda'i gap?

*Ti'n gwbod? Fel yng nghân Dafydd Iwan?*

*Er gwaetha pob Dic Siôn Dafydd  
Er gwaetha 'rhen Fagi a'i chriw...*

*Dyna ddigon o ganu — Lewis ydw i. Lewis y Glöwr, ond gelli di fy ngalw'n Saunders, neu  
unrhyw beth arall.*

Lewis y Glöwr? Roeddwn i'n meddwl bod glowyr yn ddynion mawr a chryf gyda chyhyrau. Nid y gŵr bychan hwn gyda'r mwstas sy'n siglo a llygaid sy'n cuddio gwên. Ond rwy'n fachgen cwrtais.

'Pleser cael cwrdd â chi, Lewis y Glöwr,' dywedais, 'dwi'n credu y gwnaf eich galw'n LG, os yw hynny'n iawn.'

*Océ, S. Dwi'n 'offi'r ffurf fer, y dyn bach, y jôcs byr.*

A dyma fe'n mynd ar ei gwrcwd ar ymyl y sach lo fel petai i ddangos pa mor fyr ydoedd. Wel, nid cawr ydw i ychwaith. O un dyn bychan i un arall. Roeddwn yn teimlo fel ysgwyd ei law.

*Be' oeddet ti'n dweud dan dy wynt be' bynnag?*

'Hanes,' dywedais. 'Dwi methu ei oddef! Yr holl Frenhinoedd wedi marw. A ffaith ar ôl ffaith'.

*Llaeth? A be' yw'r broblem gyda lla'th? Fi, dwi'n dwlu arno. Rai diwrnodau yn ôl, prynais dair potel o berchennog siop sy'n 'onni taw ei la'th ef yw'r mwyaf blasus yn y dref. Ma' fe'n 'onni taw ei brisiau a'i gynnyrch ef yw'r gorau. Felly gofynnais iddo, 'Byti, be' sy' mor dda am dy brisiau?' 'Y pris yn cynnwys popeth,' dywedodd wrthyf, 'dim costau ychwanegol'. Felly prynais y lla'th, es i adre a dechreuais ei yfed. Ma' fy ngwraig — paid â synnu, ma'n rhaid imi gyfaddef fod gennyf un — yn fenyw sylwgar. 'Lewis,' meddai, achos dyna be' ma' hi'n fy ngalw, 'pam yn y byd wyt ti'n cadw'r poteli? Pam nad wyt ti'n eu rhoi yn y bin ailgylchu fel dyn normal yn lle eu cadw yn dy sach? Fi fydd yn gorfod golchi'r sach, nid ti.' 'Duw Duw! paid â ffysan, fenyw,' dywedais, 'dydw i ddim yn mynd i daflu rhywbeth dwi wedi ei brynu. Y pris yn cynnwys popeth, dywedodd ef, felly fe delais am y poteli yn ogystal â'r lla'th. Wedi talu amdany'n nhw gydag arian da! Os ydw i am eu cadw, fe wnafe eu cadw, os ydw i am eu taflu mas, fe wnafe eu taflu mas. Am nawr, dwi am eu cadw. 'Apus?' Ac fe wnes i barhau i yfed y lla'th a chadw'r poteli yn fy sach!*



Roedd LG ar ben ei ddigon gyda'i araith fer. Syllais arno. Roedd e'n wirion bost. Am beth roedd e'n sôn? Llaeth? Poteli? Beth oedd y cysylltiad â hanes?

*Cred di fi, ma' lla'th 'eb botel yn llanast llwyr...*

Ac mewn chwinciad, diflannodd LG.

Mae'n rhyfedd, ac ar fy llw, dwi ddim yn rhaffu celwyddau, tra roeddwn yn syllu ar y man lle safai LG ddwy eiliad yn ôl, daeth llinell i'm cof:

HEN HANES YW HEN LAETH.

Dywedais hynny wrthyf fy hun ddwywaith, deirgwaith, ac yna fe'i hysgrifennais i lawr.

Mwya'n y byd roeddwn yn edrych arno, mwyaf o awydd oedd gennyf i chwerthin. Roedd e'n llygad ei le, mae llaeth heb botel yn llanast llwyr. O hyn ymlaen, ni fyddwn yn gallu edrych ar unrhyw ffaith hanesyddol heb feddwl am boteli llaeth.

### 6.3 Dadansoddiad — Cyfieithu'n agos

Yn gyntaf, penderfynais gyfieithu'n agos at y testun ffynhonnell, gan drosglwyddo'r cyfeiriadau diwylliannol Indiaidd. Bwriad y dull hwn yw dangos mai cyfieithiad ydyw. Y mae angen cofio bod gwybodaeth a dealltwriaeth plant yn gyfyngedig, a cheisiais gadw hyn mewn cof i sicrhau darn dealladwy i blant Cymru — eglurais wybodaeth ddiwylliannol anghyfarwydd, a dewisais deitl na fyddai'n dieithrio plant. Fel y trafodir ym Mhennod 2, y mae nifer o heriau yn codi wrth gyfieithu unrhyw ddarn o lenyddiaeth o'r Saesneg, megis enwau priod a'r dewis o ragenwau. Trafodir fy mhenderfyniadau yn wyneb yr heriau hyn a heriau eraill, gan sôn am fy rhesymau drostynt.

#### 6.3.1 Teitl

Y mae teitl llwyddiannus yn dal llygad ac yn ysgogi diddordeb. Y teitl sydd yn creu'r argraff gyntaf ar ddarllenydd gan naill ai ddenu darllenwyr potensial neu eu hannog i beidio â darllen ymhellach (Gavling 2008, t.1). Y mae dewis teitl da yr un mor bwysig wrth gyfieithu nofel: 'The title should sound attractive, allusive, suggestive, even if it is a proper name, and should usually bear some relation to the original' (Newmark 1988, t.56). Ym marn amryw o ysgolheigion, dylid addasu teitl os yw'n cynnwys cyfeiriadau anghyfarwydd i'r darllenwyr targed. Ys dywed Levý (cyfieithiad gan Patrick Corness), '[l]ike other components of a literary work, the form of the title is culture-specific... specific culture-bound forms of book titles usually have to be replaced by the customary domestic forms' (2011, t.123). Yn ôl Levý, felly, y mae angen newid cyfeiriadau mewn teitl sy'n anghyfarwydd i ddarllenwyr y testun targed. Ni fyddai darllenwyr tramor yn ymwybodol bod yr afon Volga yn llifo i'r Môr Du, felly newidiwyd teitl nofel Rwsieg Boris Pilniak o *The Volga Flows Into the Caspian Sea*

i *We Are Building a Dam* yn y Dsieceg (Levý 2011, t.124). Am y rheswm hwn, ni fyddai atgynhyrchu'r teitl *Mulla Nasruddin* yn llwyddiannus am fod enw tramor ac anghyfarwydd yn gallu dieithrio plant. Yn ogystal â hyn, ni fyddai'r teitl yn dangos yn glir mai nofel Gymraeg ydyw, a allai effeithio ar ei gwerthiant. Penderfynais ar y teitl *Y Tyrban sy'n Siarad*. Ceir hiwmor nad yw'n bodoli yn y teitl gwreiddiol — byddai delwedd o dyrban yn siarad yn peri i blant chwerthin.

### 6.3.2 Enwau Priod

Y mae'r enwau yn y nofel Saesneg yn anghyffredin ac yn anghyfarwydd i blant Cymru. Enw poblogaidd yn yr India yw 'Shashank' a'i ystyr yw 'lleuad' yn y Sansgrit. Dyma enw arall hefyd ar y Duw Hindŵaidd Shiva (Kapur a Datta 1999, t.73). Enw ar athronydd a gŵr doeth a oedd yn byw yn y drydedd ganrif ar ddeg yw Nasruddin Hodja. Ymddengys mewn cannoedd o straeon hyd heddiw (Sobol 2005, t.65). Er bod enwau tramor yn fwyfwy cyfarwydd i blant heddiw o ganlyniad i raglenni teledu a'r cyfryngau, y mae tuedd yn parhau i gyfnewid enwau tramor am rai o'r diwylliant targed mewn llenyddiaeth plant. Gwneir hyn oherwydd y gred na fyddai plant yn gallu eu hynganu a byddent felly yn cael eu dieithrio. Er hyn, penderfynais drosglwyddo'r enwau'n uniongyrchol (ond addasu'r teitl 'Mulla' yn orgraffyddol i 'Myla'), er mwyn cadw'r elfen ddieithr. Ystyriais addasu'r enwau i ffonoleg y Gymraeg, hynny yw cyfnewid 'k' am 'c' a 'sh' am 'si' yn enw Shashank, a dileu un 'd' yn enw Nasruddin ond byddai hyn wedi newid enwau'r cymeriadau yn llwyr. Nid yw'r enwau yn debyg i unrhyw enwau Cymraeg, a byddai plant felly'n deall na ddylid eu hynganu fel petaent yn enwau Cymraeg.

### 6.3.3 Rhagenwau Cyfarch

Yr oedd penderfynu pa ffurfiau y dylai'r ddau gymeriad eu defnyddio wrth siarad â'i gilydd yn bwysig iawn am fod rhagenwau yn gallu datgelu llawer am berthynas cymeriadau, eu hoedran a'u statws cymdeithasol. Byddai dewis ffurfiau anghywir yn gallu newid perthynas cymeriadau ac effeithio ar lwyddiant y cyfieithiad a'r addasiad (gweler y drafodaeth ar gyfieithu *Crooked House* gan Agatha Christie i'r Ffrangeg ar dudalen 30 a 31). Penderfynais y byddai'r bachgen yn y cyfieithiad yn arddel ffurfiau'r ail berson lluosog ar y Myla ac y byddai'r Myla yn defnyddio ffurfiau'r ail berson unigol wrth siarad â'r bachgen. Ystyriais normau cymdeithasol cyffredin — yr arfer yw dysgu plant i ddefnyddio ffurfiau'r ail berson lluosog wrth siarad ag oedolion, a defnyddia oedolion ffurfiau'r ail berson unigol wrth siarad â phlant. Astudiais y darluniau yn y nofel Saesneg hefyd er mwyn penderfynu ar y ffurfiau sy'n gweddu i berthynas y cymeriadau. Y mae'r Myla yn ymddangos yn barchus ac yn hŷn yn y darluniau, a darlunnir Shashank yn fachgen ifanc a diniwed. Yn ogystal â hyn, yn y darlun ar dudalen 6, sylwer bod y bachgen yn edrych i fyny ar y Myla tra bo'r Myla yn edrych i lawr ar y bachgen, sy'n gosod hierarchaeth ym mherthynas y ddau:



(Chattarji 2008, t.6)

Cyfleu hyn mai perthynas anghilyddol a geir rhwng y ddau gymeriad, ac adlewyrchir hyn yn eu defnydd o ragenwau a berfau.

#### 6.3.4 Arddull

Y mae'n amhosibl cyfieithu ymadroddion ac idiomau'n llythrennol am eu bod yn neilltuol i iaith arbennig ac y byddai'u hystyron yn wahanol yn yr iaith darged. Yn y cyfieithiad a'r addasiad, cyfnewidir idiomau yn y Saesneg am idiomau sy'n naturiol i'r Gymraeg. Ym *Mulla Nasruddin*, dywed y bachgen 'twice bitten once shy' (Chattarji 2008, t.4), sef addasiad o'r ymadrodd 'once bitten, twice shy'. Y mae'r ffaith nad yw Shashank yn ei ddweud yn gywir yn creu hiwmor. Dewisais yr ymadrodd cyfatebol 'cas gan gath y ci a'i bratho' yn y Gymraeg. Penderfynais newid yr ymadrodd i 'cas gan gi y gath a'i bratho' er mwyn cadw dryswch y bachgen, ac atgynhyrchu'r hiwmor. Cedwir hefyd yr un ddelwedd o frathu.

Ceir hefyd yr idiom, 'I should have pulled the rug from under his feet' (Chattarji 2008, t.5). Ystyr yr idiom yw gwneud rhywbeth sy'n peri problemau i rywun arall. Cynigir hiwmor i'r darlennydd am fod Mulla Nasruddin yn sefyll ar ryg, ac felly y mae'n cysylltu â'r naratif. Crëir her ychwanegol i gyfieithydd am fod angen canfod idiom sy'n cyfleu ystyr y Saesneg ac sy'n cysylltu â'r naratif. Penderfynais addasu'r idiom 'siarad drwy ei het' i 'siarad drwy ei dyrban'. Defnyddir yr idiom pan fo rhywun yn siarad nonsens. Byddai plant yn gwybod am yr idiom ac yn canfod difyrrwch yn yr addasiad ohoni. Er bod yr ystyr yn newid yn y Gymraeg, y mae'r idiomau Cymraeg a Saesneg yn awgrymu bod y Myla yn boen yn llygad y bachgen ac y mae'r ddwy hefyd yn cysylltu â chyd-destun y darn.

Ceir amryw o frawddegau hir aml-gymalog ym *Mulla Nasruddin*. Ar dudalennau 2 a 3, ceir un frawddeg ac iddi 67 o eiriau a phedwar cymal:

Naturally, she thought it was unnatural for her son to be talking to his Bio book, so she rushed me to the doctor who pressed my chest hard (I could have told him I wasn't talking with my chest) and said I was perfectly all right (I could have told him that too) and prescribed a daily dose of Sat Isabgol (which I thought was very humiliating). (Chattarji 2008)

Er mai'r duedd yn y Gymraeg yw ysgrifennu brawddegau llai, penderfynais gadw'r

brawddegau hir yn y cyfieithiad:

Yn naturiol, credai ei bod yn beth annaturiol i'w mab fod yn siarad â'i lyfr Bioleg, felly aeth â fi ar frys at y meddyg a wasgodd yn galed ar fy mynwes (gallaswn fod wedi dweud wrtho nad oeddwn yn siarad â'm mynwes) a dywedodd fy mod yn hollol iawn (gallaswn fod wedi dweud hynny wrtho hefyd) a rhoddodd bresgripsiwn imi ar gyfer y moddion Sat Isabgol (ar gyfer y rhwymedd) i'w gymryd bob dydd (a gododd gywilydd mawr arnaf).

Yn aml, y mae gan hyd brawddegau swyddogaeth hanfodol bwysig mewn darn o lenyddiaeth;

y mae brawddegau byr yn arafu'r tempo tra bo brawddegau hir yn cyfleu rhuthr a chyffro.

Cedwir hyd y brawddegau am fod ganddynt, yn fy marn i, swyddogaeth bwysig o safbwynt tempo'r darn. Yn ogystal â hyn, fy mwriad oedd cadw'n ffyddlon at y nofel Saesneg o ran ei chynnwys a'i harddull, felly penderfynais gadw at hyd y brawddegau gwreiddiol.

### 6.3.5 Symleiddio

Ceir dau gyfeiriad yn y nofel Saesneg at 'roly-poly': 'a voice all rich and roly-poly' (Chattarji 2008, t.4) ac 'a body round and roly-poly' (Chattarji 2008, t.5). Gall 'roly-poly' awgrymu amryw o bethau. Dyma enw ar deisen sbwng gron; y mae hefyd yn enw arall ar roliad ymlaen mewn gymnasteg, sef symudiad syml a gysylltir â phlant, ac enw ydyw ar degan gyda chorff crwn sy'n siglo yn ôl ac ymlaen. Gwelir felly fod gan 'roly-poly' amryw o ystyron posibl. Nid yw'r ystyr yn amlwg yn y Saesneg, ond sicrheir wrth gyfieithu ac addasu fod yr ystyr yn amlwg yn y Gymraeg fel na fyddai plant yn cael eu drysu. Yn fy marn i,

defnyddir ‘roly-poly’ yn y nofel i gyfleu bod y Myla yn fawr ac yn grwn. Yn y Gymraeg, cyfnewidir ‘a body round and roly-poly’ am ‘corff crwn fel pêl’ ac ‘a voice all rich and roly-poly’ am ‘llais cyfoethog a chryf’. Gellid awgrymu bod hyn yn ddull sy’n symleiddio’r naratif ac yn cymryd yn ganiataol nad yw plant yn deall cyfeiriadau cymhleth. Ond y mae’n rhaid imi gyfaddef fy mod wedi cael trafferth deall ystyr ‘roly-poly’ yn y cyd-destun hwn, a dyma reswm teilwng dros ei newid a’i symleiddio. Gellid awgrymu bod effaith y testun ffynhonnell yn cael ei cholli drwy gyfnewid y cyfeiriadau at ‘roly-poly’ am fod plant yn mwynhau effeithiau clywedol megis odl. Er hyn, penderfyniad llwyddiannus yn fy marn i yw aberthu effaith glywedol y Saesneg er budd dealltwriaeth y plentyn.

Atgynhyrchir y cyfeiriad at ‘Sat Isabgol’, sef moddion ar gyfer y rhwymedd yn yr India, er mwyn cadw’r elfen ddieithr yn y darn. Ystyriais gynnwys troednodyn i egluro swyddogaeth y moddion, ond y mae troi o’r testun i droednodyn yn broses ddiflas i blentyn ac yn amharu ar ei fwynhad. Penderfynais esbonio swyddogaeth y moddion drwy ychwanegu ‘ar gyfer y rhwymedd’ yn y cyfieithiad ei hun. Byddai’r darlennydd yn hyn o beth yn deall y cyfeiriad heb orfod troi at droednodyn ac y mae’n sicrhau bod gan y darlennydd Cymraeg yr un ddealltwriaeth â phlentyn sydd yn darllen y testun ffynhonnell.

Yn y testun ffynhonnell, ceir sôn am y Pallavas, sef teulu brenhinol o’r India a oedd yn rheoli o’r bedwaredd ganrif tan y nawfed ganrif (Kumar 2008, tt.117–118). Er y byddai hanes y teulu hwn yn gyfarwydd i blant o’r India, roeddwn yn pryderu na fyddai’r cyfeiriad yn ddealladwy i blant Cymraeg. Roedd yn rhaid imi wneud gwaith ymchwil i ddeall y cyfeiriad, ac felly y mae’n annhebygol y byddai plant o wledydd y tu allan i’r India yn ei ddeall. Drwy esbonio’r cyfeiriad yn fras yn y cyfieithiad, llwyddir i gadw’r cyfeiriad a’r elfen dramor: ‘Ond pwy sy’n gallu peidio â thalu sylw at lais heb gorff yn codi o dudalen yn sôn am y

Pallavas, hen deulu brenhinol o'r India'. Eto, y mae ychwanegu gwybodaeth yn benderfyniad mwy llwyddiannus na chynnwys troednodyn am na fyddai'n rhaid i'r darllenwyr droi yn ôl ac ymlaen o'r testun.

Yn y Saesneg, y mae'r camddealltwriaeth ar dudalen 8 ynghlwm wrth effaith ddeuol y gair 'dates':

'History,' I said. 'Can't stand the stuff! All those dead kings. And dates dates dates'.  
*What's wrong with dates? Me, I love them. Why, only the other day I bought a handful of dates...* (Chattarji 2008, t.8)

Penderfynais drosglwyddo'r camddealltwriaeth yn uniongyrchol, gan gadw'r gair Saesneg 'dates', ond ei newid i ffonoleg y Gymraeg ('dêts'). Yn hyn o beth, cedwir llwyddiant a hiwmor y darn:

'Hanes,' dywedais. 'Dwi methu ei oddef! Yr holl frenhinoedd wedi marw. A dyddiad ar ôl dyddiad'.  
*Beth?*  
'Dyddiadau. Dêts!'  
*A beth yw'r broblem gyda dêts? Minnau, dwi'n dwlu arnynt. Rai diwrnodau yn ôl, prynais lond dwrn ohonynt...*

Yn ogystal â hyn, defnyddir y dull ychwanegu i sicrhau bod y camddealltwriaeth yn amlwg i ddarllenwyr.

Y bwriad oedd ail-greu'r testun yn y Gymraeg, gan gadw'r cyfeiriadau diwylliannol ac atgynhyrchu nodweddion arddull megis hyd brawddegau. Golyga hyn nad oeddwn yn gallu gosod stamp unigol ar y cyfieithiad. Er hyn, gall unrhyw gyfieithydd sy'n cadw'n agos at y testun ffynhonnell ganfod cysur yn y ffaith ei fod yn ehangu dealltwriaeth plant o ddiwylliannau eraill, gan eu dysgu am nodweddion megis bwydydd, arferion a thraddodiadau o dramor neu o ddiwylliannau eraill nad oeddent yn ymwybodol ohonynt.



## 6.4 Dadansoddiad — Cyfieithu'n Ddiwylliannol (Domestigeiddio/Addasu)

Yn ogystal â chyfieithu'r tair pennod yn agos, penderfynais hefyd eu haddasu. Y bwriad oedd creu'r effaith bod y nofel wedi ei hysgrifennu'n wreiddiol yn y Gymraeg. Adleolir y nofel yng Nghymru, cyfnewidir cyfeiriadau at y diwylliant Indiaidd am gyfeiriadau at y byd Cymreig a newidir enwau priod Indiaidd am enwau priod Cymraeg.

### 6.4.1 Teitl

Teitl y testun ffynhonnell yw *Mulla Nasruddin*, sydd hefyd yn enw un o'r prif gymeriadau. Penderfynais ddilyn yr un dull wrth addasu'r testun, gan gyfnewid yr enw am enw'r cymeriad yn fy addasiad, sef Lewis y Glöwr. Dewisais y dull o ychwanegu hefyd drwy gynnwys enw'r prif gymeriad arall, Siôn, yn y teitl (*Lewis y Glöwr a Siôn*) er mwyn cyfleu mai dau brif gymeriad sydd i'r stori.

### 6.4.2 Enwau Priod

Fel y trafodwyd eisoes, y mae cyfieithu enwau priod yn her arbennig. Ni fyddai trosglwyddo enwau'r ddau gymeriad Shashank a Mulla Nasruddin Hodja yn uniongyrchol yn addas wrth ystyried fy mwriad i ddomestigeiddio'r testun yn llwyr. Penderfynais ddomestigeiddio enw'r bachgen, gan gyfnewid yr enw poblogaidd Indiaidd 'Shashank' am yr enw poblogaidd Cymraeg 'Siôn'. Y mae hyn felly'n sicrhau cywerthedd dynamig. Cedwais hefyd yr un sain ar ddechrau'r enw Cymraeg i gadw'r effaith orgraffyddol.

Y mae Myla yn enw ar ddyn Mwslimaidd sydd wedi ei addysgu yng nghyfreithiau Islam. Enw ar arweinydd mosg mewn nifer o wledydd ydyw hefyd ac felly y mae'n ennyn parch yn y byd Mwslimaidd. Enw priod y Myla yn y nofel Saesneg yw Nasruddin Hodja, sef cymeriad difyr mewn llawer o straeon o'r India. Ceir cyferbyniad felly rhwng y Myla parchus a bonheddig ar y naill law a'r cymeriad digrif Nasruddin Hodja ar y llaw arall. O bosibl, ni fyddai plant yn sylwi ar y cyferbyniad hwn, ond byddai oedolion yn canfod digrifwch ynddo. Wrth addasu'r nofel, penderfynais gadw'r cyferbyniad rhwng teitl/swydd y gŵr a'i enw priod er mwyn cynnig hiwmor i'r oedolion sy'n darllen y nofel i blant. Roeddwn wedi penderfynu o'r cychwyn y byddwn yn adleoli'r stori yng nghymoedd glofaol De Cymru, ac felly naturiol oedd dewis glöwr yn brif gymeriad. Roedd penderfynu ar enw'r cymeriad yn her arbennig oherwydd fy mwriad oedd dewis enw Cymraeg, ac un a fyddai'n cyferbynnu â'r teitl 'glöwr'. Penderfynais droi at fawrion llenyddiaeth Gymraeg a dewis enw cyfarwydd. Ystyriais ddewis enwau cyntaf a chanol T. H. Parry-Williams, sef Thomas Herbert. Byddai gwrthgyferbyniad llwyddiannus rhwng swydd y gŵr a'i enw. Y mae swydd y glöwr yn symbol o'r byd diwydiannol newydd a ddaeth yn sgil y Chwyldro Diwydiannol tra bo T. H. Parry-Williams yn ei gerddi yn sôn am brydferthwch byd natur ym mro ei febyd yng Ngogledd Cymru. Er hyn, ni fyddai plant nac oedolion, tybiaf, yn deall cyfeirid o'r fath. Yn hytrach, penderfynais ar Lewis fel enw cyntaf y glöwr a Saunders fel ei gyfenw. Saunders Lewis oedd arweinydd Plaid Genedlaethol Cymru, sef plaid a oedd wedi'i chyhuddo o fod yn bleidiol i Ffasgaeth yn ei dyddiau cynnar. Y mae'n bwysig nodi bod Sosialaeth wedi bod yn gryf iawn yng nghymunedau Cymoedd y De ac felly ceir gwrthgyferbyniad rhwng teitl swydd y glöwr, sy'n symboleiddio tueddiadau adain chwith gweithwyr cyffredin y pyllau glo, ac enw priod y glöwr sy'n adlewyrchu'r honiadau adain dde yn erbyn Saunders Lewis a Phlaid Genedlaethol Cymru. Byddai oedolion yn canfod digrifwch yn y gwrthgyferbyniad hwn fel yn y Saesneg, ond ni fyddai plant o bosibl yn sylwi arno.

### 6.4.3 Cyfeiriadau Diwylliannol

Trafodir yn awr, gan roi enghreifftiau, fy mhenderfyniadau wrth ddod wyneb yn wyneb â chyfeiriadau o'r byd Indiaidd. Y bwriad oedd domestigeiddio'r tair pennod, ac felly adleoli'r nofel yn llwyr yn y diwylliant Cymreig a Chymraeg.

Y mae'r tyrban yn y nofel Saesneg yn rhan ganolog o'r nofel ac yn cyfleu hunaniaeth Fwslimaidd y cymeriad Mulla Nasruddin (er bod dynion Sicaidd hefyd yn gwisgo tyrbanau). Wrth addasu, dewisais gyfnewid tyrban am gap sydd ynghlwm wrth hanes Cymru ac yn symbol o'r diwylliant glo a oedd ar ei gryfaf yng Nghymoedd De Cymru. Penderfyniad naturiol oedd ei ddewis am fy mod o Gyymoedd diwydiannol De Cymru yn wreiddiol ac arferai fy nhad-cu weithio yn y pyllau glo.

Y mae Sat Isabgol yn feddyginiaeth sy'n dod o hadau planhigyn sy'n tyfu yn yr India. Y mae'n feddyginiaeth naturiol a ddefnyddir i drin y rhwymedd. Er ei bod yn boblogaidd yn yr India, y mae'n anghyffredin yng Nghymru a Phrydain. Penderfynais gyfnewid Sat Isabgol am DulcoEase. Caiff ei hysbysebu ar y teledu a byddai nifer o blant felly yn ei adnabod. Yn ogystal â hyn, penderfynais gyfnewid 'a daily dose of Sat Isabgol' (Chattarji 2008, t.3) am 'DulcoEase i'w gymryd dair gwaith y diwrnod'. Yn ôl y we, dylid cymryd DulcoEase o leiaf dair gwaith y diwrnod yn hytrach nag unwaith yn achos Sat Isabgol. Penderfynais nodi hyn i sicrhau cywirdeb ffeithiol yn yr addasiad.

Ceir cyfeiriad yn y testun ffynhonnell at y gân 'You Can Call Me Al' gan Paul Simon o'r 80au:

*In which case, you can call me Al.*

'Al?' What sort of a name was that for this little guy with the turban?

*Oh, never mind, just a popular song from my time...* (Chattarji 2008, t.7)

Y mae'n amhosibl cyfieithu cyfeiriad at gân neu ddyfyniad yn llythrennol a gwneud hynny'n llwyddiannus; byddai'r cyfeiriad yn cael ei golli mewn iaith arall. Yn fy addasiad, ceisiais ganfod cyfatebiaeth yn yr iaith darged. Ceir, 'galwa fi'n Dic Siôn Dafydd', sy'n dwyn i gof ddyfyniad yn y gân 'Yma o Hyd' gan Dafydd Iwan ('Er gwaetha pob Dic Siôn Dafydd...'). Penderfyniad ideolegol ar fy rhan oedd dewis y gân hon er mwyn chwistrellu elfen genedlaetholgar yn yr addasiad. Defnyddir hefyd y dechneg o 'ychwanegu'. Ychwanegir elfen nas ceir yn y Saesneg, drwy gynnwys pennill o'r gân yn llais Lewis y Glöwr. Sylwer hefyd ar y cyfeiriad at Margaret Thatcher yn y pennill. Cofiwn mai'r llywodraeth, dan arweinyddiaeth Margaret Thatcher, a benderfynodd gau'r pyllau glo yn yr 80au ac felly y mae hyn yn ychwanegu at y lliaws o gyfeiriadau at y Cymoedd a'r pyllau glo yn yr addasiad. Y mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod gan lenyddiaeth plant gynulleidfa ddeuol — ni fyddai plant o bosibl yn gallu cysylltu'r cyfeiriad at Margaret Thatcher â'r cyfeiriadau at y pyllau glo yn y nofel, yn wahanol i oedolion.

#### **6.4.4 Arferion**

Y mae arferion yn newid o wlad i wlad ac o ddiwylliant i ddiwylliant ac felly y mae angen ystyried hyn wrth addasu testun. Er mwyn sicrhau bod y testun yn gweddu i brofiadau'r darllenydd, penderfynais gyfnewid arferion sy'n gyfarwydd yn yr India am rai Cymreig.

Am resymau moesol ac ideolegol, penderfynais gyfnewid, 'the teacher made a curly bracket out of my ear the following day in class' (Chattarji 2008, t.1) am 'Y diwrnod canlynol yn y dosbarth, fel cosb, treuliais amser cinio yn dysgu cerddi Waldo Williams yn lle

chwarae rygbi ar yr iard'. Yn yr India, cosbir plant yn gorfforol ond y mae'n anghyfreithlon ym Mhrydain i athrawon roi cosb gorfforol i blentyn. Dilëir yr elfen gorfforol hon i adlewyrchu cosb gyffredin yn ysgolion Cymru heddiw, ac i sicrhau bod y darn yn 'dderbyniol' yn llygaid oedolion. Y mae sôn am gosb gorfforol yn dabw ac yn annerbyniol.

#### **6.4.5 Symleiddio**

Y mae brawddegau aml-gymalog yn gyffredin yn y Saesneg. Yn y Gymraeg, fodd bynnag, y duedd yw defnyddio brawddegau byrrach gyda llai o gymalau. Defnyddir brawddegau hir yn aml i arafu tempo darn. Er y gellid dadlau bod hyd brawddegau yn rhan ganolog o arddull yr awdur a dylid cadw hyd brawddegau wrth gyfieithu neu addasu, penderfynais eu byrhau wrth gyfieithu i'r Gymraeg:

Yn naturiol, credai ei bod yn beth annaturiol i'w mab fod yn siarad â'i lyfr Bioleg, felly aeth â fi ar frys at y meddyg a wasgodd yn galed ar fy mynwes (gallaswn fod wedi dweud wrtho nad oeddwn yn siarad â'm mynwes). Dywedodd fy mod yn hollol iawn (gallaswn fod wedi dweud hynny wrtho hefyd) a rhoddodd bresgripsiwn imi ar gyfer DulcoEase i'w gymryd dair gwaith y diwrnod (a gododd gywilydd mawr arnaf).

Gall brawddegau hir fod yn anodd i blant eu dilyn (Pettersen 2002, t.83) ac felly yn aml caiff brawddegau eu byrhau i symleiddio'r naratif. Drwy dorri'r brawddegau yn unedau llai, sicrheir bod rhythm y nofel Saesneg yn cael ei gadw, a llwyddir hefyd i ddilyn normau gramadegol y Gymraeg.

#### **6.4.6 Arddull**

Cyfnewidiais 'I like that!' am y sain 'Haa!' yn yr addasiad. Y mae 'I like that!' yn ymadrodd a ddefnyddir i wawdio person. Teimlaf y byddai cyfieithu'r ymadrodd yn llythrennol yn benderfyniad aflwyddiannus ('Dwi'n hoffi hwnna') am nad yw'n naturiol yn y

Gymraeg. Y mae ‘Haa!’ yn sicrhau’r un effaith a’r un cywair ac fe’i defnyddir i gyfleu gwawd megis ‘I like that!’. Teimlaf hefyd fod y sain ‘Haa!’ yn fwy uniongyrchol a thrawiadol na’r frawddeg Saesneg.

Penderfynais roi fy nhafodiaith i, sef tafodiaith Cwm Cynon, i’r glöwr yn fy addasiad am amryw o resymau. Yn gyntaf, er mwyn pwysleisio’r gwahaniaethau ieithyddol a chymdeithasol rhwng y glöwr a’r bachgen (y mae’r bachgen yn siarad mewn iaith safonol). Sylwer ar y gwahaniaeth yn safon iaith Siôn a Lewis y Glöwr. Dywed Siôn: ‘Pryd roesoch chi gyfle i mi? A beth bynnag, oni wyddoch chi nad yw bechgyn da yn siarad â dieithriaid?’, a dywed Lewis y Glöwr: ‘*Wel, dwed shw mae, fachan. Neu ai dyna rywbeth arall dyw bechgyn da ddim yn ei wneud?*’. Yr ail reswm i mi benderfynu ar dafodiaith gref oedd er mwyn pwysleisio lleoliad y stori yng Nghymoedd y De.

Ceir anffurfioldeb nad yw’n bodoli yn y Saesneg gyda’r defnydd o eiriau tafodieithol cryf a’r dechneg o hepgor diwedd geiriau/addasu geiriau i dafodiaith Cwm Cynon, gan gynnwys ‘dwed’ a ‘dishgwyl’. Y mae tafodiaith yn gallu dieithrio darllenwyr, a chedwais hynny mewn cof trwy osgoi defnyddio gormod o eiriau tafodieithol anghyfarwydd yn yr addasiad. Er hyn, teimlaf y byddai plant o bob rhan o Gymru yn adnabod ac yn deall ystyr y geiriau tafodieithol am eu bod mor agos o ran eu sain a’u golwg at y ffurfiau safonol. Penderfynais hefyd hepgor y llythyren ‘h’ ar ddechrau geiriau yn llais y glöwr, e.e. ‘onni’ yn lle ‘honni,’ am fod hyn yn nodwedd o dafodiaith Cwm Cynon. Y mae hefyd yn cynnig hiwmor yn y Gymraeg nas ceir yn y Saesneg.

Sylwer er hyn ar y newid yn ffurfioldeb llais y glöwr ar dudalen 130 (‘Ac oni wyddost ti...’). Y bwriad yn gyntaf oedd ei addasu i iaith anffurfiol y glöwr fel yng ngweddill y darn. Ond penderfynais gadw’r iaith safonol am amryw o resymau. Yn gyntaf, y mae’r glöwr yn y darn hwn yn gwawdio’r bachgen drwy ei ddynewared. Felly, drwy siarad yn iaith y bachgen, y

mae'r gŵr yn sicrhau hyn. Yr ail reswm yw pwysleisio nad ymgais yw'r defnydd o iaith seml yng ngweddill yr addasiad i awgrymu bod y gŵr ei hun yn ddiddysg — nodwedd o'i dafodiaith ydyw yn unig.

#### 6.4.7 Geirfa

Mwynheais yn fawr ddarllen tudalennau 8 a 9 o'r nofel Saesneg, a chamddealltwriaeth y Myla rhwng 'dates' (dyddiadau) a 'dates' (ffrwyth). Wrth gyfieithu'r testun yn agos at y gwreiddiol, penderfynais gadw'r un camddealltwriaeth (ond addasir 'dates' i ffonoleg y Gymraeg). Wrth addasu, er hyn, ni fyddai cadw'r un camddealltwriaeth yn llwyddiannus wrth ystyried cyd-destun y darn. Penderfynais, yn hytrach na chamddeall ystyr 'date', fod y glöwr yn cam-glywed dau air sy'n agos o ran eu sain, sef 'ffaith' a 'llaeth'. Er bod y camddealltwriaeth yn llai amlwg, teimlaf ei fod yn benderfyniad llwyddiannus yn ddiwylliannol. Y mae daten yn ffrwyth egsotig sy'n tyfu mewn gwledydd poeth megis yr India. Yn fy marn i, byddai cadw'r cyfeiriad at ddaten wedi bod yn benderfyniad aflwyddiannus am nad yw'n ffrwyth cyfarwydd yng Nghymru o'i gymharu â ffrwythau neu fwydydd eraill. Penderfynais ar 'llaeth' am ei fod yn symbol o'r diwylliant ffermio sydd â chysylltiad cryf â Chymru. Penderfynais hefyd ddefnyddio ffurf dafodieithol y gair 'llaeth', sef 'lla'th'. Dyma ffurf gyffredin y gair yn nhafodiaith Cwm Cynon, ac felly naturiol oedd ei defnyddio yn llais y glöwr o ystyried fy mhenderfyniadau eraill i osod tafodiaith Cwm Cynon ar y cymeriad.

#### 6.4.8 Elfennau Clywedol

Y mae plant yn mwynhau elfennau clywedol megis cyflythrennu a chwarae ar eiriau. Y mae'r dyfyniadau canlynol: 'Seedless dates are no fun' a 'seedless dates are history' (Chattarji 2008, t.9) yn cynnig hiwmor i blentyn am fod gan y gair 'dates' ystyr ddeuol. Y mae'n amhosibl cyfieithu'r ddau ddyfyniad yn llythrennol yn llwyddiannus a chadw'r un ystyr ac effaith am fod hiwmor y dyfyniadau ynghlwm wrth ystyr ddeuol y gair 'dates'. Penderfynais aberthu'r camddealltwriaeth rhwng ystyr ddeuol gair wrth addasu, fodd bynnag, gan ychwanegu elfennau clywedol nas ceir yn y Saesneg: 'Mae lla'th 'eb botel yn llanast llwyr'; 'Hen hanes yw hen laeth'. Ceir cyflythreniad gyda'r llythyren 'll' yn y dyfyniad cyntaf ac yn yr ail ddyfyniad, ailadroddir y gair 'hen', a cheir cyflythreniad gyda'r llythyren 'h'. Y mae plant yn mwynhau sŵn geiriau, felly byddent yn canfod hwyl yn sŵn a rhythm y dyfyniadau uchod. Cyflea hyn fod modd i gyfieithydd neu addasydd ychwanegu technegau nas ceir yn y testun ffynhonnell.

#### 6.4.9 Darluniau

Fel y trafodir ar dudalen 17 i 19, y mae darluniau yn chwarae rôl hanfodol bwysig mewn nofelau i blant, ac felly y mae angen ystyried y berthynas rhwng y geiriau a'r darluniau wrth gyfieithu i sicrhau cysondeb. Yn aml wrth addasu nofel ar gyfer plant i'r diwylliant targed, y mae costau ychwanegol er mwyn talu darlunydd i greu darluniau o'r newydd. Ni fyddai'n bosibl cadw'r un darluniau am y byddent hwy a'r testun yn adrodd stori gwbl wahanol. Ym *Mulla Nasruddin*, ceir deg llun, ac maent oll i gyd yn bradychu gwreiddiau tramor y nofel. Gwelir yn glir o'r tyrban yn y llun ar dudalen 6 o'r testun ffynhonnell fod Mulla Nasruddin o ddiwylliant arall. Petai'r nofel yn cael ei haddasu a'i chyhoeddi, byddai'n rhaid comisiynu



darluniau newydd yn sicr, gan gyfnewid y Myla am löwr, ac o bosibl, newid pryd a gwedd y bachgen. Byddai cadw'r un darluniau yn creu anghysondebau rhwng y gweledol a'r testun ysgrifenedig, a byddai'r ddau yn adrodd straeon gwahanol.

Trwy gyfieithu'n ddiwylliannol, cefais ryddid i roi stamp unigol ar y gwaith, er enghraifft, cefais hwyl yn gosod tafodiaith Cwm Cynon ar y glöwr. Ymdrechais i greu byd newydd, byd sy'n adlewyrchu fy mhrofiadau personol i o fyw yn y Cymoedd. Rwyf yn teimlo math o 'berchnogaeth' ar y testun felly. Y mae addasu yn rhoi rhyddid creadigol, ond ceir pwysau o hyd i greu testun sy'n 'addas' i'r gynulleidfa darged.

## Casgliad

Pwrpas y traethawd hwn oedd astudio sut y cyfieithwyd i'r Gymraeg dair nofel gan dri awdur llenyddiaeth plant mwyaf poblogaidd yr iaith Saesneg. Dadansoddwyd strategaethau a phenderfyniadau'r cyfieithwyr gan bwysu a mesur a ydynt yn llwyddiannus ai peidio. Cyn cyflwyno'r tair astudiaeth achos, trafodwyd theori cyfieithu yn gyffredinol, gan sôn am ei datblygiad dros y degawdau diwethaf, o'r pwyslais ar sicrhau cywerthedd o ran ystyr ac effaith y testun ffynhonnell i'r pwyslais ar *skopos* y cyfieithiad ac ymateb y gynulleidfa darged. Disgrifiwyd hefyd y gwahanol ddulliau a strategaethau sydd ar gael i'r cyfieithydd. Yna, trafodwyd y gwahaniaethau rhwng cyfieithu i blant a chyfieithu i oedolion a'r heriau arbennig sy'n codi wrth gyfieithu i blant, megis pwysigrwydd darluniau a gwybodaeth gyfyngedig plant. Ar ôl dadansoddi'r tair astudiaeth achos, daw'n glir bod pob testun, boed yn wreiddiol neu'n gyfieithiad, wedi ei greu er budd gwahanol gynulleidfaoedd ac at bwrpas gwahanol, ac felly nid yw'r un strategaeth na dull yn gweddu bob tro wrth gyfieithu. Am nifer o resymau, y mae'n amhosibl ateb y cwestiwn 'beth sy'n gwneud cyfieithiad da o nofel i blant?' am fod amrediad eang o safbwyntiau a ffactorau cyferbyniol i'w hystyried wrth gyfieithu unrhyw destun ffynhonnell ac i unrhyw iaith. Gan fod y diwylliannau Cymreig a Seisnig yn debyg i raddau helaeth, golyga hyn nad oes angen cyfnewid nifer o gyfeiriadau diwylliannol neu eu hesbonio am na fyddai'r darllenwyr yn eu deall, e.e. cedwir yr un bwydydd yn *Harri Potter a Maen yr Athronydd* ac atgynhyrchir cyfeiriadau at gwmnïau megis McDonald's a Tony a Guy yn *Lowri Angel*.

Y mae'r tri chyfieithiad yn llwyddiannus mewn gwahanol ffyrdd. Astudiodd y cyfieithwyr nodweddion arbennig yn y testunau ffynhonnell i sicrhau na cholli elfennau a ystyrir yn hanfodol. Yng nghyfieithiad *James and the Giant Peach*, atgynhyrchir iaith hen ffasiwn y

cymeriadau i atgynhyrchu cyfnod y testun ffynhonnell. Yn *Harry Potter*, y mae iaith a thafodiaith Hagrid wedi'u cyfieithu'n effeithiol i sicrhau na chollir nodweddion o'i gymeriad (yn y Ffrangeg, yr Almaeneg a'r Sbaeneg ar y llaw arall, collir elfennau sathredig ac ansafonol o'r iaith gan fod y cyfieithwyr yn gosod iaith safonol a 'chywir' yng ngenau'r cipar diddysg). Yn yr addasiad *Lowri Angel*, y mae'n amlwg bod Elin Meek wedi ystyried normau cymdeithasol a'r defnydd o deitlau i benderfynu ar y defnydd o ragenwau cyfarch.

Proses greadigol yw cyfieithu, ac y mae cyfleoedd gan gyfieithwyr i ychwanegu at y testun targed i raddau. Yn *James a'r Eirinen Wlanog Enfawr*, cyfnewidir 'hens took snuff' i 'ieir yn chwarae pŵl' yn un o gerddi'r Neidr Gantroed i gyfleu hiwmor; yn *Harri Potter a Maen yr Athronydd*, ychwanega Emily Huws rythm i'r rhestr o fwydydd i apelio at glust y darllenydd; yn *Lowri Angel*, y mae'r enwau priod gan mwyaf yn fwy cyfarwydd a phoblogaidd na'r rhai a geir yn *Vicky Angel*. Er hyn, ceir rhai colledion. Ni chaiff hiwmor y geiriau nonsens yn y cerddi yn *James and the Giant Peach* ei atgynhyrchu; collir hiwmor wrth gyfieithu nifer o enwau yn *Harry Potter*; yn *Lowri Angel*, nid yw'r geiriau anffurfiol yn cyfieithu'n effeithiol i'r Gymraeg.

Ar ôl dadansoddi'r tair astudiaeth achos, gwelir bod strategaethau'r tri chyfieithiad yn wahanol iawn, hynny yw y mae'r tri chyfieithiad ar wahanol leoedd ar y continiwm cyfieithu. *James a'r Eirinen Wlanog Enfawr* sy'n glynu agosaf at y testun ffynhonnell. Atgynhyrchir enwau personol y cymeriadau a lleoliad y stori yn Lloegr. Y canlyniad felly yw atgyfnerthu'r syniad mai cyfieithiad ydyw. Yn ogystal â hyn, atgynhyrchir iaith hen ffasiwn Roald Dahl yn hytrach na'i moderneiddio, gan gadw'n ffyddlon felly i'r awdur a'r cyfnod. *Lowri Angel* yw'r mwyaf 'rhydd' o'r tri. Y nod yw creu byd cyfarwydd a lleoli'r stori yn llwyr yng Nghymru, o safbwynt enwau personol, enwau lleoedd a chyfeiriadau diwylliannol. Domestigeiddir 73% (27 o 37) o enwau personol ac 89% (17 o 19) o enwau lleoedd. Caiff 53% (8 o 15) o

gyfeiriadau at y diwylliant Seisnig neu Brydeinig eu domestigeiddio i ddiwylliant Cymru neu eu dileu. Yn yr un modd, caiff 50% (5 o 10) o gyfeiriadau at y diwylliant Americanaidd eu domestigeiddio neu eu dileu. Yr effaith, felly, yw Cymreigio byd y cymeriadau a chuddio'r ffaith, i raddau, fod y testun wedi'i drosi i'r Gymraeg. Manteisia Elin Meek ar y rhyddid creadigol sy'n mynd law yn llaw ag addasu drwy ddileu cyfeiriadau diwylliannol nad ydynt yn gweddu i'w hideolegau hi neu ideolegau'r gymuned. Er enghraifft, dilëir cyfeiriadau at Diana a doliau o ffilmiau Disney. Yn ogystal â hyn, ceir enghreifftiau o'r addasydd yn dileu cyfeiriadau a allai ddyddio'r testun, gan sicrhau bod y testun yn parhau'n gyfredol. Mae *Harri Potter a Maen yr Athronydd* yn gyfuniad o'r strategaethau rhydd a llythrennol. Caiff cyfanswm o 55% o enwau cymeriadau eu domestigeiddio yn rhannol neu'n llwyr, sef 67 o'r holl enwau, tra bo 44% o enwau yn cael eu hatgynhyrchu yn rhannol neu'n llwyr, sef 54 o'r holl enwau (mae un enw ('Iago Potter') wedi ei ddomestigeiddio a'i atgynhyrchu). Cyfieithir yn agos neu addasir 28% o enwau lleoedd (7 ohonynt) tra atgynhyrchir 72% o enwau lleoedd (18 ohonynt). Y canlyniad yw creu diwylliant deuol yn y cyfieithiad, sy'n adlewyrchiad o fywyd plant Cymraeg.

Yn y bennod olaf, y bwriad oedd rhoi'r theori ar waith a throsi rhan o nofel i blant mewn dwy ffordd, sef drwy gyfieithu'n agos a hefyd yn rhydd (addasu). Rhoddodd hyn gyfle uniongyrchol imi glymu'r rhan ddamcaniaethol a dadansoddol ynghyd. Trwy gyfrwng y tair astudiaeth achos, dadansoddwyd cyfieithiad sy'n cadw'n agos at y testun ffynhonnell, addasiad a chyfieithiad hybrid sy'n gyfuniad o'r ddau. Penderfynais, felly, drosi'r nofel *Mulla Nasruddin* yn agos a hefyd yn rhydd (addasu). O'r profiad ymarferol, gwelais fod cyfieithu yn heriol dros ben ond hefyd yn rhoi boddhad i'r person sy'n trosglwyddo'r testun o un iaith i'r llall. Sylwais, hefyd, na fyddai cyfieithydd byth yn llwyr hapus gyda'i waith oherwydd, yn syml, bod lle i wella'r testun o hyd. Gwelais fod heriau gwahanol yn codi wrth

gyfieithu'n agos a rhydd, a bod y ddau yn gofyn am benderfyniadau gwahanol, ac felly'n cryfhau fy nadl yn y bennod gyntaf mai dwy broses wahanol yw 'cyfieithu' ac 'addasu'.

Roedd yr astudiaeth hon o ddiddordeb mawr imi oherwydd cefais y cyfle, nid yn unig i ddarllen a dadansoddi nofelau rhai o'm hoff awduron pan oeddwn yn blentyn ond hefyd i astudio maes sydd wedi cael ei esgeuluso i raddau helaeth, sef cyfieithu llenyddiaeth plant i'r Gymraeg. Gellid defnyddio canlyniadau'r ymchwil i astudio cyfieithiadau eraill, gan astudio'r hyn a gollir a'r hyn a ychwanegir trwy gyfieithu, ac i ymgymryd ag astudiaethau pellach ym maes cyfieithu llenyddiaeth plant i'r Gymraeg. Yn ogystal â hyn, gellid defnyddio'r ymchwil hwn i gynnal astudiaeth ar gyfieithiadau Cymraeg o fwy nag un nofel gan awdur i blant, megis Roald Dahl. Gellid hefyd astudio'r gwahaniaethau rhwng cyfieithiad o nofel i blant (er enghraifft *Harry Potter*) i'r Gymraeg ac i iaith arall megis y Ffrangeg, gan ganolbwyntio ar elfennau diwylliannol megis enwau priod a bwydydd. Y mae nifer o ffactorau i'w hystyried wrth gyfieithu i blant, a gobeithiaf fod yr astudiaeth hon yn tynnu sylw ac yn egluro rhai o'r prif heriau sy'n codi. Y prif beth yw ystyried y bwriad neu *skopos* ac ystyried anghenion a dealltwriaeth y gynulleidfa darged i benderfynu ar strategaeth sy'n gweddu i'r cyfieithiad.

# Atodiad 1

## *James and the Giant Peach/ James a'r Eirinen Wlanog Enfawr*

**Tabl 1: Enwau Personol y Cymeriadau**

<i>James and the Giant Peach</i>	<i>James a'r Eirinen Wlanog Enfawr</i>	Penderfyniad y cyfieithydd
James Henry Trotter (t.7)	James Henry Trotter (t.7)	Atgynhyrchu
Aunt Sponge (t.7)	Anti Sponge (t.7)	Atgynhyrchu
Aunt Spiker (t.7)	Anti Spiker (t.7)	Atgynhyrchu
Old-Green-Grasshopper (t.39)	Hen Sioncyn y Gwair Gwyrdd (t.40)	Cyfieithu'n llythrennol
Miss Spider (t.39)	Miss Corryn (t.40)	Cyfieithu'n llythrennol
Ladybird (t.40)	Buwch Goch Gota (t.40)	Cyfieithu'n llythrennol
Centipede (t.40)	Neidr Gantroed (t.40)	Cyfieithu'n llythrennol
Earthworm (t.40)	Mwydyn (t.40)	Cyfieithu'n llythrennol
Silkworm (t.40)	Pryf Sidan (t.40)	Cyfieithu'n llythrennol
Glow-worm (t.49)	Pryfyn Tân (t.49)	Cyfieithu'n llythrennol

**Tabl 2: Enwau Lleoedd**

<i>James and the Giant Peach</i>	<i>James a'r Eirinen Wlanog Enfawr</i>	Penderfyniad y cyfieithydd
'Where is England?' (t.66)	'Ble mae Lloegr?' (t.66)	Atgynhyrchu
'This couldn't possibly be England?' (t.132)	'Does bosibl taw Lloegr sy fan'na' (t.132)	Atgynhyrchu
'So this must be America' (t.132)	'Felly mae'n rhaid mai America yw'r wlad yma' (t.132)	Atgynhyrchu
New York (t.133)	Efrog Newydd (t.133)	Atgynhyrchu
Manhattan (t.133)	Manhattan (t.133)	Atgynhyrchu
Washington, D.C. (t.135)	Washington, D.C. (t.135)	Atgynhyrchu
Alaska (t.135)	Alaska (t.135)	Atgynhyrchu
Florida (t.135)	Florida (t.135)	Atgynhyrchu
Pennsylvania (t.135)	Pennsylvania (t.135)	Atgynhyrchu
Hawaii (t.135)	Hawaii (t.135)	Atgynhyrchu
Chicago (t.136)	Chicago (t.137)	Atgynhyrchu
Fifth Avenue (t.137)	Fifth Avenue (t.137)	Atgynhyrchu
Madison Avenue (t.137)	Madison Avenue (t.137)	Atgynhyrchu
Empire State Building (t.138)	Empire State Building (t.138)	Atgynhyrchu

**Tabl 3: Cenedl Enwau**

<i>James and the Giant Peach</i>	<i>James a'r Eirinen Wlanog Enfawr</i>	<b>Cenedl yr enw yn y Gymraeg</b>	<b>Rhyw y creadur yn ôl y testun ffynhonnell</b>
Old-Green-Grasshopper	Hen Sioncyn y Gwair Gwyrdd	Gwrywaidd	Gwrywaidd
Miss Spider	Miss Corryn	Gwrywaidd (+ teitl benywaidd)	Benywaidd
Ladybird	Buwch Goch Gota	Benywaidd	Benywaidd
Centipede	Neidr Gantroed	Benywaidd	Gwrywaidd
Earthworm	Mwydyn	Gwrywaidd	Gwrywaidd
Silkworm	Pryf Sidan	Gwrywaidd	Benywaidd
Glow-worm	Pryfyn Tân	Gwrywaidd	Benywaidd

## Atodiad 2

### *Harry Potter and the Philosopher's Stone/ Harri Potter a Maen yr Athronydd*

**Tabl 1: Enwau Personol Disgyblion Hogwarts**

<i>Harry Potter and the Philosopher's Stone</i>	<i>Harri Potter a Maen yr Athronydd</i>	Penderfyniad y cyfieithydd
George (t.70)	George (t.72)	Atgynhyrchu
Fred (t.70)	Fred (t.72)	Atgynhyrchu
Percy (t.72)	Percy (t.74)	Atgynhyrchu
Hannah Abbott (t.89)	Hanna Annwyl (t.93)	Addasu'n orgraffyddol/Domestigeiddio
Susan Bones (t.89)	Siwsan Bowen (t.93)	Addasu'n orgraffyddol/Domestigeiddio
Mandy Brocklehurst (t.89)	Mari Beynon (t.94)	Domestigeiddio
Terry Boot (t.89)	Tomos Belis (t.94)	Domestigeiddio
Lavender Brown (t.89)	Lowri Brychan (t.94)	Domestigeiddio
Justin Finch-Fletchley (t.89)	Ithel Fychan (t.94)	Domestigeiddio
Moon (t.90)	Morus (t.95)	Domestigeiddio
Nott (t.90)	Niclas (t.95)	Domestigeiddio
Sally-Anne Perks (t.90)	Siriol Pennant (t.95)	Domestigeiddio
Lisa Turpin (t.91)	Leusa Thomas (t.96)	Domestigeiddio
Angelina Johnson (t.137)	Anwen Jones (t.146)	Domestigeiddio
Alicia Spinnet (t.137)	Alys Seiriol (t.146)	Domestigeiddio
Adrian Pucey (t.137)	Alwyn Parry (t.146)	Domestigeiddio
Dean Thomas (t.107)	Dafydd Thomas (t.113)	Domestigeiddio
Oliver Wood (t.112)	Orwig Bedwyr (t.119)	Domestigeiddio
Draco Malfoy (t.82)	Dreigo Mallwyd (t.84)	Addasu'n orgraffyddol/Domestigeiddio
Crabbe (t.82)	Edeyrn (t.84)	Domestigeiddio
Goyle (t.82)	Efnisien (t.84)	Domestigeiddio
Neville Longbottom (t.83)	Nefydd Llywelyn (t.82)	Domestigeiddio
Millicent Bulstrode (t.89)	Mabli Berwyn (t.94)	Domestigeiddio
Morag MacDougal (t.90)	Morag MacDougal (t.95)	Atgynhyrchu
Blaise Zabini (t.91)	Blaise Zabini (t.96)	Atgynhyrchu
Seamus Finnigan (t.93)	Seamus Finnigan (t.94)	Atgynhyrchu
Pansy Parkinson (t.110)	Prydwen Parri (t.95)	Domestigeiddio
Parvati Patil (t.110)	Parvati Patil (t.116)	Atgynhyrchu
Lee Jordan (t.114)	Lee Jordan (t.114)	Atgynhyrchu
Marcus Flint (t.137)	Marcws Fflint (t.146)	Addasu'n orgraffyddol
Katie Bell (t.137)	Cadi Gwyrfain (t.146)	Domestigeiddio
Bletchley (t.137)	Bleddyn (t.147)	Domestigeiddio
Terence Higgs (t.138)	Terence Higgs (t.148)	Atgynhyrchu



**Tabl 2: Enwau Personol y Prif Gymeriadau**

<i>Harry Potter and the Philosopher's Stone</i>	<i>Harri Potter a Maen yr Athronydd</i>	<b>Penderfyniad y cyfieithydd</b>
Harry Potter (t.15)	Harri Potter (t.10)	Addasu'n orgraffyddol/Atgynhyrchu
Ron Weasley (t.72)	Ron Weasley (t.78)	Atgynhyrchu
Hermione Granger (t.82)	Hermione Granger (t.82)	Atgynhyrchu
Rebus Hagrid (t.11)	Rebus Hagrid (t.16)	Atgynhyrchu

**Tabl 3: Enwau Personol yr Ysbrydion**

<i>Harry Potter and the Philosopher's Stone</i>	<i>Harry Potter a Maen yr Athronydd</i>	<b>Penderfyniad y cyfieithydd</b>
Peeves (t.86)	Piwsiwyr (t.91)	Domestigeiddio
Sir Nicholas de Mimsy-Porpington (Nearly Headless Nick) (t.92)	Syr Goronwy ap Gwallter (t.97)	Domestigeiddio
The Bloody Baron (t.96)	Waldo Waedlyd (t.101)	Domestigeiddio
Fat Friar (t.87)	Y Brawd Tew (t.91)	Cyfieithu'n llythrennol
Fat Lady (t.116)	Y Wraig Dew (t.123)	Cyfieithu'n llythrennol

**Tabl 4: Enwau Personol yr Awduron**

<i>Harry Potter and the Philosopher's Stone</i>	<i>Harri Potter a Maen yr Athronydd</i>	<b>Penderfyniad y cyfieithydd</b>
Miranda Goshawk (t.52)	Medwen Gosog (t.52)	Domestigeiddio
Bathilda Bagshot (t.52)	Blodeuwedd Brython (t.52)	Domestigeiddio
Adalbert Waffling (t.52)	Arawn Awyrfalwr (t.52)	Domestigeiddio
Emeric Switch (t.52)	Emrys Ffeiriwr (t.52)	Domestigeiddio
Phyllida Spore (t.52)	Ffion Ffwng (t.52)	Domestigeiddio
Arsenius Jigger (t.52)	Joch Arsenig (t.52)	Domestigeiddio
Newt Scamander (t.53)	S. G. Iâm (t.52)	Domestigeiddio
Quentin Trimble (t.53)	Cynan ap Tegid (t.52)	Domestigeiddio

**Tabl 5: Enwau Personol yr Athrawon**

<i>Harry Potter and the Philosopher's Stone</i>	<i>Harry Potter a Maen yr Athronydd</i>	<b>Penderfyniad y cyfieithydd</b>
Madam Hooch (t.94)	Madam Heddwen (t.146)	Domestigeiddio
Madam Pince (t.146)	Madam Powys (t.156)	Domestigeiddio
Madam Pomfrey (t.116)	Madam Prysorwen (t.124)	Domestigeiddio
Professor Sprout (t.206)	Yr Athro Sgewyll (t.104)	Cyfieithu'n llythrennol
Professor Binns (t.99)	Yr Athro Bowen (t.104)	Domestigeiddio
Professor Flitwick (t.99)	Yr Athro Flitwick (t.99)	Atgynhyrchu
Argus Filch (t.94)	Argus Filch (t.99)	Atgynhyrchu
Professor Minerva McGonagall (t.13)	Yr Athro Minerva McGonagall (t.7)	Atgynhyrchu
Professor Albus Dumbledore (t.12)	Yr Athro Albus Dumbledore (t.7)	Atgynhyrchu
Professor Severus Snape (t.94)	Yr Athro Severus Sneip (t.99)	Atgynhyrchu/Addasu'n orgraffyddol
Professor Quirrell (t.55)	Yr Athro Quirrel (t.54)	Addasu'n orgraffyddol

**Tabl 6: Enwau Personol Cymeriadau o Fyd y Myglers**

<i>Harry Potter and the Philosopher's Stone</i>	<i>Harri Potter a Maen yr Athronydd</i>	<b>Penderfyniad y cyfieithydd</b>
Vernon Dursley (t.21)	Vernon Dursley (t.16)	Atgynhyrchu
Petunia Dursley (t.11)	Petiwnia Dursley (t.5)	Addasu'n orgraffyddol/Atgynhyrchu
Dudley Dursley (t.19)	Dudley Dursley (t.13)	Atgynhyrchu
Piers Polkiss (t.22)	Piers Polkiss (t.18)	Atgynhyrchu
Dennis (t.28)	Dennis (t.25)	Atgynhyrchu
Malcolm (t.28)	Malcolm (t.25)	Atgynhyrchu
Gordon (t.28)	Gordon (t.25)	Atgynhyrchu
Marge (t.21)	Marge (t.17)	Atgynhyrchu
Mrs Figg (t.21)	Mrs Figg (t.17)	Atgynhyrchu
Yvonne (t.22)	Yvonne (t.17)	Atgynhyrchu
Tibbles (t.22)	Tibbles (t.17)	Atgynhyrchu
Snowy (t.22)	Snowy (t.17)	Atgynhyrchu
Mr Paws (t.22)	Mr Paws (t.17)	Atgynhyrchu
Tufty (t.22)	Tufty (t.17)	Atgynhyrchu
Jim McGuffin (t.10)	Jim McGuffin (t.5)	Atgynhyrchu
Harvey (t.9)	Harvey (t.3)	Atgynhyrchu
Harold (t.9)	Harold (t.3)	Atgynhyrchu
Ted (t.10)	Ted (t.5)	Atgynhyrchu

**Tabl 7: Enwau'r Cymeriadau Eraill**

<i>Harry Potter and the Philosopher's Stone</i>	<i>Harri Potter a Maen yr Athronydd</i>	<b>Penderfyniad y cyfieithydd</b>
Lilly Potter (t.9)	Lili Potter (t.14)	Addasu'n orgraffyddol/Atgynhyrchu
James Potter (t.9)	Iago Potter (t.14)	Domestigeiddio/Atgynhyrchu
Dedalus Diggle (t.13)	Dyfyr Drwyndwn (t.8)	Domestigeiddio
Sirius Black (t.17)	Siriws Ddu (t.12)	Addasu'n orgraffyddol/Cyfieithu'n llythrennol
The Prewetts (t.45)	Criw Pennant (t.43)	Domestigeiddio
The McKinnons (t.45)	Y Morusiaid (t.43)	Domestigeiddio
The Bones (t.45)	Teulu Bronfai (t.43)	Domestigeiddio
Cornelius Fudge (t.51)	Caradog Fychan (t.50)	Domestigeiddio
Tom (t.54)	Twm (t.54)	Domestigeiddio
Doris Crockford (t.54)	Cadi Morgan (t.54)	Domestigeiddio
Griphook (t.58)	Bachwr (t.59)	Domestigeiddio
Madam Malkin (t.59)	Malan Meirion (t.60)	Domestigeiddio
Mr Ollivander (t.65)	Onllwyn ab Oswallt (t.65)	Domestigeiddio
Ginny (t.70)	Ginny (t.72)	Atgynhyrchu
Hedwig (t.71)	Hedwig (t.73)	Atgynhyrchu
Bill (t.75)	Bill (t.78)	Atgynhyrchu
Charlie (t.75)	Charlie (t.78)	Atgynhyrchu
Hengist of Woodcroft (t.78)	Hengist o Woodcroft (t.81)	Atgynhyrchu
Alberic Grunnion (t.78)	Alberic Grunnion (t.81)	Atgynhyrchu
Circe (t.78)	Circe (t.81)	Atgynhyrchu
Paracelsus (t.78)	Paracelsus (t.81)	Atgynhyrchu
Merlin (t.78)	Myrddin (t.81)	Domestigeiddio
Cliodna (t.78)	Cliodna (t.81)	Atgynhyrchu
Great Uncle Algie (t.93)	Hen Ewythr Alwyn (t.98)	Domestigeiddio
Scabbers (t.97)	Crachyn (t.102)	Domestigeiddio
Mrs Norris (t.99)	Mrs Huws (t.104)	Domestigeiddio
Emeric the Evil (t.99)	Aldyth yr Aflan (t.105)	Domestigeiddio
Uric the Oddball (t.99)	Edmwnd y Crinc (t.105)	Domestigeiddio
Wizard Baruffio (t.126)	Dewin Baruffio (t.135)	Atgynhyrchu
Fluffy (t.141)	Fflwffyn (t.184)	Domestigeiddio
Grindelwald (t.160)	Grindelwald (t.173)	Atgynhyrchu
Perenelle (t.161)	Perenel (t.174)	Addasu'n orgraffyddol
Norbert (t.172)	Nerys (t.181)	Domestigeiddio
Fang (t.174)	Ffang (t.189)	Addasu'n orgraffyddol
Elric the Eager (t.192)	Abel yr Awyddus (t.209)	Domestigeiddio
Great Aunt Enid (t.92)	Hen Fodryb Enid (t.98)	Atgynhyrchu
Agrippa (t.77)	Agrippa (t.79)	Atgynhyrchu
Ptolemy (t.80)	Ptolemy (t.77)	Atgynhyrchu
Morgana (t.80)	Morgana (t.77)	Atgynhyrchu
Ronan (t.184)	Collwyn (t.200)	Domestigeiddio
Bane (t.185)	Islwyn (t.201)	Domestigeiddio
